

ECO'R WYDDFA

Rhif 257

MEHEFIN 1999

Pris 30c

Goresgyniad Heddychlon

Roedd yr ymosodiad wedi ei drefnu i'r manylyn lleiaf. Prin ddeucant oedd ei angen i fylchu cadarnfur naw milltir o hyd. Roedd nifer wedi sleifio i mewn o'r cefn yn lifrai Band Deiniolen. Llithrodd eraill drwy'r gatiau yng ngwisg Côr Meibion Dyffryn Peris, ond roedd y mwyafrif, amryw â chymorth ffon, ac ambell un mewn cadair olwyn, wedi herio milltir o ffordd o'r fynedfa i fyny at gadarnle'r hen elyn. A daeth brwydr olaf Stâd y Faenoll i ben yn swm nodau cynn arian a chanu gorfoleddus.

Defnyddiwyd y cymal 'digwyddiad hanesyddol' yn aml dros yr wythnosau diwethaf wrth ddisgrifio cyfnod gwleidyddol newydd yn hanes Cymru, ac yr oedd dydd Sadwrn, 22ain o Fai yn haeddu'r un disgrifiad yn hanes bro'r *Eco*, wrth i gynchwarelwyr Dinorwig dderbyn gwahoddiad i ymweld â rhan o Arfon a fu'n gaeedig i genedlaethau o'u cyn-deidiau — y plasdy a'r adeiladau oddi mewn i waliau Stâd y Faenol ger Bangor.

Fe'u gwahoddwyd yno gan gwmni Faenol Cyf., cwmni cydweithredol a sefydlwyd i gynnig hyfforddiant ym maes adeiladu cadwriaethol. Maent wedi prydlesu'r tir a'r adeiladau am gyfnod dechreuol o bymtheg mlynedd oddi wrth Stâd Glangwna, perchnogion Y Faenol; ac wedi derbyn arian yn sgîl Cynllun Ardal y Llechen i sefydlu'r fenter. Yn rhan o'r fenter honno mae Cyngor Gwynedd, Awdurdod Datblygu Cymru, Celtec a Chanolfan Cydweithredol Cymru. Rhan gyntaf cynllun uchelgeisiol fydd cynnig hyfforddiant mewn mae lle mae prinder dybryd o weithwyr ar hyn o bryd, sef sgiliau adeiladu traddodiadol.

Eglurwyd fod galw mawr am grefftwyr traddodiadol lleol, ac y byddai sefydlu canolfan hyfforddi o'r fath yn Arfon yn sicrhau fod trigolion lleol yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau a fyddai'n sicrhau gwaith parhaol iddynt i'r dyfodol. Ychydig sy'n sylweddoli fod dros £40 miliwn wedi eu gwario yng ngogledd Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf ar brosiectau'n ymwneud ag adeiladu cadwriaethol (£3 miliwn ar adfer Plas Mawr, Conwy) — ond fod y rhan fwyaf

At holl ddarllenwyr yr *Eco* . . .

CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

yn y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG
NOS FAWRTH, 15 MEHEFIN 1999

am 7.30 o'r gloch

EICH PAPUR CHI YDIO . . .

MAE EI DDYFODOL YN EICH DWYLO CHI . . .

TAER ERFYNNIR AM EICH CEFNOGAETH

o'r arian wedi'i dalu i weithwyr a chontractwyr o'r tu allan i Gymru am nad oedd yr arbenigedd ar gael yn lleol. Bydd sefydlu'r ganolfan hyffordd yn Y Faenol yn gam tuag at unioni'r diffyg hwnnw.

Golygfa i'w thrysori oedd gwyllo'r cyn-chwarelwyr yn ymlwybro i fyny'r dreif yn swm croeso Band Deiniolen, ac yn cael mynediad i'r plasdy i

wrando ar eitemau gan Gôr Meibion Dyffryn Peris. Yno, yn un o ystafelloedd ysblennydd y plas bu aelodau o'r bartneriaeth yn egluro eu dyheadau am lwyddiant menter Faenol Cyf. Ymhlith y siaradwyr roedd John Wyn Williams, cynghorydd sir lleol a chadeirydd cwmni Faenol Cyf, a Llew Roberts (o Lanberis) sy'n gweithio i Gwmni Cydweithredol Cymru ac a fu'n cynorthwyo gyda sefydlu cwmni'r Faenol Cyf, ac yn flaengar yn nhrefniadau'r diwrnod.

Yn dilyn cafwyd teithiau wedi eu tywys o amgylch rhai o'r hen adeiladau — mae'n syndod meddwl fod 70 o adeiladau rhestredig ar y safle, nifer ohonynt yn rhai gradd 1. Mae rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, ac yn enghreifftiau unigryw o'r math o adeiladau a berthynai i stâd wledig Gymreig, yn amrywio o'r hen blas, i ysguboriau, stablau, eglwys a chladdfa deuluol. Bydd

(Parhad ar dudalen 2)



Y rhod yn troi'n y Felin

Mae pobl ym mhob rhan o wledydd Prydain yn gwybod am gwt band newydd Deiniolen erbyn hyn. Rhoddwyd sylw i 'Hen Felin' ar raglen y Loteri ar deledu'r BBC yn ystod yr wythnos cyn yr agoriad swyddogol ar 15 Mai.

Mae Seindorf Arian Deiniolen wedi derbyn grant o £263,364 o'r Loteri trwy Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn addasu'r hen adeilad a fu'n gartref i'r band ers 1929. Cafwyd grantiau pellach o £40,000 oddi wrth Gyngor Gwynedd a £8,454 oddi wrth y Sefydliad Chwaraeon a Chelfyddydau.

Hen felin lechi yw'r adeilad, a gellir olrhain ei hanes yn ôl i 1820. Daeth yn eiddo i gwmni trin llechi'r 'Glandinorwic Slate Works' a sefydlwyd yn 1853 gan Samuel Jones. Y cwmni hwn oedd yr unig un a gynhyrchai'r llechi 'Crown' a ddefnyddiai plant i ysgrifennu arnynt yn yr ysgol. Yn ddiweddarach daeth yn eiddo i Stâd y Faenol. A phan chwalodd Stâd y Faenol yn 1968 rhoddwyd yr adeilad yn rhodd i'r band gan ei fod wedi bod yn

denant ers 1929 er pan ddechreuwyd defnyddio'r llawr uchaf yr hen felin yn ystafell ymarfer.

Dros y blynyddoedd diwethaf defnyddiwyd llawr isaf yr hen

felin gan amryw o grefftwyr lleol, a'r olaf ohonynt oedd Gwilym Williams oedd yn defnyddio'r lle tan haf 1998 fel gweithdy i gynhyrchu nwyddau ysgafn o lechi.

Mae'n anodd credu mai ychydig dros chwe mis sydd ers cychwyn y gwaith addasu. Erbyn hyn mae'r lle wedi ei weddnewid. Mae'r gweithdy, â'i waliau llechi a'i lawr pridd, a'r ystafell ymarfer

(Parhad ar dudalen 2)



ECO'R WYDDFA

Rhif 257
MEHEFIN 1999

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, GORFFENNAF 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MEHEFIN 21

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â
GORFFENNAF	MEHEFIN 21	GORFFENNAF 1	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 23	MEDI 2	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 20	MEDI 30	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 18	HYDREF 28	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	RHAGFYR 2	CAEATHRO	Mr Clive James



dau o'r adeiladau yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant, a'r gweithwyr wedyn yn cael ymarfer eu crefft i gynorthwyo gydag adfer yr hen adeiladau ar y safle.

Roedd gwaith eisoes wedi ei ddechrau yn yr hen blas — ac ystafell ddirgel wedi ei darganfod yn un o'r selerydd. Bydd angen peth gwaith archaeolegol cyn symud ymlaen gyda'r gwaith cadwriaethol. Darganfuwyd arfbais yr hen deulu Cymreig (Williamsiaid y Faenol) mewn tomen sbwriel, a chafwyd caniatâd i'w ddefnyddio fel arfbais y cwmni newydd. Daeth cyfnod yr Assheton Smiths i ben, ac mae'n arwyddocaol fod Faenol Cyf, am ddefnyddio arfbais yr hen deulu Cymreig fel arwydd o'u hyder yn nyfodol y fenter.

Un o'r caneuon a ganwyd gan y côr oedd 'Cerddwn Ymlaen'; cân addas iawn mewn mis y bu digwyddiadau hanesyddol o fewn ein bro a thrwy Gymru. Mae'r olwyn yn troi a daeth dau gant o ddisgynyddion gwerin y graig i dystio i'r cam cyntaf mewn cychwyn newydd yn hanes Ardal y Llechen.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant

Y rhod yn troi'n y Felin

(Parhad o'r dudalen flaen)

foel wedi eu troi yn adeilad moethus deniadol yr oedd pawb a'i gwelodd ddiwrnod yr agoriad swyddogol yn dotio ato. Mae ystafell gymuned ynghyd â chegin a thoiledau ar y llawr isaf; ac ar y llawr uchaf mae'r ystafell ymarfer newydd ynghyd â storfa, swyddfa a thoiledau. Ac mae'r waliau, y lloriau a'r nenfydau wedi eu trin yn benodol ar gyfer sicrhau'r amodau acwstig gorau posibl. Yn yr estyniad newydd ceir grisiau sy'n cysylltu'r ddau lawr. Mae hyn yn hwyluso pethau'n arw o gofio mai trap-door yn unig oedd yno cynt!

Agorwyd yr adeilad yn swyddogol yn y bore gan Dafydd

Wigley (yr Aelod Seneddol a'r Aelod o'r Cynulliad) ac Ian Williams, Is-gadeirydd y Seindorf a'r un a fu, fel rheolwr y prosiect, yn bennaf gyfrifol am lwyddiant y fenter. Mae aelodau'r band a'r gymuned gyfan yn ymwybodol o lafur caled Ian ers misoedd lawer ac yn sylweddoli na fyddai'r fath raen ar yr adeilad oni bai amdano ef. Yn ogystal â chymryd rhan yn y seremoni agoriadol roedd Ian wedi cael rhan flaenllaw yn rhaglen deledu'r Loteri gan mai ef a wahoddwyd i gychwyn y peiriant peli y noson honno. Erbyn diwedd y diwrnod agored roedd rhai cannoedd o gyfeillion y Seindorf wedi cael cyfle i weld yr adeilad.

Mae'r Seindorf yn edrych ymlaen yn llawn brwdfrydedd at gyfnod cyffrous newydd yn ei hanes, ac yn gobeithio y bydd Helin Felin yn ganolbwynt i fywyd pentref Deiniolen am genedlaethau i ddod. Mae'n rhaid i chi deithio'n go bell i ddod o hyd i fand â chanddo cystal canolfan. Mwy na hynny gall Deiniolen ymfalchïo bod ganddo adeilad sy'n cymharu, os nad yn rhagori, ar oreuon adeiladau'r fro erbyn hyn. Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd ynglŷn â'r band.



BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

Y Sefydliad Coffa, Llanrug Cronfa'r Ganolfan Gymdeithasol

Mae nifer o flynyddoedd bellach ers i'r syniad o sefydlu Canolfan Gymdeithasol yn Llanrug gael ei wyntyllu. Ddegawd yn ôl dechreuwyd ar gynllun uchelgeisiol o uno holl fudiadau'r pentref a chael adeilad newydd sbon ar eu cyfer, ond profodd y fenter honno y tu hwnt i'r gymuned yn ariannol. Pan fu'n rhaid diddymu'r bartneriaeth wreiddiol honno, penderfynwyd trosglwyddo'r arian oedd eisoes wedi'i gasglu i Gronfa'r Sefydliad Coffa, gyda'r bwriad o'i adnewyddu. Roedd hynny ddwy flynedd yn ôl.

Ym mis Medi 1997 cyfarfu pwyllgor y Sefydliad Coffa a phenderfynwyd mynd ati o ddifri i dynnu allan gynlluniau fyddai'n addasu'r adeilad presennol a'i wneud yn dderbyniol i holl aelodau'r gymuned ar gyfer y milflwydd. Cyflogwyd Cwmni Pensel — cwmni lleol o Lanrug — i ddarparu cynlluniau, a chafwyd grant ariannol i dalu'r rhan helaeth o'u costau.

Cyflwynwyd cynlluniau i'r pwyllgor oedd yn golygu gwaith adeiladu o'r tu cefn i'r adeilad presennol, tra'n cadw wyneb y Sefydliad ar ei ffurf draddodiadol. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost tua £180,000. Roedd pwyllgor bychan, ond gweithgar, eisoes wedi cychwyn ar y broses o godi arian, ac y mae'r gwaith hwnnw'n parhau hyd heddiw.

Penderfynwyd gwneud cais am grant ariannol gan 'Cynnal', corff oedd yn cynnig cymorth gyda chynllun Canolfannau Bro i'r Milflwydd. Fis Ebrill eleni, fel yr adroddwyd yn rhifyn diwethaf o'r Eco, daeth y newydd fod y Sefydliad Coffa wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais — un o ddau yn unig yng Ngwynedd. Roedd y grant yn werth £90,000, ac yn sgîl hyn roedd sicrwydd o £22,500 ychwanegol gan y Swyddfa Gymreig. Bellach, roedd cyrraedd y nod ariannol yn edrych yn llawer nes.

Derbyniwyd rhoddion sylweddol gan rai busnesau lleol, ac y mae ceisiadau am grantiau ariannol wedi eu cyflwyno hefyd i Gyngor Gwynedd, Cyngor Cymuned Llanrug ac amryw o gyrff elusennol eraill. Mae'r gronfa leol wedi cynyddu i tua £8,000 ac mae'r pwyllgor yn hyderus o gyrraedd y nod.

Ond mae angen cymorth i gasglu gweddill yr arian. I'r perwyl hwn, mae pwyllgor y Sefydliad Coffa wedi cyhoeddi taflen yn amlinellu hanes datblygiad y cais, ac yn apelio am gyfraniadau gan bobl Llanrug a'r cylch. Bydd y daflen yn cel ei dosbarthu i bob cartref yn yr ardal yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd copïau ychwanegol ar gael yn Swyddfa'r Post ac yn rhai o'r siopau lleol. Eglurir yn y daflen y byddai cyfraniad o £5 gan bob un o etholwyr ardal Llanrug yn chwyddo Cronfa'r Ganolfan o tua £10,000, ac y

mae addewidion am symiau mwy na £5 wedi eu derbyn yn barod gan amryw.

Bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Sefydliad Coffa yn cael ei gynnal am 7 o'r gloch nos Lun, 7fed o Fehefin. Estynnir gwahoddiad i drigolion ardal Llanrug i'r cyfarfod — i gael mwy o wybodaeth am y cynllun ac i roi cyfle i bobl wirfoddoli i gynnig cymorth ariannol neu ymarferol gyda'r gwaith. Yn ystod yr wythnos wedi'r cyfarfod bydd aelodau'r Sefydliad yn galw yng nghartrefi'r ardal i gasglu rhoddion.

Mae'r freuddwyd o gael Canolfan Gymdeithasol wedi ei lleoli yn y Sefydliad Coffa ar fin cael ei wireddu. Ydych chi, pobol

Diwrnod Agored y Frigâd Dân

Mae Diwrnod Agored i'w gynnal ddydd Llun Gŵyl y Banc — 31 Mai — yng Ngorsaf Dân Llanberis, rhwng un a phedwar o gloch y pnawn. Bydd croeso i bawb — o bob olygu i fod yn ddiffoddwr neu ddiffoddwraig tân lleol.

Cewch weld yr injan dân a chewch weld pa mor fedrus mae'r diffoddwyr tân yn tynnu to i ffwrdd oddi ar gerbyd. Rydym hefyd yn gobeithio cael arddangosfa o'r hyn i'w wneud — ac i beidio'i wneud — os aiff eich sosban chips fynd ar dân yn eich cegin.

Mae'r Frigâd Dân yn rhan bwysig o'r gymuned ac ar gael i helpu pryd bynnag fo'r angen, ac yn gallu wneud hynny'n gyflym.

Mae diffoddwyr tân wedi eu hyfforddi mewn llawer iawn o wahanol weithgaredd sy'n amrywio o ymdrin â thân, llifogydd, damweiniau ffyrdd neu gorlif cemegol, a nifer o wasanaethau eraill

Pe bai argyfwng a fydddech chiwi'n hoffi gallu helpu eich cymydog neu ffrind mewn ffordd ymarferol? Os

Llanrug, yn fodlon helpu i roi'r hwb bach ychwanegol sydd ei angen i gael canolfan newydd yn y pentref ar ddechrau'r milflwydd?

'buaswn' yw eich ateb yna darllenwch ymlaen.

Dynion a merched cyffredin yw'r diffoddwyr tân rhan-amser ac yn cael eu talu i fod yn barod i fynd ar ddyletswydd y funud y derbynnir galwad brys. Mae'r diffoddwyr yn dod o bob math o wahanol alwedigaethau — adeiladwyr, ffermwyr, teipyddion, siopwr — ond pan ddaw'r alwad brys o'r orsaf dân byddant yn dod ynghyd i ffurfio tîm sydd â'r gallu i ddelio ag unrhyw broblem y maent yn debygol o'i hwynebu.

Er mai gweithwyr 'rhan-amser' ydynt maent yn bobl fedrus sydd wedi eu hyfforddi'n drwyadl i achub bywydau.

Mae prinder diffoddwyr tân ar hyn o bryd oherwydd nifer helaeth o bobl yn byw mewn un ardal ond yn gweithio mewn ardal arall. *Efallai y gallech chiwi helpu i lenwi'r bylchau.*

Peidiwch â choelio popeth am y rhai sy'n gweithio i'r gwasanaeth tân gan fod ymladdwyr tân o bob lliw a llun, a phob maint a siâp — ond mae'n rhaid bod yn eithaf heini ac iach i wneud y gwaith. Felly, os ydwyf yn dal i fedru dal eich sylw, beth fydd ei angen i chiwi'i wneud i ymuno â'r bobl 'gyffredin' hyn?

Mae'n angenrheidiol i chiwi fod yn gweithio neu'n byw yn agos i'r orsaf dân gan y bydd angen cyrraedd yno o fewn munudau o dderbyn yr alwad brys. Rhaid bod o leiaf 18 oed. Nid oes angen unrhyw gymhwyster ond gofynnir i chiwi gymryd prawf corfforol syml. Mae rhinweddau fel synnwyr cyffredin, ymroddiad a brwdfrydedd i'r gwaith yn bwysig.

'Rydych yn debygol o gael eich galw allan dwy neu dair gwaith yr wythnos am awr neu ddwy. Os na ellwch fod ar gael drwy'r amser, nid yw hynny'n broblem. Gallwch gael tâl am fod ar gael am ddim ond rhan o'r amser, ond mae prinder arbennig yn ystod oriau gwaith ganol wythnos.


Byddwch yn cael eich hyfforddi i ddefnyddio offer a sgiliau eraill megis Cymorth Cyntaf — gall y cymwysterau hyn fod o fantais i chiwi yn eich bywyd y tu allan i wasanaeth y Frigâd Dân — ac fe gewch eich talu! Byddwch yn cael blaen-dâl sylfaenol, ffi am gael eich galw allan a ffi arall am wneud unrhyw waith ychwanegol. Byddwch hefyd yn cael eich talu am nosweithiau ymarfer ac mae gwobr am wasanaeth hir ar gael hefyd.

Mae perthynas arbennig ymysg ymladdwyr tân wrth iddynt weithio gyd'i gilydd mewn amgylchiadau a allai fod yn beryglus.

Os ydych yn meddwl eich bod yn addas ar gyfer ymuno â thîm y Frigâd Dân yn Llanberis yna cysylltwch ag unrhyw un o ddiffoddwyr yr orsaf unrhyw amser, neu dewch draw i'r Diwrnod Agored a chewch drin a thrafod unrhyw fater a hoffech — efallai y cewch baned hefyd!

Rhagor o Newyddion LLANRUG

DYMUNIADAU gorau ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fehefin 12 i Mrs Persis James, Bryn Mair, Llanrug gan ei theulu a'i ffrindiau oll.



CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod.

Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

JOHN H. HUGHES
TAN Y CLOGWYN
LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4LF
Ffôn: (01286) 871562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn 31 Awst 1999. Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiau cau.

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n dymor yr Eisteddfodau mawr. Mae'n dymor cystadlu. Rydan ni fel cenedl yn hoff o gystadlu ac mae pob un ohonon ni wedi cael yr ysfa i gystadlu rywdro neu gilydd.

I chi ferched mae'r dyddiau o gystadlu am yr het fwy blodeuog drosodd, ond wi ddim mor siŵr am y dillad. Ond waeth i ni gyfadde ddim, mi fyddai bywyd yn eitha llwm a diflas onibai am yr ysfa i gystadlu.

Mae 'na filoedd wedi cael clod trwy gystadlu. Mae 'na fwy wedi cael cam. Mae 'na gannoedd wedi cael pleser — eraill wedi cael poen ac wedi pwdu.

Ydi, mae'r awydd i gystadlu yn reddfod ymhob un ohonon ni, boed o mewn steddod neu sioe, gêm neu fabolgampau — sioeau babanod i sioeau blodau. Ydi, mae'r maes cystadlu yn faes eang — o fyd cystadleuaeth Siôn a Siân i fyd lwcus ennill y loteri drwy gystadlu yn erbyn ffawd.

Ystyr y gair 'cystadlu' ydi cydymgeisio, ymgiprys, ymryson, sy'n dod â ni at y term ymryson neu dalwrn y beirdd, ac mae beirdd Cymru wedi bod yn gystadleuol erioed. Ystyriwn y 'gynnau mawr' a ddaeth i amlygrwydd am y tro cyntaf drwy ennill prif wobrwon yn yr Eisteddfod Genedlaethol — rhai fel T. Gwynn Jones, Robert Williams Parry, T. H. Parry-Williams, Cynan, Caradog Prichard, ac eraill. Beirdd a gafodd yr awydd i gystadlu yn ifanc ac yna mynd o'u gwobr at eu gwaith.

* * *

Mae'n siŵr gen i mai'r gystadleueath gynta i unrhyw un sydd â'r awydd bod yn fardd iddo roi cynnig arni ydi'r llinell goll neu'r limgrig. Mae cynulleidfa eisteddfod bob amser yn edrych ymlaen at feirniadaeth y limrig neu'r linell goll — yn enwedig felly os rhoddir cyfle iddyn nhw fod yn ddoniol a chellweirus. Cofiw'n bod yna gystadleuaeth 'limrig y dydd' yn ein Prifwyl ers rhai blynedd.

Dyma rai o'r gemau a dderbyniais yn ystod y

blyneddodedd. Dwi'n cofio gosod tasg yn Eisteddfod Gwaun Gynfi rai blyneddodedd yn ôl — gorffen limrig a'r llinell gynta oedd, 'Mae merch o ardal Gwaun Gynfi'. Dyma un a 'blas lleol' arni ar y pryd gan mai Ifor Glyn Evans, a oedd yn byw yn Afon Goch ar y pryd:

*Mae merch o ardal Gwaun Gynfi
Yn loncian i gadw yn heini,
Mewn gwisg las a choch
A gwrid ar ei boch
A gŵr Afon Goch ar ei hól hi.*

Un arall oedd:

*Mae merch o ardal Gwaun Gynfi
Yn loncian i gadw yn heini,
Mewn gwisg las a choch
A gwrid ar ei boch
A'i lymphia hi'n woblio fel jeli.*

Ia, gair da ydi'r woblio 'na yn y cyswllt hwn!

Un arall oedd: *Y gnawes, a hithau yn sefnti.*

Daw un arall i'r cof:

*'Mi anghofiais fy myjamas'
Meddai Siôn yn ôl yr hanas
'Nefoedd mawr,' medd Siân mewn dychryn,
'Mae dy gorff di gyd yn locsyn.'*

Un arall: *Gwelais fwy o gig ar gortyn.*

A dyma i chi gynnig clyfar a gefais yn Eisteddfod Llanrug: *'Sgwn i, be' ddigwyddodd wedyn'.*

A llyncwch hon i gloi: *'Tyrd a mhilsen i reit sydyn'.*

* * *

Ddechrau'r mis 'ma roeddwn i'n beirniadu yn Eisteddfod Gadeiriol Treffynnon am y drydedd flwyddyn yn olynol. Naw yn cystadlu am y Gadair a chwech ohonyn nhw'n deilwng o'r wobr. Mae Treffynnon yn un o'r ychydig drefi yng Nghymru lle cynhelir eisteddfod flynyddol. Mae Llanrwst yn un arall. Ia, perthyn i bentrefi cefn gwlad Cymru mae'r diwylliant eisteddfodol. Pam 'sgwn i?

Ond mae gŵyl flynyddol Treffynnon, o dan arweiniad

Gron Elis, a'r gŵr sydd â'i wreiddiau ar lethrau'r Fachwen — Norman Closs Parry — yn mynd ymlaen o nerth i nerth. Gyda llaw, mae'n hen bryd i Norman gael tipyn o lwc a gwisgo'r Goron Genedlaethol — bu'n agos fwy nag unwaith.

Testun yr englyn ysgafn/crafog yn Eisteddfod Treffynnon oedd 'Cael Cam'. Feiddiwn i ddim gwneud cam a'r ddau englyn isod, felly fe roddais y ddau'n gydradd. Mae pob cystadleuydd eisteddfodol wedi cael cam ryw

dro neu'i gilydd. Busnas felly ydi'r busnas cystadlu 'ma — ond daliwch ati.

Cael Cam

*Rhwydwyd Wil i briodi — wedi'r oed
A'r hwyl hefo Siani;
Ef yn iŵr a fynnai hi,
Ond Bob yw tad y babi.*

Cael Cam

*Achwyn am dacl uchel, — yna deif
a dwrn slei'n ei fogel,
'rôl cerdyn coch anochel,
codi 'mhac a cadw 'mhêl.*

Ac mi goda inna 'mhac am y tro hefyd. Hwyl ar y cystadlu!

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Cynhaliwyd cyfarfod nos Fercher, Mai 5 gyda'r Parchedig Tegid Roberts yn llywyddu. Pleser oedd cael croesawu i'n plith y Parchg Idris Thomas, Deon Gwlad Arfon. Cafwyd noson arbennig yn gwrandao arno'n sôn am y drychineb a ddigwyddodd gan mlynedd yn ôl pan aeth nifer fawr o bobl o ardal Chwarel Dinorwig gyda thrip Ysgol Sul i Bwllheli. Boddwyd deuddeg pan suddodd cwch rhwyfo ym Mae Ceredigion. Roeddent i gyd yn aelodau o Eglwys y Santes Fair, Dinorwig. Bydd gwasanaeth Deoniaethol yn cael ei gynnal yn Eglwys Crist Llandinorwig nos lau, Gorffennaf 1, am 7 o'r gloch, i gofio am y drychineb.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Iwan ac Euros Williams, Hafle, Rhos Faenol sy'n aelodau o fand Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog am ddod yn bencampwyr Ewrop 1999.

MARWOLAETH. Yn sydyn, ddydd Llun, Ebrill 12, fu farw Mrs Annie Thomas, 4 Bro Deiniol yn 86 mlwydd oed. Yn enedigol o'r Felinheli daeth i fyw i Craigle, Dinorwig ynghyd â'i phriod, Mr Robert Hugh Thomas a fu farw bedair blynedd ar ddeg yn ôl. Cartrefodd hithau yn fuan wedi hynny ym Mr Diniol. Gedy chwech o blant — Gwenda, Grace, Nan, Margaret, Mona ac Irfon a chydymdeimlir â hwy a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth. Bu'r angladd ddydd Sadwrn, Ebrill 17, gyda gwasanaeth cyhoeddus yn ei chartref ac yndilyn ym mynwent Llanddeiniolen.

DIOLCH. Dymuna plant a theulu'r ddiweddar Mrs Annie Thomas, 4 Bro Deiniol ddiolch i drigolion yr ardal am

bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ddiweddar. Roedd pob gair yn gysur. Diolch arbennig am y rhoddion hael tuag at offer meddygol ym Meddygfa Deiniolen er budd yr ardalwyr.

PLAID CYMRU. Enillwyr y Clwb Cant am fis mai oedd: £10 Mr Gwyn Parri, Cynefin; £5 Mr Ifan Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol.

YSGOL GWAUN GYNFI. Enillwyr y Clwb Cant ers dechrau'r flwyddyn oedd — Ionawr: 1, P. G. Brown, 14 Ffordd Deiniol (80); 2, R. Roberts, Caerwys (36); 3, Elan Williams, 15 Hafod Olau. Chwefror: 1, Gwyneth Ann Jones, Preswylfa, Clwt-y-bont (3); 2, M. R. Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont (33); 3, Delyth Hughes, Ysgol Gwaun Gynfi (114). Mawrth: 1, Clarice Roberts, Tan yr Henffordd (50); 2, Lynda Owen, 7 Tai Caradog (86); 3, Nia Williams, Blaen Cae Isaf (72). Ebrill: 1, Mari W. Williams, 3 Hafod Olau (99); 2, Gillian Price, 1 Hafod Garegog, Clwt-y-bont (12); 3, Myfi Peris Efans, Sŵn yr Awel, Gallt-y-Foel. (111).

COFIO' DRYCHINEB. Yn Eglwys Crist nos lau, Gorffennaf 1, am 7 o'r gloch, cynhelir gwasanaeth i gofio'r deuddeg o Eglwys St. Mair, Dinorwig a foddwyd ym Mhwllheli gan mlynedd union yn ôl.

CYNHELIR cyfarfodydd Cymdeithas y Beibl y cylch yn Neiniolen ddydd Sul, Mehefin 27. Bydd yr Ysgolion Sul yn cymryd rhan yn y prynhawn yn Ebeneser am 2 o'r gloch. Cynhelir yr ail gyfarfod yn Libanus am 6 o'r gloch, sef Cymanfa Ganu dan arweiniad Mr Arwel Jones, gyda Côr Dyffryn Nantlle yn cymryd rhan. Trefnir bws i'r ddau gyfarfod a bydd cyhoeddiad am amserau'r bws yn yr oedfaon y Sul cynt.

EMYR JONES

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513**

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.

Ar gyfer buwch neu darw

Hefyd:

Ymgymmerir â shafio gwartheg
tew

Dylan Roberts

Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli
(01758) 770279 : symudol 0421 956143

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

'Un funud fach . . .'

CAEL BLAS

Druan ohoni. Prin oedd y greadures wedi cael ei throed dros riniog y Cynulliad nad oedd yng nghanol ffrac gyhoeddus. Cyn i Christine Gwyther gael ei gwynt ati wedi iddi dderbyn y cyfrifoldeb dros amaeth a'r economi wledig yng nghabinet Alun Michael roedd galw croch am ei hymddiswyddiad. Nid ffermwyr yn unig sy'n cael trafferth i ddeall mai rhywun nad yw'n bwyta cig yw'r person mwyaf cymwys i ofalu am faterion amaeth o fewn y Cynulliad. Mae llawer yn cydymdeimlo â'r rhai sy'n ofni na all Ms Gwyther ofalu'n effeithiol am fuddiannau'r diwydiant amaethyddol. Amser a ddengys sut bydd yn cyflawni ei gwaith, a beth a ddaw ohoni yn ei swydd newydd.

Mae'n amlwg fod Mr Michael o'r farn y gall y gweinidog amaeth weithio er budd y diwydiant a hyd yn oed gymeradwyo cynnyrch y ffermwyr heb o reidrydd fwyta'r cig ei hun. Efallai ei fod yn iawn. Ond go brin y gallech chi ddweud yr un peth am weinidogion yr efengyl. Oes yna fodd i'r rheiny gymeradwyo'r Efengyl i bobl eraill heb iddynt hwy eu hunain fod wedi ei chredu a'i hanwyl? Go brin. A dyna bwysig yw hi ein bod ni weinidogion yn gweld gwerth Efengyl yr Arglwydd Iesu. Sut allwn ei chymeradwyo i neb arall os nad ydym ni ein hunain wedi ein swyno a'n hennill ganddi? Fedrwn ni ddim annog neb arall i ddod a phrofi'r Efengyl os nad ydym wedi cael blas arni ein hunain.

Ac nid am weinidogion yn unig mae hyn yn wir. Mae'n beryg fod yna bregethwyr lleyg a swyddogion ac aelodau eglwysig sy'n ceisio annog pobl eraill i ddilyn Iesu Grist heb iddynt hwy eu hunain fod wedi eu perswadio go iawn o werth gwneud hynny.

Mae gofyn i chi a minnau holi ein hunain yn gyson ynglŷn â'n cariad at yr Arglwydd Iesu a'n golwg ar ei waith achubol.

JOHN PRITCHARD

Llyfrgell Antur Waunfawr

Noson dyner o Ebrill a haul pinc-goch yn lliwio'r ystafell, arogleuon bendigedig hen lyfrau a hen lwch y blynyddoedd yn cosi'r trwyn. Hen ddogfennau brown budr a phytiau o gerddi ar bapur brau, lluniau hen, hen wynebau a rheini yn rhythu yn herfeiddiol arnaf. Cwmni y pethau hyn yw fy niddanwch pennaf y nosweithiau hyn. Methaf ddisgwyl i chwech o'r gloch ddod fel y gallaf gamu o swyddfa wyllt a phrysyr yr Antur i dawelwch, llonydd y Tŷ Capel. Nid newid awyrgylch yn unig a wnaif ond chwarae mig am ychydig gydag amser ei hun.

Fe wŷr y rhan fwyaf o ddarlennwyr yr *Eco* fod Antur Waunfawr wedi prynu Tŷ Capel Bethel ac wedi'i atgyweirio a'i addasu yn Ganolfan fydd o fudd i bawb o bob oed yn yr ardal. Er mai ar Awst 1af eleni mae'n cael ei agor yn swyddogol, mae'n rhyfeddol gweld cynifer sydd eisoes wedi dangos diddordeb ac wedi galw heibio i'w weld. Un o'r atyniadau ar hyn o bryd yw'r arddangosfa yn y cyntedd o luniau pobl Waunfawr a dynnwyd gan y ffotograffydd Keith Morris. Lluniau du a gwyn ydynt a stamp artistig ar bob un ohonynt, ambell i wyneb cyfarwydd, trwy lygaid a lens camera Keith, yn ymddangos yn wahanol a dieithr. Bydd ffilm meicro o'r lluniau hyn yn cael ei gladdu yng ngardd y Tŷ Capel, o dan y gofeb i John Evans, i rywun yn y dyfodol pell eu darganfod a rhythu arnynt, yn union fel y gwnaf i gyda'r hen luniau brown treuliedig rydym wedi ei dderbyn i'r llyfrgell. Tybed a fyddent hw yn y dyfodol yn ein gweld ni'n rhyfedd ac yn ddieithr, ac y byddent yn craffu i geisio dirnad pa stori sydd ynghlwm wrth bob wyneb? A fyddent yn deud 'y creaduriaid i be roeddan nhw'n ymdrybaeddu gyda phetha sydd bellach o ddim pwys?'.

A dyma fi'n dŵad yn ôl ar yr hyn rwyf wedi cael y pleser o'i wneud y nosweithiau diwethaf yma. Bwriad Antur Waunfawr yw creu llyfrgell gynhwysfawr yn y Tŷ Capel o lyfrau, lluniau a dogfennau sydd yn ymwneud â'r ardal. Rydym eisiau copi o pob llyfr a gyhoeddwyd gan awduron sy'n hanu neu a chysylltiadau agos â Waunfawr. Yna rydym

eisiau casgliad o lyfrau sy'n ymwneud â Waunfawr neu sydd a chyfeiriad diddorol am yr ardal ynddynt. Bydd y trydydd casgliad yn ymwneud â John Evans — llyfrau yn ymdrin â'i hanes; Cymru yn y cyfnod hwnnw; hanes cynnar yr Unol Daleithiau a hanes llwythau'r Indiaid Cochion ac yn arbennig llwyth y Mandaniaid. Rydym wedi prynu rhai llyfrau ond wedi derbyn llawer mwy gan bobl garedig yr ardal a thu hwnt a rydym yn hynod o ddiolgar iddynt. Cawsom help mawr hefyd gan gyhoeddwy'r llyfrau a siopau llyfrau Cymraeg — fe welwch bod y chwilen gasglu wedi cydio yn dynn ynom. Sylwedddolwn mai cychwyn rhywbeth yr ydym ac fe fydd y gwaith hwn yn parhau i'r dyfodol.

Mae pob llyfr a dderbyniwyd yn cael ei gatalogio gennym mewn hen lyfr lledr trwchus, sy'n cael ei gadw yn y Llyfrgell, ac hefyd ar gyfrifiadur. Cofnodwn yn ofalus enw y rhoddwr gyda'r manylion am y llyfr, gan y tybiwn y bydd hyn o ddiddordeb i'r cenedlaethau sydd i ddod; ac hefyd yn ffordd deilwng i ddiolch iddynt am eu caredigrwydd, nid yn unig i'r Antur ond i'r ardal gyfan. Yn yr un modd, cofnodwn pob llun a phob dogfen a dderbyniwn.

Tra rydym yn trysori y pethau hyn ac yn cymryd pob gofal ohonynt, gan eu bod yn cynrychioli hanes a diwylliant ein hardal, ein gobaith yw mai pethau i'w byseddu a'u darllen fyddant gan blant a phobl y pentref, ac nid dogfennau i hel llwch ar silff. Bydd yr ystafell y cedwir hwy ynddi yn agored i

ANTUR



unrhyw un sydd eisiau ymchwilio i ryw hanes, neu ddarllen cofnod neu weld hen lun. Bydd pob cyfleustra posib yn yr ystafell — cyfrifiadur, llun-gopiwr, cyfleusterau'r wê, etc, i gynorthwyo ymhellach. Ond os ydych, fel fi, yn rhy ddiog i wneud gwaith ymchwil go-iawn, ond gyda chywreirwydd yn hanes eich ardal, pa stafell brafiaich na'r stafell dawel, olau hon i dreulio orig ynddi a phori yn yr holl bethau diddorol sydd yn cael eu cadw ynddi.

Un peth sy'n taro ymwelydd â'r Tŷ Capel yn syth yw'r ddeuoliaeth braf sydd yno o'r gorffennol a'r presennol. Mae yna amgueddfa fechan yn yr ystafell sy'n coffáu John Evans ond hefyd ar yr un llawr mae yna labordy maes newydd modern. Felly hefyd yr ystafell hon, sy'n rhannu'r un llawr â'r llofft greffttau (gweithdy diwyd Anwen, Gareth, Bridget a Gill sy'n creu creiriau newydd ein presennol) ynddi mae llwch hen lyfrau yn disgyn yn dyner ar blisgyn cyfrifiaduron newydd sbon danlli. Ambell noson yn y stafell hon cefais gwmni Gwyneth Ellis, hi yn ceisio datrys iaith gymhleth rhaglenni cyfrifiadur a minnau ar yr un pryd yn pendroni uwch llun o'r ganrif ddiwethaf o aelodau styryn 'Y Rechabaiad' sy'n edrych, gyda llaw, mor anhygoel o debyg i ddynion Urdd Oren Ulster. Rhyw le cyfriniol fel'na ydio, lle gellir clywed lleisiau mud ein gorffennol yn llefaru eto drwy sŵn clecian ewinedd amryliw ar donau'r wê. Un o'r llefydd prin rheini lle mae ddod a heddiw yn un.

IFANWY RHISIART

Rydym yn dal i gasglu deunydd i'r llyfrgell ac yn ddiolchgar iawn am unrhyw lun, llyfr neu ddogfen sy'n ymwneud â Waunfawr. Gallwn eich sicrhau y bydd y gofal a'r deunydd gorau yn cael ei roi i bopeth a dderbyniwn.

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron



11 Rhes Faenol LLANBERIS

Ffôn: (01286) 871680

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor

9-7pm

9-5pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

CHWILOTA

TYDDYNNOD Y CLEGIR A'R BIGIL



Sadwrn bendigedig o haf, a Deiniolen yn mwynhau heulwen wrth ddathlu agoriad swyddogol Hen Felin yn gartref parhaol ar ei newydd wedd i'r Band. Cerdded yno i flasu'r diwrnod agored, a phenderfynu cerdded yn ôl drwy'r creigiau i Frynrefail. Dringo'r hen inclên o Glwt-y-bont i fyny i gyfeiriad bwthyn Pen Inclên. Troi ar y dde a heibio'i Dyddyn Du. Dilyn y llwybr i gyfeiriad adfeilion rhai o'r hen fythynnod sy'n swatio mewn cwilt o gaeau mân yng nghanol creigiau'r Bigil. Pa bryd tybed yr adeiladwyd hwy? A pha bryd y bu teuluoedd yn byw ynddynt ddiwethaf?

Mae'n ymddangos, o astudio cyfres o fapiau'r ardal, fod enwau rhai o'r tyddynnod hyn wedi eu newid dros dreigl y blynyddoedd, ond mae'n anodd penderfynu at ba adeilad y mae enw yn cyfeirio os astudir rhai mapiau. Gan ddilyn y llwybr o Dyddyn Du, dyma'r enwau ar fapiau diweddaraf yr Ordnance Survey: rhwng Bryn Hafod a Hafod Gau mae'r llwybr yn anelu ar i llawr, gyda Bryn Du ar y dde. Mae dewis yma o gadw i'r chwith heibio i Fron Goediog Fach, Bryn Celyn; a chadw i'r chwith am Fron Goediog a'r llwybr sy'n arwain drosodd i'r Fachwen, heibio i Fron y Gadair. I'r dde, daw'r llwybr â ni heibio Maes Toso, Ty'n y Fawnog, Rhianfa a dewis eto o wahanol lwybrau yn arwain yn ôl am Glwt-y-bont neu i Frynrefail.

Ond, o astudio hen fapiau — yn enwedig rhai o fapiau arolwg Stâd y Faenol — daw enwau gwahanol ar rai o'r tyddynnod. Yn ddiddorol, ar fap Arolwg 1869, mae enwau wedi eu hychwanegu mewn pensil gan gynnwys (weithiau) enwau tenantiaid hefyd, eto mewn pensil. Gan gychwyn o Ben Gallt y Foel, mae Pen y Bwlch ar y chwith a Tan Clogwyn gyferbyn ar y dde. Yna daw Uwchsardis a Clogwyn Guto, cyn cyrraedd Pen y Bwlch eto (sef Pen Inclên heddiw) a Tyddyn Du. Islaw'r llwybr ar y dde mae Cae Dafydd. Yna daw Bryn Hafod (mewn pensil yn unig) a Haffodgau (sylwer ar y cam-sillafu). Mae dau Bryn Ddu(*sic*), Maestoso (un gair) Shamber Glos a Ty'n y Fawnog (mae'r enw Evan Jones mewn pensil yma). Ty'n y Fawnog yw'r tyddyn nesaf hefyd, ond mewn pensil ysgrifennwyd, 'or Rhianfa, Evan Harry Evans'.

Mae Frongoediog wedi ei enwi, ond ychwanegwyd 'bach' mewn pensil o'i ôl, gan gynnwys hefyd enw'r tenant, Henry Williams. Enwir Bryncelyn a'r tenant William Griffith. Y tŷ agosaf yw Bryngreafolen, ond mewn pensil ysgrifennwyd Frongoediog, a'r tenant Mary Griffith.

Mewn triongl o dir rhwng Bryngreafolen (Frongoediog), Bron y Gadair a Ty'n Drwfwl (Ty'n Drywel ar rai mapiau) mae'r enw Bwlch y Rwdan. Mae'n ymddangos fod hwn rywle tua lleoliad Plas Tirion heddiw. Efallai mai dyna'r hen enw. Chlywais i erioed sôn am Fwlch y Rwdan o'r blaen. Oes rhai o'r darllenyddwyr â gwybodaeth? Yn nes i Frynrefail mae lle o'r enw Grosyfydda (rhwng Rhydau Duon a Thy'n Twll), ac ar ei derfyn mae 'Dinorwic Mill Pond' rhwng Ty'n Twll a Ty'n Llidiart. Beth sydd wedi digwydd iddo erbyn heddiw tybed?

Oes rhywun â gwybodaeth am rai o'r tyddynnod hyn ar ochr ogleddol y Bigil a'r Clegir, neu am rai o'r teuluoedd fu'n byw ynddynt. Rhowch bin ar bapur neu codwch y ffôn.

DŴR GLÂN I LANDDEINIOLEN

Daeth tri ymateb i adroddiad y mis diwethaf am gynlluniau dŵr ym mhlwyf Llanddeiniolen. Mae Mr Gareth Lee o Gaernarfon (gynt o Fethel) yn cofio codi dŵr o'r pwmp, oedd wedi ei leoli ar waelod y llwybr yn nghefn y tŷ pen agosaf at bentre Bethel. Roedd ei ddiweddar fam, 'Abbie Erw Bian' — fel yr adwaenid hi gan y trigolion lleol — yn byw yno ac yn cofio helynt y dŵr yn Nhaf Bian tua 1910, oherwydd bod rheidrwydd ar i bawb o'r

trigolion dalu rhywfaint tuag at y gost o osod pwmp. Yn ôl Gareth Lee roedd y pwmp yno 'o bosib mor ddiweddar â 1967, ond dim ond ei ôl sydd yn aros heddiw'.

Miss Mair Foulkes o Benisarwaun (gyn o'r Fachwen) sy'n ymateb i Betisiwn Dŵr y Fachwen. Mae'n awgrymu mai tua 1830 yw dyddiad y petisiwn. Enwir John Evan Jones, Gallod, yn y petisiwn. Priododd â Mary Jones, hen nain Mair Foulkes, a symud i'w chartref, Garnedd Wen, erbyn 1869. Mae'n tybio fod y ffynnon ar dir Gallod ac mai'r Parc Newydd yw'r coetir rhwng Pen y Clip a Phen-lllyn. Roedd chwaer i'w hen nain yn byw yn Rhos y Bel, un arall yn Nhyddyn Uchaf, a brawd, Dafydd, yn Bron Ceris. Adeiladwyd y rhain ar dir Garnedd Wen. Roedd y cyfan erbyn 1869 yn eiddo i'r Faenol, a dyna'r flwyddyn y tynnwyd cytundebau tenantiaeth newydd allan gan y Stâd honno. Mae'r cytundeb ym meddiant Miss Foulkes o hyd, yn nodi rhent o 'unarddeg swllt'.

Mrs Ceridwen Williams (gynt o'r Fachwen) sydd hefyd yn ncofio sut roedd trigolion yr ardal yn cael dŵr erstalwm. Mae'n cofio bod ffynnon yng ngardd Bryn Pistyll ond fod dull anghyffredin iawn gan drigolion Tan Rhiw o gael dŵr. (Tan Rhiw yw'r ail dŷ ar y chwith wrth ddringo o Ben-lllyn i'r Fachwen, ac mae'r tŷ wedi ei adnewyddu erbyn heddiw.) Yno, roedd math o goridor tywyll yn arwain o ddrws ffrynt y tŷ i'r cefn. Roedd pistyll o ddŵr yn tywallt o wal y coridor i mewn i'r tŷ, gan lifo allan o dan lawr y siambar, os cofia Mrs Williams yn iawn. Nid yw Mrs Williams yn sicr a oedd y dŵr wedi ei bibellu i'r tŷ, yntau pistyll o ddŵr naturiol oedd yno. Roedd sŵn dŵr yn llifo i'w glywed gydol yr amser yn Nhan Rhiw!

TÎM PÊL-DROED LLANRUG 1923-24

Cyn dechrau gymor pêl-droed 1923-24 cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Llanrug (yr hen Church Hall) i drafod dyfodol y tîm pêl-droed lleol. Y tymor cynt roedd y tîm wedi cyrraedd rownd derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru, ac felly, gellid tybio fod pethau'n argoeli'n dda.

Cadeirydd y cyfarfod oedd Mr Williams. Fel yna'n unig y cyfeirir ato; does dim sôn am ei

enw cyntaf. Pwy oedd hwn tybed? Roedd yn gadeirydd y Clwb yn 1922-23, ac fe'i penodwyd eto am y tymor 1923-24. Ond nid felly gweddill y swyddogion. Diolchodd Mr Williams i'r pwyllgor am eu gwaith (dim sôn am y tîm!) ac fe'i llongyfarchwyd yntau ar gael ei ethol yn aelod o'r Gymdeithas Bêl-droed. Addawodd y byddai'n gwneud ei orau er lles y Clwb.

Etholwyd Mr Hughie Hughes yn drysorydd yn lle Mr Harry Evans, a Mr J. H. Jones, Isfryn (Cwm-y-glo ynteu Llanrug?) yn ysgrifennydd, gyda'r cyn-ysgrifennydd, J. T. Jones i'w gynorthwyo am y ddau fis cyntaf. Gweddill y pwyllgor oedd J. M. Jones, Harry Evans, R. Pritchard, R. G. Williams, D. M. Pritchard, John Pritchard, Robert Owen, Morgan J. Hughes, Owen Jones, William Davies a P. C. Owen.

Y cadeirydd oedd i drefnu gemau y tymor i ddod. Mae'n amlwg, felly, nad oedd swyddogion gan y gynghair, a bod angen i bob clwb wneud eu trefniadau eu hunain gyda gweddill y clybiau!

Roedd sefyllfa ariannol y Clwb yn iach, gyda £28 mewn llaw ar ddechrau'r tymor.

Mae'n amlwg fod pêl-droed wedi cael gafael yn y boblogaeth leol erbyn y cyfnod hwn, a phapurau newyddion yn manteisio ar hynny. Roedd yr *Herald* yn rhedeg cystadleuaeth wythnosol i ddarogan canlyniadau gemau pêl-droed yng ngogledd Cymru. Bob wythnos byddid yn dewis deuddeg o gemau, a chynnig dwy gini o wobr i'r sawl a allai ddarogan canlyniad pob gêm yn gywir. Roedd angen anfon y cynigion i swyddfa'r *Herald* cyn deg o'r gloch bob bore Sadwrn. O astudio enwau rhai o'r timau ar y rhestr cystadlu, gwelir mai ychydig o newid sydd wedi digwydd dros dreigl y blynyddoedd. Mae Ebenezer bellach yn Deiniolen, ond tybed beth ddigwyddodd i Ogwen Valley, Llandegai a Trefor?

Bydd mwy o hanes y bêl-droed yn ystod y misoedd nesaf.

Os oes gan rywun wybodaeth am unrhyw un o'r testunau a drafodwyd y mis hwn, cofiwch gysylltu â mi. Neu anfonwch unrhyw ymholiad ar unrhyw agwedd o hanes lleol i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: (01286) 673515.

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

GARTREF O'R YSBYTY. Croeso gartref o'r ysbty a phob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Mrs Ann Thomas, Treforfa, Nesta Eluned, Tremnant a Siôn Tudur, Rhoslyn.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Eirwen Jones, Cynefin a Mrs Edith Efani, Stad Tref Eilian sydd yn yr ybty ar hyn o bryd. Gobeithio fod Meleri Gwyrfa, Stad Croesywaun, yn gwella wedi iddi ddisgyn a brifo'i choes.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Loretta a Roy, 11 Dôl Erddi ar enedigaeth eu mab, Brandon, brawd bach i Geraldine.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Siân Williams, Plas Bod Hyfryd ar lywddo yn arholiad piano, gradd 3; ac i Caryl Lois Wood, Pen Rhiw, Groeslon ar lwyddo gydag anrhydedd yn arholiad piano, gradd 1.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Catrin Lowri, Stad Croesywaun ar ei phriodas â lolo Gwyn Williams o Langefn. Maent wedi cartrefu yn Warwick.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Llinos Williams, 19 Bro Waun ar ei dyweddïad â Gwyn Tegai Roberts. PEN-BLWYDD. PRIODAS.

Llongyfarchiadau i Dafydd a Lywela Davies, Stad Tref Eilian fu'n dathlu eu priodas arian yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Berwyn, Tremnant fu'n dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

DYSGU ADNODAU. Yn ystod gwasanaeth y Gymanfa yng Nghapel Croesywaun derbyniodd aelodau o'r ddwy Ysgol Sul dystysgrifau am ddysgu adnodau. Llongyfarchiadau a da iawn bob un ohonoch.

YMDDEOLIAD. Dymunwn yn dda i Mr T. H. Williams, Llwydiarth ar ei ymddeoliad o'i swydd gyda chwmni Sain.

DIOLCH. Dymuna Phil a Delyth Lowe, Ger y Ffynnon ddiolch am y caredigrwydd a dderbyniant ar achlysur geni eu mab bychan, Gwion.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn yn ddwys â Miss Marian Wyn Jones, Foel yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Mr Leslie Jones, Penisarwaun. Bu Mr Jones yn brifathro yma yn yr ysgol am un mlynedd ar hugain. Anfonwn ein

cydymdeimlad at ei briod Mrs Nancy Jones ac at Anwen a Dylan yn eu colled drist.

TAITH GERDDED. Ddydd Sul, 18 Ebrill bu nifer o aelodau Clwb leuenctid Waunfawr ac aelodau o Ysgol Feithrin Waunfawr ar daith gerdded noddedig i gasglu arian i'r ddau sefydliad. Roedd y daith yn chwe milltir a hanner o'r Ganolfan, Waunfawr i Lanrug ac yn ôl, ac fe gasglwyd £156. Rhannwyd yr elw yn gyfartal ac fe ddymuna'r arweinyddion a'r aelodau ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y cerddwyr. Diolch arbennig i Garej Gwalia, Caeathro am roi'r wobwr o £10 i'r un a ddyfalodd yr amser cywir i gerdded y daith ac fe'i henillwyd gan Mr T. Griffiths, 4 Bryn Golau, Waunfawr. Penderfynodd aelodau'r Clwb leuenctid gyfrannu £30 o elw'r daith gerdded i'r Noson Goffi a gynhaliwyd yn y Ganolfan i godi arian i Apêl Kosovo.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod ddydd Iau, Mai 6, rhoddodd Mrs Pat Parry eglurhad ar y penderfyniadau sydd i'w trafod yn yr AGM yn Llundain y mis nesaf.

Dydd Sadwrn, Mai 15, yn y Groeslon, cynhaliwyd cystadleaethau am y bolwn rosynnau a chwpan Brycheiniog. Yn yr adran coginio enillodd Mrs Hilda Williams darian am yr arddanghosiad gorau. Daeth Mrs Pat Parry yn drydydd yn yr adran crefft am degan meddal. Mae llawer o waith yn mynd ymlaen yn y Sefydliad a chroesawn aelodau newydd i'n plith. Rydym yn cyfarfod ar brynawn lau cyntaf yn y mis am 2 o'r gloch yn festri Capel Croesywaun.

MERCHED Y WAWR. Mae'r flwyddyn yma wedi bod yn un lwyddiannus i'r gangen. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelodau a gwnaed ymdredd dda i gefnogi'r cyfarfodydd amrywiol a diddorol a gynhaliwyd.

Buom yn ffodus iawn yn ein siaradwyr eleni. Agorwyd y tymor gan Eurig Wyn, y cymeriad a'r llenor dawnus o'r Groeslon. Trefnwyd cwis fywiog gan Gweneirys Jones, un o'n aelodau mwyaf dawnus. Cafwyd sgwrs hynod gartrefol gan Dr Helen Roberts, Y Felinheli am 'ferched enwog ym maes meddygaeth'; a bu Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa, yn datgelu 'y stori',

a honno'n un ddigri gan amlaf, 'y tu ôl i'r gân'. Roedd y nosweithiau yma'n hynod ddiffr ac addysgiadol gyda Rhian Ellis, Gill Wyn ac Irene Roberts yn llywyddu'n fedrus yn eu tro.

Wnaethom ni ddim cyfyngu'r gweithgareddau i bedair wal y Ganolfan chwaith. Trefnwyd ymweliad â Theatr Gwynedd; dathlwyd y Nadolig yn y Bistro, Llanberis; a dathlwyd Gŵyl Ddewi ym Meifod, Bontnewydd.

Ar Fai 27 byddwn yn codi allan eto ac yn 'crwydro'r fro ar bedair olwyn' yng nghwmni Duncan Brown, gan gloi'r tymor ar 24 Mehefin gyda thrip a swper.

Diolch i bawb fu'n trefnu a llywio'r nosweithiau; i Glenys Jones am fod yn ysgrifennydd gweithgar ac i Jean Jones am edrych ar ôl y pwrs.

Cofiwch y byddwn yn dechrau tymor newydd ddiwedd mis Medi. Croeso mawr i aelodau newydd.

DIOLCH. Dymuna Dr Helen Wyn Jones, Maes-y-coed, Caeathro ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad, yn ymweliadau, blodau, galwadau ffôn, llythyrau a chardiau yn ogystal â rhoddion tuag at Ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont, a dderbyniodd yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei hannwyl dad, Mr Daniel Wyn Jones, yn ddiweddar.

Gwerthfawrogwyd yn arbennig y gofal neilltuol a dderbyniodd ei thad am flynyddoedd yn ystod ei waeledd gan y gofalwyr cartref, nyrsus ardal ac, yn ddiweddar, staff Ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Ceridwen Owen, Gwynant ar ddathlu ei phen-blwydd yn 89 oed ddechrau'r mis. Pob dymuniad da iddi yn ystod y flwyddyn.

ADFYWIO BRO

Mae gwaith paratoi adroddiad Arolwg Bro Waunfawr a Chaeathro yn prysur dod yn ei flaen ac yn amlwg o rai ymatebion mae syniadau diddorol iawn yn amlygu eu hunain ar gyfer y pentrefi. Un sydd eisoes ar fin cael ei wireddu yw Fforwm Fusnes Gwyrfa. Penderfynodd Grŵp Thema Gwaith a Busnes yr arolwg ffurfio'r Fforwm Fusnes gan fod nifer o fusnesau yn bodoli yng Nghaeathro, Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd-ddu. Bydd cyfarfod agored i holl bobl busnes y dalgylch yma yn cael ei gynnal ar nos Iau, 1 Gorffennaf am 7.30 p.m., yng Nghanolfan Waunfawr. Bydd y cynllun cyffrous yma yn creu cyfle i bobl busnes yr ardal ddod ynghyd i drafod materion sydd yn bwysig iddynt yn ogystal â derbyn gwybodaeth gyfoes all fod o gymorth i'w busnesau.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfa yn ei swyddfa yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr. Ffôn: (01286) 650779.

Cofiwch bod croeso i unrhyw un ym mro Gwyrfa — plwyfi Llanwnda, Llandwrog, Bontnewydd, Waunfawr a Betws Garmon — gysylltu ag Eirian i drafod syniadau. Mae nifer o gynlluniau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd felly dyma'ch cyfle chi i fod yn rhan o'r bwrwm yma a gwneud y mwyaf o'r Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gynor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys

Teithio • Car

Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)

Enterprises Limited

Ffordd Santes Helen

Caernarfon

Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
Ffôn: (01286) 675384

DYDDIADUR gweithgareddau er budd Eglwys St. Mihangel, Llanrug:

1. Taith gerdded nodedignos lau, Mai 20 am 6.30 p.m.
2. Barbeciw 'Rhostio Mochyn', Sadwrn, Gorffennaf 3 yn Cil-y-bont, Llanrug. Tocynnau £4.
3. Noson Goffi, raffl a stondin cacennau yn Hafan Elan, Awst 12 am 6.30 p.m. Tocynnau 50c.
4. Ymweld ag Eglwys Sant Beuno, Clynnog Fawr, nos lau, Medi 16. Pryd o fwyd wedyn yng Ngwesty Clynnog am y swm o £8.50. Y bws yn gadael Llanrug am 6.30 p.m.
5. Caws a gwin a raffl fawr yn Hafan Elan, Tachwedd 12. Tocynnau £3.
6. Clwb Cant — i'w drefnu.
7. Cyngerdd gyda Chôr Dyffryn Peris yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis — dyddiad i'w drefnu.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Andrea Roberts, ysgrifenyddes yr eglwys ar (01286) 678856.

DIOLCH. Dymuna Llinos a Neil, 4 Corlan y Rhos ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a'r haelioni a ddangoswyd iddynt ar achlysur eu priodas ar Fai 1.

DIOLCH. Dymuna Olive a Dai Owen a'r teulu, Ceulan, Ffordd yr Orsaf ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwy iawn ar Fai 6. Diolch arbennig i Mrs Meirwen Thomas a staff Y Foelas am bob gofal pan oedd eu mam yno. Diolch hefyd i feddygon a staff Meddygfa Llanberis ac Ysbyty Gwynedd. Diolch i Mr Myrddin Jones, Mrs Gwynfor Williams a Mr Ifan Hefin Williams am wasanaethu yng Nghapel Hermon ar Mai 11; ac i Mr Myrddin Prithcard a Mr Gwynfor Jones am y trefniadau. Diolch am y rhoddion hael i Feddygfa Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan a Meinir Williams ar enedigaeth Ffion Mai, chwaer fach i Siân a wyres newydd i Cliff a Vera Williams.

Ganwyd mab bach i Wendy a William a wyr cyntaf i Richard a Meirwen Thomas, Y Foelas. Llongyfarchiadau i chwithau hefyd.

Priodas Aur oedd dathliad Mr a Mrs Oswald Davies, Llain y Delyn, Ffordd Glanmoelyn. Llongyfarchiadau mawr i chwi eich dau.

Pen-blwydd hapus yn 90 oed i Mrs

Jennie May Jones, 12 hafan Elan. Mwynhaodd barti pen-blwydd yn Hafan Elan a gyda'i theulu yn Y Bistro, Llanberis.

GWAELEDD. Anfonwn ein cofion gorau at bawb sy'n wael eu hiechyd. Anfonwn ein cofion gorau i Mr a Mrs Harri Roberts, Rhes Plastirion sydd wedi mynd i aros dros dro yng nghartref Bron Eryri, Llanberis.

Brysiwch wella Mr Islwyn Jones, 7 Bryn Moelyn — croeso adref o'r ysbyty.

Gwellhad llwyr a buan hefyd i Mrs Luned Jones, 13 Hafan Elan ac i Mrs Jennie Parry, 21 Hafan Elan.

MARWOLAETH. Bu farw Mr Hefin Lewis ar Ebrill 29 wedi gwaeledd hir. Gŵr tawel iawn oedd Mr Lewis a digŵyn bob amser. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i'w blant, ei fam, Mrs Catherine Lewis a'r teulu i gyd.

DIOLCH. Dymuna Islwyn Jones, 7 Bryn Moelyn ddiolch yn ddiffuant iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau lu am y cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau a gafodd ar ôl ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch arbennig Feddygfa Waunfawr a Llanrug ac i weinyddesau Wardiau Cybi a Chonwy am eu gofal.

DIOLCH. Dymuna Eileen Jones a theulu y diweddar Gwynnaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl.

Diolch am y llu cardiau, llythyrau, galwadau ffôn, ymweliadau ac am y rhoddion tuag at Gronfa Canolfan Llanrug. Diolch hefyd i'r Parchg Dafydd Hughes am wasanaethu yn yr angladd a Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones am y trefniadau.

MERCHED Y WAWR. Sadwrn, Ebrill 24, mwynhaodd Bethanne, Mary Roberts ac Ann Ifans bawn difyr yng Ngwesty'r Celt yng nghwmni aelodau Merched y Wawr a Chlybiau Gwawr y Gogledd. Cafwyd gair o groeso gan lywydd rhanbarth Arfon, Megan Roberts, a'r Fendith gan Marged Jones, llywydd anrhydeddus y mudiad. Dilynwyd gyda sgwrs egniol gan y llywydd cenedlaethol, Sulwen Davies. Mwynhawyd eitemau lleisiol addas gan barti lleisiau'r Gweunydd, Rhiwlas a pharti llefaru lleisiau Lliffon, Bontnewydd. Neges y pawns yn sicr oedd i fynnu popeth posibl drwy'r iaith Gymraeg ac i ddenu aelodau newydd i'r canghennau.

Ar Fai 8 bu Mary Roberts ac Ann Ifans yng Ngŵyl Wanwyn y pum

rhanbarth yn Neuadd John Phillips, Bangor. Thema'r dydd oedd 'Ehangu Gorwelion'. Estynnwyd croeso cynnes i neuadd lawr gan Sulwen Davies. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Rhiannon Lloyd ar 'Blwyddyn y Llyfrau' a llongyfarchwyd y mudiad am werthu gwerth £13,000 o docynnau llyfrau yn ystod y flwyddyn. 'Dechrau Busnes' oedd testun Ella Jones, Ysbyty Ifan a daeth â nifer o eitemau cywrair megis hetiau a thorchau pen ar gyfer priodasau. Yr unig ddyn dewr ymhlith yr holl ferched oedd y Prifardd Meirion McIntyre Huws a difyr tu hwnt oedd ei gyflwyniad hwyliog ar 'Beridd — eu hyd a'u lled!' Trwy luniau cartwnaidd a'i ddawn ddihafal o gofio a chyflwyno barddoniaeth, olrhainiodd hanes yr englyn o gyfnod yr Uchelwyr hyd heddiw.

Yn y pawns cafwyd arddangosfa o ddiad rhai o aelodau Gorsedd y Beirdd gan Siân Aman, meistres y gwisgoedd. Difyr oedd clywed am droeon trwstan ambell un go enwog! Cafwyd clo arbennig iawn i'r diwrnod gan Seindorf Porthaethwy. Yn sicr bu'n ddiwrnod llawn diwylliant ac o 'Ehangu Gorwelion'.

Yn Ysgol Gynradd Llanrug, nos Fawrth, Mai 11, estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod blynyddol o'r gangen. Cychwynnwyd y cyfarfod gyda datganiad gan y parti Cân Werin a fydd yn cynrychioli rhanbarth Aron yn Eisteddfod Genedlaethol y mudiad yn Llandrindod ym mis Mehefin. Dymunir pob llwyddiant iddynt. Bu'r dasg o ethol syddogion yn bur rhywdd gyda Phylis Elis yn islywydd; Olwen Huws yn isysgrifennydd a Carys Wyn yn isdrysorydd. Etholwyd aelodau newydd ar y pwyllgor a chynrychiolir

yr is-bwyllgorau, Celf a Chrefft, Anabl a'r Dysgwyr gan Julie, Beryl, Phylis a Myfanwy. Gohebwyd y wasg fydd Margaret Parry a Gwenda Roberts. Cytunodd Gwenda i ddosbarthu'r Wawr. Gwirfoddolodd nifer o aelodau i fynd o amgylch y pentref i gasglu tuag at Ymchwil y Galon a chasglwyd swm sylweddol iawn y llynedd.

Gorffennir gweithgareddau'r gangen gyda trip dirgel, nos Fawrth, Mehefin 8. Bydd y bws yn gadael Sgwâr Llanrug am 6.15 p.m., ac yna'n galw ym Mhenisarwaun.

Dyddiad i'w gofio: Cynhelir Bore Coffi a stondinau yn Festri Ebeneser, Caernarfon, 11 Mehefin, 10-12 o'r gloch. Mynediad 50c. Elw at Hospis yn y Cartref. Trefnir gan bwyllgor ar ran yr anabl yn Arfon.

PROFEDIGAETH. Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Hefin Lewis yn ei gartref, 7 Rhos Rug, ar Ebrill 29, mab annwyl Catherine a thad gofalus Siân, Bethan a Rhian, tad yng nghyfraith Gerallt a Huw a thaid cariadus Angharad, Dafydd ac Ifan a brawd hoffus ei frodyr a'i chwiorydd.

Bu'r angladd ddydd Mawrth, Mai 4, yn breifat yn ei gartref ac yn gyhoeddus yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchg James Clarke. Derbyniwyd blodau gan y teulu'n unig a'r rhoddion tuag at Ward Enlli Ysbyty Gwynedd, nyrus y gymuned a Hospis yn y Cartref.

DIOLCH. Dymuna Mrs Catherine Lewis, mam y diweddar Hefin Lewis, 7 Rhos Rug ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ei phrofedigaeth o golli mab annwyl iawn. Diolch o galon am y rhoddion hael tuag at Ward Enlli Ysbyty Gwynedd, nyrus y gymuned a Hospis yn y Cartref.

FFORWM BUSNES GWYNEDD

CYFARFOD AGORED I BOBL BUSNES
CAEATHRO, WAUNFAWR, BETWS GARMON
A RHYD-DDU

yng Nghanolfan Gymunedol Waunfawr
1 Gorffennaf 1999 am 7.30 p.m.


Noson i sefydlu y Fforwm yn swyddogol. Drwy fod yn aelod o'r Fforwm bydd modd i bobl busnes y dalgylch yma ddod ynghyd i drafod materion sy'n bwysig iddynt. Cyfleon hefyd i dderbyn gwyboath gyfoes all fod o gymorth i'w busnesau.

Dewch i fod yn rhan o'r cynllun cyffrous yma.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag

EIRIAN PIERCE JONES,

SWYDDOG ADFYWIO BRO GWYRFA ar (01286) 650779



Blodau
o safon uchel
ar gyfer eich
achlysuron
arbennig

(01248) 352263

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

I DDATHLU PEN-BLWYDD
neu PEN-BLWYDD PRIODAS
PARTIÖN RHWNG 20 a 40
FFONIWCH AM FANYLION

A HEFYD
COFIWCH AM EIN
BeliBistro
Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

URDD BENTREF. Pob hwyl i'r aelodau fydd yn cystadlu ym Mabolgampau'r Urdd ar 8 Mehefin. Diolchir i'r rhai fydd yn cefnogi a chludo'r ymgeiswyr.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Siân Lewis, Penpwlloch a Siôn Jones, Perthi ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i Elen Lewis, Penpwlloch ar ei phen-blwydd arbennig hithau.

DIOLCH. Dymuna William Lewis ddiolch i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffôn ac ymweliadau yn dilyn ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Fe fwynhaodd Jean Jones ei phen-blwydd arbennig hi y mis diwthaaf a dymuna ddiolch i'w thelu a ffrindiau am ddiwrnod i'w gofio. Diolchir am y cardiau a'r anrhegion hyfryd.

GYMNASTEG. Mewn cystadleuaeth gymnasteg, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon, bu pedwar o'r pentref yn hynod lwyddiannus. Yng ngrŵp A bechgyn enillodd David Anthony Kile, Bryntirion y fedal efydd. Yng ngrŵp B enillodd Rebecca Snowden, Penlôn y fedal arian. Yng ngrŵp C bechgyn enillodd Luke Lloyd Hughes, Aljen y fedal aur. Yng ngrŵp D gaenethod, enillodd Anest Eifion, Winllan y fedal aur. Llongyfarchiadau hefyd i Jenny Hamer a Sioned Williams am wneud yn dda hefyd. Bydd Anest, Luke, Rebecca, Jenny a Sioned yn

cystadlu yng Nghaerdydd 30 Mai. YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Llongyferchir y plant am gasglu swm sylweddol o arian tuag at y Genhadaeth Dramor. Fe'u gwobrwywyd yng Nghymanfa'r Methodistiaid yng nghapel Hiracl, Bangor. Diolchir i Mrs Elizabeth Jones am eu hannog ac am ofalu am y cardiau casglu.

TRIP YR YSGOLION SUL - 3 Gorffennaf. Bydd y trip yn mynd i Morcambe eleni. Y mae digon o bethau yno at ddant pawb - siopau, bowllo deg, ffair, canolfan hamdden, pwllofio a'r traeth. Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon o groesffordd King am 7.30 a.m. Y pris fydd £8 i oedolion a -4 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Enwau ac arian rhag blaen i Elizabeth Jones, (872421) neu Ann Paterson (872405).

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Mai a'r enillwyr oedd: 1, Gethin Philips; 2, Alwyn Williams; 3, Nansi Jones.

Cydymdeimlwyd â Nansi a'r teulu o golli un mor annwyl â Leslie. Bu'n aelod ffyddlon o'r Clwb Cant ers y cychwyn.

Gobeithir trefnu taith gerdded nodedig hyd llwybrau'r fro, yng ngofal Leslie Larsen, yn ystod mis Medi.

CYMDEITHAS BEIBLAU. Cynhelir gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd eleni yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, 27 Mehefin am 2 a 6 o'r



Plant yr Ysgol Sul - 'Teithio' odd eu thema yn y ddwy gymanfa a gynhaliwyd yn ddiweddar.

gloch. Bydd gwasanaeth gan blant yr Ysgolion Sul yn y pnawn a gobeithir cael eitemau gan gôr meibion yn ystod cymanfa'r hwyr. Gwneir casgliad yn y ddwy oedfa at y Gymdeithas Feiblaidd. Bydd y bws yn gadael Penisarwaun am 1.30 a 5.30 o'r gloch.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yng nghwmni ei deulu ar 15 Mai bu farw Leslie Jones, Meillionydd. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i Nansi, Anwen a'r teulu, Dylan a Mrs Annie Williams a'r cysylltiadau oll yn eu colled a'u hiraeth. Bu'r angladd ddydd Gwener, 21 Mai, gyda gwasanaeth cyhoeddus yng Nghapel Bosra ac yn dilyn yn Amlogfa Bangor.

PARTI HETIAU GWALLGO! Cynhelir parti hetiau gwallgo bawn Sadwrn, 5 Mehefin o 2-4 o'r gloch yn Neuadd yr Ysgol Gymuned. Bydd gwobrau da a gwerthir raffl. Tocynnau yn cynnwys lluniaeth ysgafn am £1.50 i oedolion a £1 i blant a phensiynwyr. Sam Tân a Weliffant fydd yn beirniadu. Bydd yr elw tuag at ginio Nadolig henoed y pentref. Felly, cofiwch am eich hetiau a dowch am hwyl.

POB LWC i bawb ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf. Cewch fwynhau ac ymlacio am ychydig wedyn.

DRAENOG



Sut fath o hysbyseb i fusnes ydi'r hyn a glywais am berchennog un o westai Llanberis? Ar ei ffordd i gyngerdd Côr Meibion Dyffryn Peris yn Rhosgadfan bu'n rhaid stopio'r bws yn Bontnewydd er mwyn i'r creadur nôl bagiad o chips.



David, Rebecca, Anest a Luke.

DIOLCH

Dymuna'r Parchedig Tegid Roberts ddiolch yn fawr iawn i blwyfolion Llandinorwig a Phenisarwaun am y rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ef a'i briod, Nant, wrth iddo derfynu ei ofalaeth dros y ddau blwyf ar Sul y Pasg eleni. Braint oedd cael rhannu y chwe blynedd diwethaf o'm gweinidogaeth fel offeiriad yn eich plith. Pob bendith i'r ddau blwyf i'r dyfodol.

G. EVANS



ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

✱

Ffôn: (01286) 870253

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CAPEL COCH. Cafodd amryw o blant yr Ysgol Sul eu gwobrwyd yng Nghymanfa'r Presbyteriaid Cylch Padarn a gynhaliwyd ym Mrynrefail ddydd Sul, Mai 2. Llongyfarchiadau iddynt i gyd. Daeth tymor y Cyfarfod Plant i ben ddydd Mawrth, Mai 25. Byddwn yn ailgychwyn y cyfarfodydd ym mis Medi.

KOSOVO. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at Apêl Kosovo yn y pentref yn ddiweddar. Agorwyd Theatr Fach Gorffwysfa rhwng Ebrill 15 ac Ebrill 20 i dderbyn bwydydd a chyfraniadau ariannol. Casglwyd £1025.43 ac anfonwyd yr arian a'r bwydydd i'r elusen Ymgyrch Plantyn y Nadolig i'w hanfon i'r ffoaduriaid. Diolch i bawb a gefnogodd yr apêl. Diolch i'r rhai a fu'n derbyn a phacio'r nwyddau yn Gorffwysfa ac i gwmni First Hydro am ddanfôn y bwydydd i Wrecsam. DIOLCH. Dymuna Mairwen Baylis ddiolch i'w thelu a'i ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ddatlu ei phenblwydd yn 50 oed.

DYWEDDAD. Llongyfarchiadau i Delyth Eronwy, Y Bwthyn, Croeswaun, Waunfawr, merch Ann a Bert Parry, Sycharth, Preswylfa, Llanberis ar ei dyweddïad â Kerry Henderson. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch oddi wrth Dad Ma, Gwawr, Tony a'r teulu oll.

CLWB FFRINDIAU DOLBADARN. Enillwyr mis Mai yw: £35 Mrs N. Jones, 1 Preswylfa (44); £25 Mrs H. Jones, Cil Coed (59); £15 Miss C. Jones, 30 Stryd Fawr (31); £10 Mrs M. Jones, Dôl Elidir (79); £5 Mrs C. Roberts, Coed y Glyn (56).

CYMDEITHAS EGLWYS ST. PADARN A ST. PERIS. Yn hytrach na chynnal ein cyfarfod yn yr Eglwys aeth yr aelodau i ymweld a Mary's Acre yn Nwyrn, Môn, nos lau, Mai 6. Cafwyd noson hapus a diddorol iawn yn gweld y planhigion a chael ambell gyngor buddiol, er nad oedd y planhigion ar werth ar hyn o bryd. Does dim noson yn gyflawn heb gael paned o de a threfnwyd inni gael byrbryd yng Ngwesty'r Fictoria, Porthaethwy cyn troi am adref — wedi blino ond wedi llwyr fwynhau y bwyd a'r cwmpeini. Diolch yn fawr i'r swyddogion am drefnu'r cwbl ar ein cyfer.

APÊL KOSOVO. Roedd Ebrill 22 yn

ddiwrnod prysur ond yn bleserus iawn i aelodau Eglwys St. Padarn a St. Peris a'u ffrindiau. Daethant ynghyd i Westy'r Fictoria i godi arian at Apêl Kosovo. Bu'r fenter yn hynod lwyddiannus a'r cyfanswm anrhydeddus o £1820 wedi ei sicrhau. Bu'r stondinau, y gwerthwyr raffl a'r loteri yn hynod brysur drwy'r dydd yn gwneud eu rhan. Mae'r diolch yn gyntaf i Mrs Ann Parry-Jones am ei harweiniad yn yr ymdrech ac hefyd i Mr Graeme Sutherland, rheolwr y Fictoria, am roi'r ystafell, coffi a bisgedi a'i staff i'n cynorthwyo yn y fenter — a'r cwbl yn ddi-dâl. Yr wythnos ddilynol aeth rhai o'r gweithwyr eiddgar a'r arian i ganolfan elusen Ymgyrch Plantyn y Nadolig yn Wrecsam a chael croeso cynnes — yn enwedig gan un o'r gweithwyr Mr Gordon Parry, un o gyn-aelodau St. Padarn. Diolch yn fawr i bawb am eu gwasanaeth ac, wrth gwrs, i bawb am y gefnogaeth hael.

CAPEL JERUSALEM. Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach a gynhaliwyd ddydd Mercher, Mai 5, o dan lywyddiaeth Mr Irfon Ellis, cafwyd sgwrs ddiddorol gan John Hugh Hughes, Llanberis ar y testun, 'Pwy fuasai'n meddwl'. Cyfeiriodd at lawer o ddigwyddiadau yn ystod ei fywyd. Cafwyd atgofion gan yr aelodau a mwynhawyd lluniaeth ysgafn. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Mehefin 2, am 2 o'r gloch a'r gŵr gwadd fyd y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y cyfarfod misol bnawn Mawrth, Mai 4, yn nhŷ Curad. Mrs Betty Humphreys gymerodd y rhan ddefosiynol a hi hefyd a groesawodd ein gŵr gwadd, Mr Ken Jones, Blaen Ddôl. Treuliwyd amser difyr iawn yn ei gwmni pan eglurodd sut y daeth Râs yr Wyddfa i fodolaeth bedair blynedd ar hugain yn ôl, ac fel y mae, dros y blynyddoedd, wedi mynd o nerth i nerth gan ddenu cannoedd o ymwelwyr yn flynyddol. Cwm Brwynog oedd ei ail sylw a dangosodd sleidiau gwych o afonydd, adfeilion hen gapel Hebron, ac ati. Yn dilyn cafwyd amser i drin ychydig o faterion busnes a threfnwyd cludiant i fynd i'r Eglwys Gadeiriol nos Fawrth y 25ain ac i'r

Arddwest ym Mhenrhyndeudraeth y diwrnod dilynol. Gan nad yw Mrs Agnes Owen, Styd Capel Coch gynt yn dda ei hiechyd ac yn yr ysbyty, penderfynwyd anfon cerdyn iddi oddi wrth yr aelodau gan obeithio iddi wellhad llwyr a buan. Diolchwyd i Ken ac i Mrs Nan Owen a Mrs Hilda Williams gan Mrs Audrey Evans ac fe eiliwyd y diolch gan Mrs Bet Hughes. Mrs Betty Humphreys oedd enillydd y raffl. Diwedddwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras. PLAS PENGWAITH. Nos lau, 22 Ebrill daeth Lleisiau Lliwedd yma i'n diddanu. Diolch yn fawr iddynt — roedd y trigolion wedi mwynhau'r noson yn fawr.

Dymuna staff y cartref ddiolch yn fawr i deulu Mrs Marie Pritchard am eu rhodd i gronfa'r staff fel gwerthfawrogiad am y gofal a dderbyniodd Mrs Pritchard.

Mae'r canlynol yn dathlu eu penblwydd yn ystod mis Mehefin — Mrs E. Williams, Mrs M. Williams, Mrs P. Jones a Mrs B. Owen. Pen-blwydd hapus ichi gyd.

Mae Mrs M. Mathews, cynswyddog y cartref, yn gweinyddu yng nghartref Bryn Blodau, Llanffestiniog ac mae pawb ym Mhlas Pengwaith yn cofio'n gynnes ati.

Mae Roslin Thomas, Mair Davies, Doris Cole wedi eu penodi i swyddi newydd yn y cartref. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dair yn eu swyddi newydd.

Cydymdeimlwn â Miss M. Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu y ddiweddar Mrs Agnes Owen a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Fai 4. Bu gyda ni yma am gyfnod hapus iawn. Roedd yn gymeriad hoffus a bob amser yn groesawus i bawb a ddai i ymweld â hi. Mae'n rhyfedd yma hebddi.

Ar Ebrill 30 cynhaliwyd Sioe Ddillad yn y cartref gan roi cyfle i'r trigolion brynu a gweld drostynt eu hunain yr hyn sydd ar gael.

Mae gennym apêl ar hyn o bryd i geisio codi arian i ddiogelu'r bws mini sydd gennym. Mae nifer o lythyrau wedi eu hanfon allan i wahanol fusnesau yn y fro gan obeithio y cawn noddwyr a hynny er lles y preswylwyr. Byddem yn ddiolchgar os oes rhywun a all gyfrannu i'r apêl i gysylltu â'r cartref (870360), a diolchwn yn fawr i'r rhai hynny ohonoch sydd wedi cyfrannu'n barod.

Bu Derek, Lorraine a Shirley yn sefyll arholiad ynghlŷn â'r salwch

Alzheimer — salwch sy'n dod yn annisgwyl ac yn newid bywydau pobl yn gyfan gwbl. Mae'n rhoi cykfle i ni'r staff ddod i ddeall mwy am y salwch a sut i roi mwy o gefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef o'r afiechyd.

Llongyfarchiadau i Jennifer a Rosalin ar ennill tystysgrif NVQ mew gofal.

Bu farw Mrs Dorothy M. Jones yn annisgwyl. Roedd yn gymeriad arbennig iawn ac yn caru popeth Cymraeg a Chymreig ac fe allwn ddibynu arni i gyfranu i'r Eco. Bydd colled ar ei hôl yma. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w thelu a'i ffrindiau. DIOLCH. Dymuna Trefor ddiolch i holl drigolion Llanberis a Nant Peris a bleidleisiodd iddo yn yr Etholiad diweddar. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

DIOLCH. Dymun Doreen, Anne a Gordon a theulu'r ddiweddar Mary Agnes Owen, Gwynant, 2 Ffordd Capel Coch ddatgan eu diolchgarwch i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion, llythyrau, cardiau a galwadau ffôn. Trosglwyddir y rhoddion a dderbyniwyd i gartref Plas Pengwaith. Diolch i'r Parchedigion Idris Thomas George Emlyn Jones am eu gwasanaeth ddydd yr angladd; i Danny a Nerys, Y Bistro am drefnu'r te; ac i'r ymgymerwyr E. W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr.

DRAENOG

Roedd côr meibion nid annenwog yn canu mewn priodas yn yr eglwys yn ddiweddar a gwelwyd un o'r aelodau'n rhuthro allan cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Ac achos y cynnwrf? Roedd o wedi cael ar ddallt fod ei geffylau wedi baeddu'r llwybr at giât yr eglwys. A dyna lle roedd o — yn ei siwt ora — yn carthu mor gyflym ag y gallai cyn i'r briodferch gyrraedd.

DRAENOG

Ond does na rai yn ei chael hi'n galed. Wrth weld y Seiri Rhyddion yn ymgynnull, mentrodd un hen wag ddweud eu bod nhw'n debyg i res o pengwins. Ond braidd yn greulon oedd atebiad un o'r mesyns fod hynny'n well nag edrych fel un o'r Telly Tubbies! Creulon iawn, yn enwedig o gofio i'r sylw gael ei wneud yn ei wyneb — neu ys dywed y Sais, 'in his FFÊS'.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Yr hynaf o'r Darans yn dathlu

Ar Fehefin 8fed bydd William Wyn Davies, Bethel yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Yn ystod tri degau'r ganrif hon roedd 'Wili Wyn', fel y byddai'n cael ei adnabod gydag anwylder, yn un o bêl-droedwyr disgleiriaf Dyffryn Peris.



Dyma, felly, chwaraewr hynaf Y Darans bellach. Tra'n chwarae i Lanberis enillodd bencampwr-iaeth y gynghrair, Cwpan Sialens Bangor a'r Cylch a chwpanau Penrhyn a'r Alves. Ond ar ddiwedd tymor 1934-35 y daeth y wobwr fawr i'w ran, sef Cwpan Iau Gogledd Cymru (y *Junior Cup*). Dyma'r tro cyntaf i Lanberis ennill y cwpan enwog hwn drwy drechu Tref Llanrwst o flaen torf enfawr ar gae Bangor. Y sgôr derfynol oedd 1-0 gyda'r gôl fuddugol yn cael ei sgorio gan D. J. Roberts (Dafydd Taff). Bu gorfoleddu ym Mangor y diwrnod hwnnw a gwnaed y sylw canlynol yn yr *Herald*: 'Never have I seen as much enthusiasm amongst spectators of a junior match.' Ond roedd Y Darans i ailadrodd yr orchest y flwyddyn ddilynol. Eu gwrthwynebwyr yn nhymor 1935-36 oedd Holywell St. James, a'r Darans a orfu o 2-0 gyda Roland Jones a J. G. Morris yn sgorio. Ond arwr y dydd yn ôl y wasg oedd W. Wyn Davies! Cawsai ei addoli gan gefnogwyr brwd Llanberis ynghyd ag arwyr eraill y cyfnod, megis Wil Padarn Road; Gwilym Bwtsiar; Islwyn Jones; Wil 'Penny'; John Glyn; Dafydd Jane Ann; Dafydd Taff; Dafydd Annie Dora; Ianto; Rol Bach; Arthur Roberts, Bangor, a mwy.

Dechreuodd W. Wyn Davies chwarae'r bêl-droed yn gynnar

iawn yn ei bentref genedigol — Clwt-y-bont. Er nad oedd tîm y pentref yn perthyn i unrhyw gynghrair, cawsant eu canmol yn aml yn y wasg fel tîm o hogia lleol brwdfrydig a thalentog. Ei dîm cynghrair cyntaf oedd Rhiwlas. Ond roedd symud oddi yno Lanberis fel symud i Old Trafford! Cawsai newid i'w ddillad pêl-droed mewn mangre swanc iawn — Y Grosvenor (hen gartref sefydlydd pêl-droed y pentref, sef Dr R. H. Mills-Roerts). Cofia hefyd newid yn y Snowdon Valley.


Llwyddodd William Wyn Davies gael mynediad i'r hen Ysgol Sir ym Mrynrefail ac ymhyfrydai yn y ffaith iddo fod yn yr un dosbarth a'r ddiweddar Mat Pritchard. Ond dyddiau caled oedd rheiny ac yn anodd i gael dau-ben-llinyr-ynghyd yn aml. Cafodd ei orfodi i fynd i'r chwarel. Ei gyflog cyntaf yn y fan honno oedd wyth swllt a grôt! Cawsai ddau swllt yn ei boced i fynd i'r pictiwr yn Lanberis a chael gêm o biliards yng nghwt Ignham. Ymddiddorodd ar hyd ei oes mewn biliards a snwcer gan chwarae yn aml yn Lanberis, Deiniolen a Bethel. Cofia yn iawn ennill cystadleuaeth snwcer yn Neiniolen. Punt oedd y wobwr — ond am resymau anesboniadwy, nid oedd hawl gan y trefnwyr i roi yr arian iddo, dim ond anrheg oedd ym werth punt! Penderfynodd ar drowsus melfared i fynd i'r chwarel.

Canmolai gymdeithas y chwarel i'r entychion. 'Braint,' meddai, 'oedd cydweithio â gwŷr mor ddiwylliedig a dysgedig.' Dysgodd lawer yn eu cwmni. Bu'n ysgrifennydd Eisteddfod Steam Mills — Ffer Injian. Cofia y diweddar gyn-Archdderwydd R. Bryn Williams (Patagonia) yn beirniadu yno; cofia Emyr Jones, a ddaeth yn Brif Lenor ei genedl, yn ennill y Gadair yno a chofia

gorau meibion o wahanol bonciau yn cystadlu yno. Crud diwylliant yn wir.

Bu'r chwarel hefyd yn gyfrwng iddo ef a'i ddiweddar wraig, Kate Ann Davies, i briodi a magu plant. Cawsant ddau o hogia — Haydn a Derrick. Pan gaewyd y chwarel bu'n rhaid iddo symud i Ferodo i weithio. Bu'n ddiagon yn Eglwys yr Annibynwyr ym Methel am dros saith mlynedd a deugain a gwasanaethodd saith o weinidogion. Mae bellach wedi ymgartrefu yng Nghartref Sant Teilo, Bethel ac onibai am nam bychan ar y golwg byddai'n gallu dangos tric neu ddau i gywion presennol y bêl-droed.

Pen-blwydd hapus yn wir, Wili Wyn!



William Wyn Davies gyda chwpanau Penrhyn a'r Alves o boptu'r Cwpan Iau.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Plant yr Ysgol gyda chenhadon ifanc o'r Unold Daleithiau a'r Parchg John Pritchard.

LLONGYFARCHIADAU i Hayley ac Emlyn, Tyddyn Bryn Crwn ar enedigaeth merch fach, Caryl Emlyn.

Llongyfarchwch hefyd Carys, Glanydon ar ennill Cwpan Coffa Canon Alun Jones a tharian yng Ngŵyl Gorawl Eryri; ac hefyd i'w chwaer fach, Anest, ar ennill seren aur. Bu Anest hefyd yn llwyddiannus yn Eisteddfod Llanberis gan ddod yn gyntaf am adrodd a thrydydd am ganu. Da iawn chi.

GARTREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs E. Morris (Nain Becws) ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbty ac sydd ar hyn o bryd gyda'i mab a'r teulu yn y Ceunant.

ANGLADD. Ddydd Iau, Mai 13, ym mynwent Llanrug, claddwyd llwch y ddiweddar Mrs Enid Hoffman (Enid Parry, Bwlch gynt) a fu farw yn yr Iseldiroedd. Gwasanaethwyd gan y Parchg Gwynfor Williams. Cydymdeimlir â'i phriod, Mr Chris Hoffman, a'i dwy ferch yn eu profedigaeth.

APÊL KOSOVO. Trefnwyd Noson Goffi yn y Ganolfan nos Fawrth, Mai 4, a gwnaeth elw o £155. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos teilwn hwn.

NEWYDDION O'R YSGOL. Ddiwedd mis Ebrill aeth plant Bl. 5 a 6 i ymuno

â phlant Penisarwaun a Rhiwlas i weld cyflwyniad gan Wasanaeth Ailgylchu Antur Waunfawr. Mwynhawyd y bore yn fawr gan bawb a diolch am y croeso ym Mhenisarwaun.

Braf oedd cael croesawu Miss Dona Evans o Ysgol Brynrefail atom ar brofiad gwaith. Mae'n dilyn cwrs arlwyth ac fe fu'n gweithio gyda Mrs Hilda Orritt yn yegin.

Mae'n bleser cael llongyfarch dau o blant yr ysgol ar eu llwyddiant yn Adran Celf a Chrefft yr Urdd eleni. Daeth medal aur i Sara Jones Bl. 2 am waith peintio ar sidan ac un hefyd i Jack Watson Bl. 1 am waith collage.

Pob hwyl rŵan i Lauren Jordan fydd yn cystadlu ar lefaru i ddysgwyr yn Llanbedr Pont Steffan wythnos nesaf.

Diolch i'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio wythnos diwethaf. Da iawn chi am wneud eich gorau.

Carem ddiolch o galon i bawb fu'n cefnogi ein hymgyrch i gasglu talebau creision Walkers. Fe gasglwyd bron i 10,000 ohonynt ac mae hyn yn golygu casgliad gwerthawr iawn o lyfrau i bob dosbarth.

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER

PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD

BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

RHOSTIO MOCHYN



AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol ★ Partïon rhwng 40 a 400!

★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau ★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Tymor y Mabolgampau



Unwaith eto mae llwyddiant wedi dod i ran ein disgyblion ym Mabolgampau Gogledd Gwynedd.

Bydd y canlynol yn mynd ymlaen i Fabolgampau Eryri, ddydd Sadwrn, 12 Mehefin —

Genethod dan 15: 100m, Nia Jones; 200m a'r Naid Hir, Ailsa Orlik; Naid Uchel, Michelle Spain.

Genethod dan 17: 300m, Aimee Addisgon; Picell, Carol Jones.

Bechgyn dan 15: 100m a'r 200m, Jonathan Gordon; 300m a Pwysau, Owain Morris; 800m, Marcus Orlik; 1500m, Eifion Williams.

Pob lwc iddynt a gobeithio y daw llwyddiant pellach i'w rhan.

Dydd y Llyfr



Cafodd y 23ain o Ebrill ei gofnodi yn Ddydd y Llyfr er mwyn hybu darllen ac fe wnaed ymdrech arbennig gan bawb yn yr ysgol.

Cafwyd cyfnodau dosbarth hirach na'r arfer, gyda'r athrawon a'r disgyblion yn darllen ar goedd bytiau o'u hoff lyfrau. Boed yn farddoniaeth neu'n nofel neu llyfrau ffeithiol.

Yn ogystal cafwyd 'raffl am ddim' i'r plant i gyd gyda thocyn llyfr i'r rhai buddugol. Y rhai ffodus oedd Sarah Owen 7S, Sonia Hughes 8S, Emma Owen 9S, Gwyn Williams

10i, Kevin Pritchard 11E, Ffion Hughes 12.

I gydfynd â hyn daeth yr awdur Eirug Wyn i ymweld â rhai o ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11. Cafwyd hanesion difyr iawn ganddo a'r plant yn ei holi am ei waith a sut y daeth i ysgrifennu ei nofel, 'United'. Mae pawb yn edrych ymlaen at ei nofel nesaf ac yn cytuno bod angen llawer mwy o nofelau o'r math yma yn Gymraeg.

Arwyddodd gopïau o'i nofel ac fe gafodd Anthony Foulkes gopi i'w gadw i gofio'r achlysur.

NEWYDDION O Y

Cyflwyno Cofnod o Gyrhaeddiad i Bl. 11

Cynhaliwyd y seremoni yn ystod prynhawn Mercher, 28 Ebrill, yn neuadd yr ysgol.

Cyflwynwyd y Cofnod gan gadeirydd y llywodraethwyr, Mr Dewi Rowlands, wedi iddo ef a'r prifathro annerch y disgyblion.

Mae'r Cofnod yn ddogfen gynhwysfawr sy'n portreadu darlun positif gyfredol am y disgybl. Ynddi mae cyfraniadau gan gadeirydd y llywodraethwyr, tiwtoriaid, athrawon, cyflogwyr, y cwmni gyrfa a'r person ifanc ei hun.

Fe'i defnyddir fel adnodd i gyf-weld gan golegau addysg bellach yr ardal, cyflogwyr ac asiantaethau hyfforddi ac yn rhywbeth i ymfalchïo ynddo ymhen blynyddoedd.

Yn dilyn y ffurfioldeb, cafwyd lluniaeth ysgafn, wedi'i baratoi gan Adran Economeg y Cartref.

Pob lwc i holl ddisgyblion blynyddoedd 11 a 13 sy'n barod wedi cychwyn ar arholiadau TGAU a Lefel A.



Andrea Scase, Catrin



Llyr Morris gyda Mr Dewi Rowlands a Mr Selwyn Allsup.

Profiad Gwaith Gwahanol

Mae disgyblion Bl. 12 newydd gwblhau wythnos lwyddiannus iawn mewn lleoliadau pell ac agos.

Gwelwyd Ceri Jones ac Alaw Hughes yn Amgueddfa Werin Genedlaethol Sain Ffagan, tra roedd Michelle Roberts gyda'r BBC yn Llandaf, Caerdydd; ac Elen Hunter yn yr Adran Hyfforddiant Tramor ym Mhrifysgol Manceinion.

Er i'r gweddill fod mewn

lleoliadau yn nes adref mawr oedd eu gwerthfawrogiad o'u cyfleoedd.

Mae'r profiad yma yn y chweched dosbarth yn rhoi cyfle i ddisgyblion grisialu eu meddyliau am eu dyheadau gyrfaol, yn ogystal â rhoi y siawns iddynt drafod gyda phobl broffesiynol yn eu meysydd gwaith.

Hoffai'r ysgol ddiolch unwaith eto i'r holl gyflogwyr a fu mor gefnogol i'r cynllun.

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES

CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG

MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD

PRIODAS

TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni


CERID MACKINNON

(01286) 673190

neu (0374) 925502



YSGOL BRYNREFAIL



Oper a Michelle Clarke.



van Crawshaw gyda Mr Eifion Jones.

Ennil 'Playstation'

Tra ar ein gwyliau yn Fflorida roedd pawb yn cadw dyddiadur mewn 'filofax' cran — un *Pierre Cardin*!

Roedd rhaid ateb cwestiynau bob dydd am Disney World ac ysgrifennu'n ddiddorol. Doedd hyn ddim yn waith anodd achos roedd cymaint i'w weld a'i wneud ac, wrth gwrs, roedd pawb yn gwybod mai'r cofnod gorau oedd am ennill y 'Playstation'.

Nos Fawrth, 27 Ebrill, daeth Lorraine O'Brien a chriw'r *Daily Post* i'r ysgol i ddangos y fideo ohonom yn Fflorida a'r lluniau a dynnwyd, ac ar ôl yr holl ddiolchiadau a'r hwyl cyhoeddwyd mai fi oedd yn fuddugol. Grêt, roedd yn andros o sioc ond roeddwn i wrth y modd ac mor falch. Fedrwn i ddim disgwyl i fynd adref i ddechrau chwarae efo'r gemau. Diolch yn fawr iawn am y gwyliau a'r Playstation.

Arwyn Jones 8E



Ein Twrnament Cyntaf

Cafodd tîm pêl-rwyd Bl. 7 gyfle i chwarae mewn twrnament cyfeillgar gyda phedair ysgol arall.

Roedd pob tîm yn cael pedair gêm yr un, ac er ein holl ymdrech roedd tîm Ysgol Syr Hugh Owen yn llawer rhy gryf i ni. Cael tipyn mwy o hyder a chwarae'n well yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Tryfan, ond colli oedd ein hanes eto.

Yn amlwg nid oedd pwysau arnom pan aethom i'r gêm olaf ac o ganlyniad cawsom ryddid i chwarae gyda hyder gan ennill 5-2 yn erbyn Ysgol Ffriers.

Byddwn yn edrych ymlaen i wella ar hyn yn y dyfodol, er hynny fe wnaeth pawb fwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Ceri Jones 7i

Mynd ar wib i Wrecsam



Wedi i ddwylo cryfion y Chweched lwytho'r bws coch cychwynnodd Mrs Lowri Roberts a minnau am Wrecsam â llond bws o nwyddau ar gyfer trigolion Kosovo.

Dros yr wythnosau diwethaf bu pawb yn casglu'n frwd a llwyddwyd i lenwi pymtheg bocs mawr. Roedd y bocsus wedi eu pentyrru a phasta, reis, bwyd babi, di-gig a chlytiau.

Felly, ar ddydd Iau, Mai 13, cychwynnodd y ddwy ohonom, ddwywaith! Penderfynodd Mrs Lowri Roberts, wedi deg munud o daith, bod angen petrol. Felly, yn ôl â ni am orsaf betrol Hafod.

Cyrhaeddodd y bwst stad ddiwydiannol Wrecsam ac ar ôl ymweld â'r uned beirianeg (mewn camgymeriad) a holi ambell un, roeddem o flaen swyddfeydd

'Operation Christmas Child'. Gyrrwyd y bws i'r storfa a dadlwytho'r pymtheg bocs — a edrychai'n fychan o'u cymharu â'r miloedd oedd yno eisoes.

Toc wedi pump o'r gloch fe gyrhaeddodd y bws ei gartref ac es innau adref yn barod am blataid enfawr o swper yn fy nghartref moethus. Yr eiliad honno y sylweddolais mor ffodus ydym ni a phaham y cychwynnais yr ymgyrch. Mae trigolion anghennus Kosovo angen ein cymorth a gallwn ddweud yn awr ein bod wedi cyfrannu at gymorth bwyd y bodau diniwed sydd wedi eu carcharu yn eu gwersylloedd cyfyng.

Diolch o galon am eich cyfraniad.

Bethan Williams (Prif ddisgybl)

Diwrnod bythgofiadwy!

Ar 12 Mai bu chwech o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn perfformio o flaen 8 miliwn o bobol, pan ymddangosodd Seindorf Arian Deiniolen ar y rhaglen Loteri Cenedlaethol. Cychwynnodd Trystan Ellis, Urien Siôn, Jennie Lyn Morris, Gethin Williams, Collette ac Arwel Williams, ynghyd â gweddill y Seindorf, tua Manceinion am hanner awr wedi dau brynhawn dydd Mercher. Mae'n rhaid i mi gyfaddef na welais i erioed y Seindorf mor ddistaw, roedd hi'n amlwg bod y nerfau wedi cychwyn. Arhosodd y bws ger y BBC yn Manceinion am bump o'r gloch. Rhuthrodd pawb oddi ar y bws, yn enwedig yr hogau, gan fod pob un wan jac ohonynt yn edrych ymlaen i weld Carol Smile — 'sgwn i pam? Dadlwytho'r bws ac yna i mewn â ni i'r stiwdio i ymarfer y gerddoriaeth. Roedd criw y loteri wedi bod yn Neiniolen wythnos ynghynt yn ffilmio'r band yn ein ystafell ymarfer,

sydd bellach ar ei newydd wedd. Sail ein ymddangosiad ar y loteri oedd y grant a gawsom gan Gyngor Celfyddydau Cymru, y grant mwyaf sydd wedi cael ei rhoi i fand pres, sef £250,000 i adnewyddu ein ystafell ymarfer. Wedi'r holl ymarfer roedd hi'n amser am fwyd ac ychydig o ddiod, yna, wedi'r gwledda roedd hi'n amser am y 'dress rehearsal'. Daeth yr awr fawr, a thynged Band Deiniolen am ddeng munud i naw, pan gychwynnodd y rhaglen FYW! Ian Williams, rheolwr y prosiect, oedd yn cychwyn y peli ac yn gobeithio gwneud rhywun yn filiwnydd. Yn sicr bu hwn yn ddiwrnod i'w gofio ac yn un o'r digwyddiadau fydd yn aros ar fy nghof am flynyddoedd.

Ond mae'n rhaid i mi gael diolch i Ian Williams, heb ei holl waith caled a'i ymroddiad i'r Band, breuddwyd fyddai'r cyfan.

Jennie Lyn Morris

SGIPIAU ANFRAG

(ROBIN THOMAS)

- ★ DOMESTIG A MASNACHOL
- ★ SGIPIAU 6, 8 a 10 LLATH
- ★ TRWYDDED LAWN I GLUDO GWASTRAFF
- ★ GWASANAETH 7 DIWRNOD

HEFYD YN DELIO
MEWN METAL SGRAP
METALAU HAEARN A DI-HAEARN



Ffôn: **870753** neu **660118**

Symudol: **0498 636559**

TAN Y FOEL, GALLT Y FOEL, DEINIOLEN



J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Llythyr o'r America...

Cambria,
Wisconsin

February 4th 1885

Annwyl Frawd,

Derbynniais dy garedig lythyr ers tuag wythnos yn ol, a rhyfedd iawn onide, pob tro y bydd cerydd ynddynt, bydd wedi myned yn afreidiol yn rhywle tua canol yr Atlantic. Mae llawer iawn o bethau gwerthfawr iawn yn ei grombil ef, ac mae'r cerydd wedi myned yno ganlyn lliaws o bethau da eraill. Yr ydwyf yn credu y byddaf wedi cael gair oddiwrthyt cyn pen yr wythnos, ar ol i ti dderbyn fy epistol. Yr wyf yn disgwyl darlun Janet ym mhob llythyr wyf yn ei gael. Yr wyf wedi cael un Mary Kate, ac y mae yn un da iawn. Y mae wedi altro dipyn, ond y mae yn bur naturiol. Yr wyf yn methu a deall beth ydwyf wedi ei wneud i Eliza, nid wyf wedi clywed ganddi ers llawer o fisoedd. Anfonais fy narlun iddi, ond ni chlywais ddim yn ei gylch byth. Dywed wrth Thomas a Janet nad ydwyf wedi eu anghofio hwythau.

Wel, dipyn o fy hanes a hanes pethau amgylchynol i mi fydd y mwyaf cymeradwy gennynt mae'n ddiamau. Yn y 'Llan yr wyf yn llewyrch' o hyd. Byddaf weithiau yn meddwl fod synied yn eich mysg yn Llanberis, mai dym yn 'Llan' wyf am fod o her, ac y mae yn eithaf naturiol i chi i feddwl hynny. Nid wyf yn meddwl fod i mi ryw lawer iawn yn fy ngholled aros yma fel ag y gwneuthym, achos yr wyf yn sicr o fod wedi gwneud, neu o'r hyn leiaf, wedi safio cymmaint ers pan yr wyf yma, ag a fuasai wedi ei wneud yna tua 5 mlynedd o amser. Rwyf yn gwybod faint a roddais heibio yna mewn pum mlynedd o amser, ac yr wyf yn gwybod faint wyf wedi ei roddi yma mewn ychydig o fisoedd yn llai na dwy flynedd. Mae'n wir hynny fod yna fwy o ddeori yn y Nant Padarn Building Society nag oedd flynyddoedd yn ol. Dyna ddigon ar hynna.

Y mae gair i'w ddweud eto am y gauaf yma. Y mae wedi gwneud gauaf caled iawn hyd yn hyn. Y mae

ers tua mis o amser yn rhywle o zero i 30 below zero bob dydd. Y mae y rhan fwyaf o'r amser yn agosach i 30 below zero nag yw i zero, ond er y cyfan yr wyf yn ei standio yn iawn. Nid wyf yn teimlo dim oddiwrtho, rhagor yr oeddwn llynedd, a nid wyf wedi rhewi fy nhrwyn o gwbl eleni. Y mae yma lawer iawn o bobol yn rhewi eu bysedd a'u dwylaw.

Y mae yma le difyr iawn y gauaf hwn. Mwy difyr o lawer na llynedd, achos y mae yma fwy o ganu o lawer. Lle bynnag y bydd canu gelli fod yn sicr fod yn y lle hwnnw le difyr. Y mae yma gyfarfodydd Llenyddol yn cael eu cynnal bob yr ail wythnos, a chredet di byth cymmaint o hwyl sydd i'w gael ynddynt, ag a gefais i erioed yn Llanberis, os nad mwy. Yr oeddyt ti yn son eich bod chwithau tu'r vestry room yna yn cael cyfarfodydd hwyliog. Bydd gennym ddadl ynddo bob tro ar wahanol faterion, a'r rhai hynny yn faterion y gall pob dyn ieuanc ddweud rhywbeth arno. Y mae yr hen Lanber yn cael hwyl iawn, yn gweithio ei orau ynddynt. Un peth yr wyf yn falch iawn ohono, rwy'n sicr y bydd ar Nhad dipyn o wenwyn i mi. Yr wyf wedi cael y fraint anrhydeddus o fod yn feirniad yma, yr hon fraint na cheffais byth yn Llanberis, ac hefyd nid Beirniad Rhodd Mam oeddwn i chwaith! Beirniadu llaw ysgrifau, tua 26 ohonynt, rwy'n credu mai nid dyma y tro diweddfaf chwaith, achos mae yr hen Lanber yn dipyn o ddyn yma. Hym hym!

Dyma i ti faterion ein dadleuon i edrych beth feddyliche chi yna yn Fron Goch ohonynt:—

- Pa un a ydyw yr iaith Gymraeg yn fantais i Gymro Americanaidd, a'i nad ydyw.
- Pa un a'i drwg neu daioni a wnaeth pleidwyr St. John (prohibitions) i'r achos dirwestol yn yr etholiad ddiwethaf.
- Pa un a'i colli y golwg a'i ynteu colli y clyw a fyddai fwyaf o niwed i ddyn.
- Trwy pa un a'i 'mwynhad' a'i 'gobaith' y mae dyn yn cael fwyaf o gysur.
- Pa un a'i bwyd mewn gwlad, a'i bwyd mewn tref ydyw y goreu.

Neithiwr yr oedd y ddadl ar 'fwynhad' a 'gobaith'. Yr wyf yn cael rhoddi fy mhig i mewn yn yr oll ohonynt. Myfi oedd y captain ar ochr 'mwynhad', a Tom Closs ar ochr 'gobaith'. Yr oedd pump ar bob ochr; pe buaset yma buaset yn cael chwerthin digon beth bynnag, achos yr oedd pawb yn wit iawn. Yr wyf yn teimlo fy hun yn cael polish iawn

ynddynt, ond nid wyf am frolio dim arnaf fy hun. 'Canmoliaeth arall ydyw.'

Y mae John D. Closs yma ers y 7ed o'r mis diweddfaf fel yr ydych yn deall oddiwrth y llythyr a'r Drych diweddar a anfonais. Soniwch chi yn Llanberis nad ydyw America yn gwneud dim lles i ddynion, nid wyf i yn credu hynny, achos yr wyf yn cael prawf o hynny wrth weled a chlywed o'r blaen am John D. Closs. Y mae wei altro yn arw iawn er ei well. Nid Sion Dafydd Closs mohono yn awr. Y mae wedi troi yn fachgen nice iawn. Bum yn meddwl y buasech chi yna yn tybied fy mod i wedi ei hudo yma, ond nid oes dim o'r fath beth, achos un peth nid wyf yn hidio dim am i neb fel yna ddod yma, fel y buaset dy hunan, mae'n lled debyg. Ni wyddwn ei address, er fy mod wedi anfon at Nell Roberts am dano, ond nid oeddwn wedi ei gael.

Pa fodd y mae hi yn dod tua'r chwarel yn awr? A ydyw hi yn gwella dipyn? Gobeithio ei bod. A wyt ti wedi penderfynu dod drosodd? Gobeithio dy fod yn dal dy galon i fynny, ac nad yw hanes Bob ddim wedi dy ddychryn. Pa sut mae William Roberts? Cofia fi atto yn arw iawn, ac at Mrs Roberts. Yr ydwyf wedi myned i'r grediniaeth mai afreidiol ydyw anfon fy nghofion at lawer o'r hen griw yn y chwarel, nid yw ond gwiriondeb, just yr hen gyfeillion agosaf, megis William Roberts a'r rhai hynny.

Bum yn edrych am gyfnither i David Rowlands, Pentre Castell yr wythnos ddiweddfaf, sef Margaret merch Griffith Shion Pritchard. Euthum yno gyda John, achos ei bod yn gyfnither iddo. Nid oedd yn gwybod fod ei modryb Anne wedi marw nes y dywedais wrthi. Y mae bywoliaeth hapus arni. Un o Ffestiniog yw ei gwr o'r enw Rt. On. Roberts, chwarelwr, ond daeth yma tuag 18 mlynedd yn ol (neu ychwaneg) i ffarmio, ac y mae ganddo le hapus yn Fair Haven. Stewart yr oedd o cyn dod i'r West yma.

Beth ydyw y lol y mae John E. Jones yn ei anfon i'r Drych? Buasai'n llawer harddach iddo dewi achos y mae pawb yn Cambria yma wedi ffeiddio ar ol iddo ddweud beth a wnaeth am Lizzie. Y mae Bennet gyda Powell, a Lizzie wedi newid ei lle ers talwm.

Cofia fi at Nain a Margaret Evans. Yr ydwyf wedi meddwl mwy na mwy am ysgrifennu llythyr i Nain, ond yr wyf yn methu a gwybod peth yw y

peth gorau i'w anfon iddi. Nid ei hanghofio wyf wedi ei wneud achos yr wyf yn disgwyl dy fod yn darllen llawer iawn o fy llythrau iddi. Y mae yn sicr o gael un iawn rhyw ddiwrnod.

Esgulusais ddweud fy mod wedi derbyn yr arian yn llwyddiannus (arian y fuwch). A ydyw Nain yn gallu myned i'r capel yn fynych, a'i nad yw. Cofia fi atti a dywed wrthi fy mod yn dal mewn gobaith am ei gweled etto cyn hir, os y doi di yma eleni neu yr haf nesaf, gwnaf innau addewid i ddod drosodd i'ch visitio chiwthau amser Eisteddfod Caernarfon a'r Exhibition yn Llundain, os byddaf yn fyw ac iach (of course), ac os y gallaf fe hudaf Tom Closs gyda mi. Y mae wedi rhyw hanner addaw os y bydd wedi cael ei ryddhau o Dakota yn yr haf nesaf. Traetha dy farn ar hyn, frawd.

Nid oes gennyf ddim ond cofion serchog atoch oll fel teulu, a cofia fi at modryb ac ewyrth Cae Esgob a Hafod Uchaf.

A derbyn dithau fy nghofion goreu,

Ydwyf dy frawd,

OWEN W. ROWLANDS

Cambria,
Box 67. U.S.A.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant
Ffôn: (01286) 870356

BRYSLA WELLA. Croeso gartref i Gareth Pritchard, Tyddyn Alys wedi iddo fod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn gwella erbyn hyn.

CYDYMDEIMLO. Cydymdeimlwn yn fawr ag Alan (Llys Alaw) a Teleri o glywed am farwolaeth mam Teleri. Anfonwn ein cofion at y teulu i gyd. EISTEDDFOD. Llongyfarchiadau i blant y pentref a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Llanberis yn festri Capel Coch ddydd Sadwrn, Mai 15. Roedd yn dda gweld amryw o blant y Nant ar y llwyfan.

GWYL GORAWL. Cynhaliwyd yr Wyl Gorawl yn Eglwys Sant Padarn ddydd Sul, Mai 16. Llongyfarchiadau i Nicholas a Stephanie Welsby, ac Alice a Sioned Cumberton ar eu llwyddiant yn derbyn seren aur am ddysgu'r maes llafur.

DIOLCH. Dymuna Trefor ddiolch i holl drigolion Llanberis a Nant Peris a bleidleisiodd iddo yn yr Etholiad yn ddiweddar. Diolch o galon am eich cefnogaeth.

Cefnogwch ein Hysbysebwy



Y GAMPFA
CANOLFAN IECHYD
A FFITRWYDD

(Perchennog: D. M. A. Lee)

DEINIOLEN

Ffôn:

(01286)

872 240

Antur Waunfawr



• Meithrinfa Blanhigion

planhigion i'r ardd

gwasanaeth plannu basgedi crog a photiau

• Siop Grefftau Bryn Pistyll

stoc newydd o nwyddau chwaethus

gan grefftwyr Cymreig

dewch draw i weld beth sydd

gennym i gynnig

agored pob dydd Sadwrn yn ystod yr haf

yn ogystal a'n oriau arferol

Llun - Gwener 10.00 - 4.00



ANTUR
WAUNFAWR

☎ 650 721

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Cofio'r Deuddeg

Dydd Iau, Gorffennaf 1af eleni cofir am drychineb a ysgydodd ardal a chymuned Dinorwig gan mlynedd union yn ôl. Y dydd Sadwrn hwnnw boddwyd deuddeg o aelodau Eglwys fach St. Mair, Dinorwig wrth i gwch rhwyfo ddymchwel ym Mae Ceredigion (South Beach, Pwllheli). Dim ond y cychwr, Robert Thomas, a achubwyd.

Yr oedd 750 o blant ac oedolion o wahanol blwyfi yn y Dyffryn wedi cychwyn yn blygeiniol hefo'r trên i fwynhau diwrnod ym Mhwlheli ond fe drodd y wibdaith yn hunllef oherwydd y drasiedi.

Boddwyd teulu cyfan o Tynyfawnog; dau frawd o Tanybwllch; pedwar aelod teulu Tyddewi; ac un bachgen o Bron Elidir. Cafwyd hyd i bedwar corff yn syth wedi'r drasiedi yna saith ar y dydd Llun, a daeth corff John Rowland Hughes i'r lan ar draeth Abererch ymhen wythnos. Claddwyd un ar ddeg ar ddydd Iau, 6 Gorffennaf a gwelwyd cynhebrwng mwyaf erioed ym mhlwyf Llandinorwig ac yn y dyffryn. Roedd gweld un ar ddeg o eirch, wyth ohonynt yn rai plant, yn olygfa dorcalonnus.

Claddwyd yr un ar ddeg mewn chwe bedd yn y fynwent a chladdwyd y deuddegfed, John R. Hughes y dydd Mawrth canlynol.

Ar y dydd cyntaf o Orffennaf eleni, a hynny mewn gwasanaeth 'Cofio'r Deuddeg' yn Eglwys Crist, Llandinorwig caiff llyfr y Parchg Idris Thomas, Trefor a Deon Gwlad Argon — *Pêl Goch ar y Dŵr* — ei lansio a bydd ar werth am £4 ar ôl y gwasanaeth.

Mae'r llyfr yn ffrwyth ymchwil manwl ac yn gofiant cynhwysfawr o'r drasiedi ac yn cynnwys manylion am fywyd plwyf Llandinorwig a chymdogaeth Dinorwig yn ystod blynyddoedd olaf y ganrif ddiwethaf. Roedd bywyd eglwysig y plwyf dan arweiniad y Ficer, y Parchg James Salt, a bywyd ymneilltuol dan arweiniad y gweinidog dall, y Parchg John Pulston Jones, yn egniol a chyffrous ar y pryd ac ni ddylid anghofio hynny.

Nid oes neb hyd yn hyn wedi ymchwilio'n llawn i'r drasiedi

hon er bod y digwyddiad yn un mor enfawr, ond ym mlynedd y canmlynwyddiant gwneir iawn am hyn.

Mae croeso i bawb i Eglwys Crist Llandinorwig am 7 o'r gloch nos Iau, Gorffennaf 1af. Yn ystod y gwasanaeth bydd Esgob Bangor yn gosod torch ar y gofeb enfawr yn yr Eglwys i gofio'r deuddeg a chyn y gwasanaeth gosodir blodau ar eu beddau gan rai aelodau o deuluoedd y rhai a gollwyd. Cenir emynau, offrymir gweddïau a cheir darlenniadau priodol yn y gwasanaeth.

Y bore hwnnw bydd Bad Achub Pwllheli yn mynd allan at yr union fan yn y bae lle dymchwelodd y cwch a gosodir torch o flodau ar y môr gan Faer Pwllheli ac yn dilyn bydd gwasanaeth crefyddol byr o dan arweiniad y Parchg Meurig Llwyd, Ficer Pwllheli a'r Parchg William Davies, gweinidog Capel y Drindod.

Un o Ddinorwig yw'r Parchg Idris Thomas ac ef sydd wedi trefnu'r ddau ddigwyddiad gan mlynedd union i'r drasiedi, ac edrychir ymlaen i dderbyn a darllen ei lyfr. Daliodd y drasiedi hon ddychymyd Prydain gyfan a thu hwnt, a bydd y coffad ym Mhwlheli ac yn Eglwys Crist Llandinorwig yn gyfle i ddwyn i gof yn lleol ddigwyddiad mwyaf prudd ym mywyd ein cymuned chwarelyddol.



Therapyddion Lleferydd — a dip defaid

Annwyl Olygydd,

Mewn cyd-gyfarfod diweddar o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd gyda'r Awdurdod Iechyd, mynewyd consym gan yr aelodau ynglŷn â dau fater penodol sy'n ymwneud â iechyd y cyhoedd, sef diffyg Therapyddion Lleferydd ac effaith dip defaid ar y bobl hynny sy'n ei ddefnyddio.

Hoffwn wybod, er enghraifft, sut mae diffyg Therapyddion Lleferydd wedi amharu ar y gwasanaeth sydd ei angen arnynt o ran cleifion sy'n gwella yn dilyn strôc ac ar wasanaethau i blant ifanc, yn enwedig o ran gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran dip defaid, hoffwn wybod am enghreifftiau o bobl sy'n dioddef salwch oherwydd eu defnydd ohono yn eu gwaith bob dydd.

Buaswn yn ddiolgar petai eich darllenwyr yn cysylltu â mi trwy lythyr neu alwad ffôn gydag enghreifftiau. Byddaf wedyn mewn sefyllfa i gymryd y mater i fyny â'r Awdurdod Iechyd.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,

D. G. OWEN

Prif Swyddog

Cyngor Iechyd Cymdeithas

Gogledd Gwynedd

4 Lôn Bupur, Caernarfon

Ffôn: (01286) 674961

DRAENOG

Hen beth diflas ydi cychwyn ar siwrnai a gorfod troi'n ôl am eich bod wedi anghofio rhywbeth yn y tŷ. Ond dychmygwch y diflastod i lond bws o bobl oedd yn cychwyn am eu gwyliau, wrth i'r bws droi'n 'I OL Am Lanberis am fod un o'r teithwyr wedi anghofio'i bag llaw. Ac OW! 'EN brofiad llawn embaras iddi hithau mae'n siŵr.

SLIM CHWIM MEWN DIM! heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!

ffonlwch (01286) 830609

- TENEUWCH -
SLIM CHWIM MEWN DIM!



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 674100 (dydd)

(01286) 650732 (fin nos)

FFENESTRI : DRYSAU

DODREFN : GRISIAU

GWAITH TURNIO

BLYCHAU CLOCIAU

BLYCHAU DAL OFFERYNNAU

BLYCHAU ARDDANGOS


CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun

Ffôn: (01286) 871833



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-

Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349

(0589) 899901

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr

(01286) 870545

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn ystod mis Ebrill cyfarfu'r gangen leol yn y Festri nos lau yr 22ain yn hytrach na'r nos Lun arferol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd, Mrs Pat Jones. Estynnodd wahoddiad cynnes i Mrs Jan Daniels, Rachub i'r gangen am yr eildro y flwyddyn hon. Yn dilyn ei hymwelïad ym mis Ionawr a'i sgwrs ar aromatherapi holistig, roedd pawb yn awyddus iddi roi noson i'r aelodau ar agwedd arall o'i gwaith, sef reflexology. Mrs Ifanwy Jones, Rhandir oedd yr aelod ffodus a wirfoddolodd i arddangos y driniaeth. Bu'r cyfan yn addysgiadol a thraddodwyd llawer o sylwadau gwerthfawr o safbwynt gofalu am iechyd yn gyffredinol yn ystod y noson.

Diolchwyd i'r wraig wadd gan y llywydd. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Pat Jones, oedd Mrs Gwenda Roberts. Darparwyd y baned gan Mrs Lowri Roberts Williams a Mrs Ifanwy Jones.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o'r gangen nos Lun yr ail ar bymtheg dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Noson oedd hon i drafod argymhellion cyfarfod blynyddol 1999 a chroesawyd y llywydd, Mrs Eira Crocombe, Tregarth i gyflwyno'r ddogfen a thrafod y cynnwys gyda'r aelodau. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Paratowyd y te gan Mrs Helen Morris a Mrs Verna Jones. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Nerys Roberts, oedd Mrs Gwenda Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mehefin 21ain pryd y trefnir noson o waith llaw. Genedigaethau. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Hugh Williams, 4 Tai Orwig ar ddod yn hen daid a nain. Ganed mab bychan, Ynyr Dewi, i'w hwyres Caryl a Berwyn Davies, Rhiwlas. Estynnwn longyfarchiadau i Islwyn a Rhian Jones, 3 Trem Eilian ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed merch fach, Ffion Mai, i Meinir ac Iwan Williams, a chwaer i Siân Angharad. Hefyd Mrs Monica McCafferty, 10 Trem Eilian a ddaeth yn nain yn dilyn genedigaeth efeilliaid, Thomas a Megan i Monica Robinson a'i phriod yng Nghaernarfon.

Mae ein llongyfarchiadau hefyd i Jane a Wil Williams, Carreg Sian ar enedigaeth eu merch fach, Lois

Angharad, ar Fai 18fed.

CYDYMDEIMLAD. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yng nghyfraith, Mr Arthur Price Jones, yn Malpas, Swydd Caer ar Fai 14eg.

MARWOLAETH. Ddydd Sul, Mai 9fed, yn Ysbyty Gwynedd, yn 85 mlwydd oed, bu farw Mrs Elizabeth Ann Jones, merch y diweddar Mr a Mrs J. H. Jones, 1 Tai Orwig, mam Mrs Dilys Evans, Min-y-don a chwaer Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Roedd wedi cartrefu ym Mryngwran am flynyddoedd maith ond ar yr aelwyd ym Min-y-don y cafodd y gofal yn ystod ei hwythnosau olaf. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Elizabeth Ann Jones, Min-y-don, Brynrefail a Sir Fôn, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Gwerthfawrogwyd yr ymweliadau, galwadau ffon, y cardiau niferus a'r blodau hardd. Diolch arbennig i feddygon a gweinyddesau cymunedol Llanberis am eu caredigrwydd; i'r Parchg Edgar Jones am ei wasanaeth ddydd yr angladd ac i'r ymgymerwyr Tudor O. Hughes am ei drefniadau trylwyr. CYMANFA DOSBARTH PADARN. Ddydd Sul, Mai 2il, cynhaliwyd y Gymanfa ym Mrynrefail. Ar hyn o bryd, yn anffodus, nid yw'n bosib defnyddio'r capel i gyfarfodydd cyhoeddus ac felly, am y tro cyntaf erioed mae'n debyg, cynhaliwyd y cyfarfodydd yn y Festri helaeth a hyfrydwch oedd gweld yr adeilad bron yn llawn i'r ddwy oedfa. Arweinydd gwadd y Gymanfa eleni oedd Mrs Mair Huws, Llanrug a'r organyddes oedd Mrs Lowri P. Roberts Williams, Brynrefail. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir a phlant yr Ysgol Sul oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth dechreuol. Mr Emyr Williams, Clwt-y-bont oedd llywydd cyfarfod yr hwyr ac arweiniwyd yn y defosiwn gan Mr Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth. Gwobrwydwyd chwech o blant yr Ysgol Sul am eu gwaith ym maes yr Arholiad Llafar, sef Amy Lambert,



Dylan Davies, Caryl Jones, Awen Jones, Rhian George ac Anna George.

Mae'n ddiddorol nodi mai organ y capel a gludwyd yn ddiweddar i'r festri a ddefnyddiwyd yn oedfa'r prynhawn ac i'r Gymanfa yn yr hwyr defnyddiwyd yr harmoniwm fawr a fu am flynyddoedd maith yn cyfeilio yn y gwasanaethau ac i gymanfaoedd yr hen Ddosbarth Deiniolen gynt yng Nghapel Cwm-y-glo. Pan gauwyd Capel Cwm-y-glo yn 1971 gwnaeth yr harmoniwm ei chartref ym Meillionen, Pen-llyn, cartref y diweddar Mr a Mrs Hugh Jones a hwythau'r pryd hwnnw wedi dod yn aelodau i Frynrefail. Yn dilyn eu marwolaeth yn 1976 eu dymuniad hwy oedd trosglwyddo'r harmoniwm i'r Achos ym Mrynrefail lle mae eu merch a'u mab yng nghyfraith, Mr a Mrs Maurice Jones, yn parhau'n aelodau. Ewythr i'r diweddar Hugh Jones a gyrchodd yr harmoniwm i Gapel Cwm-y-glo yn niwedd pum degau'r ganrif ddiwethaf a'i prynu'n ail-law a wnaed pryd hynny! Ychydig iawn o driniaeth oedd yn angenrheidiol i'r harmoniwm hardd hon wedi ei symud i Festri Brynrefail ac mae'n anghoel ei bod mewn cyflwr mor ardderchog a hithau ymhell dros gant oed. Mawr oedd gwerthfawrogiad y gynulleidfa o'r sain arbennig sydd iddi yn ystod y datganiadau a roddwyd yn ystod oedfa'r hwyr. Mae'n offeryn prin i'w ganfod y dyddiau hyn ac a drysorir yn fawr gan aelodau'r eglwys. Diolch am y cyfle i'w defnyddio am y tro cyntaf mewn Cymanfa ym Mrynrefail. CASGLIADAU. Dan nawdd Cymdeithas Chwirydd Eglwys M.C. Brynrefail casglwyd y swm o £72.50 tuag at waith y Genhadaeth ac a drosglwyddwyd i Gyfeisteddfod Chwirydd y Gogledd yn y

cyfarfyddiad yn Sasiwn Cricieth ar Fai 4ydd.

Bu'r Gymdeithas hefyd yn trefnu casgliad i ffoaduriaid Kosovo. Gyda chyfraniad o £50 gan y Gymdeithas a chyfraniadau personol mae'r cyfanswm presennol yn £164. Os dymuna unrhyw un ymhellach gyfrannu i'r gronfa, cysyllter â'r trysorydd, Mrs Ellen George, Sw'n yr Engan (872306).

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Trefn oedfaon am fis Mehefin —

- 6: Mr John Hugh Hughes, Llanberis (5.30).
- 13: Parchg D. Elwyn Edwards, Caernarfon (Oedfa Bedydd) (10)
- 20: Parchg Oswyn Rees, Bangor (5.30)
- 27: SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU Oedfa'r plant am 2 yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen. Cymanfa Ganu am 6 yng Nghapel Libanus, Clwt-y-bont yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Nantlle. Trefnir cludiant i'r oedfaon fydd yn cychwyn o Ddinorwig am 1.15 a 5.15 p.m.

DRAENOG



Nid peth diarth ydi clywed am bobl yn cloi eu hunain allan o'r tŷ neu o'r car. mae digon o straeon felly wedi dod i glyw'r Dranog dros y blynyddoedd. Ond nid yn aml y clywch chi am ddyn yn ei oed a'i amser yn ei gloi ei hun Y TU MEWN I'R Tŷ! Ond dyna ddigwyddodd tua'r Rhiwennau yn Neiniolen.



CARPEDI GERAIT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



Yn yr ardd!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
Angen cymorth gyda'ch cyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathwrms
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Stampiau Diffiniol Newydd Cymru



Dethlir symbolau traddodiadol o Gymru ar set newydd o stampiau diffiniol i'r wlad a ragolygwyd heddiw (Mercher, 28 Ebrill) gan Swyddfa'r Post i ddathlu lansio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gwaith dyluniwr o Gymru yw'r set o bedwar stamp — 19c, 26c, 30c (ar gyfer post i Ewrop), a 64c. Defnyddir arddull creadigol artistiaid Cymreig. Fe'u dewiswyd ar ôl ymgynghori â phobl Cymru.

Mae'r stampiau, a fydd ar werth ar 8 Mehefin, yn cynnwys cenhinen a gerfiwyd o masern Gymreig ar y stamp Ail Ddosbarth 19c; draig a weithiwyd o ddur Cymreig ar y stamp Dosbarth Cyntaf 26c; cenhinen Pedr ar lechen Gymreig ar y stamp 30 Ewropeaidd; a thair pluen Tywysog Cymru mewn aur ac arian Cymreig ar y stamp tramor 64c.

Dwyed Lewis Evans, Cadeirydd Bwrdd Swyddfa'r Post Cymru: 'Mae sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol i Gymru'n ddigwyddiad hanesyddol ac yn ein barn ni mae'n haeddu cael ei gydnabod gan ein sefydliad ni. Dewiswyd stampiau diffiniol yn hytrach na stampiau arbennig neu stampiau coffa oherwydd eu bod yn ffordd barhaol o atgoffa'r genedl.

'Wrth geisio barn pobl Cymru rydym yn adlewyrchu ysbryd democratiaeth a chyfrannu. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn amrywio ac roeddent yn adlewyrchu trawsdoriad eang o ddelweddau a gysylltir â Chymru, y Cymry, a thraddodiadau Cymreig.'

Yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd oedd yr eiconau traddodiadol a ddewiswyd, ond ymhlith y syniadau eraill roedd cestyll, beirdd a seintiau Cymru, pontydd Cymru, telyn Gymreig, llwygaru, Yr Urdd, Owan Glyndŵr a delweddau lôn gwerin, fel y Mabinogion. Roedd sawl llythyr yn erbyn am beidio â chynnwys meysydd glo ac awgrymodd un ein

bod yn ymwrthod â'r ddelwedd ystrydebol o ferched mewn hetiau uchel.

Dyluniwyd y stampiau gan Tutssels, y mae ei gyfarwyddwr creadigol yn Gymro, sef Glenn Tutssel. Dyma'r tro cyntaf i werth stampiau diffiniol Cymreig gael eu hargraffu'n ddyweithog.

Cyhoeddir hefyd set newydd o stampiau diffiniol ar gyfer yr Alban, i ddathlu sefydlu Llywodraeth yr Alban, ar 8 Mehefin.

Dwyed John Roberts, Prif Weithredwr Swyddfa'r Post: 'Mae Swyddfa'r Post yn sefydliad cenedlaethol ac mae'n cysylltu pob person, pob busnes a phob cymuned ym Mhrydain mewn ffordd na all unrhyw sefydliad arall ei wneud. Mae'r stampiau hyn, a fydd yn ddilys ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, yn dangos ymroddiad parhaol Swyddfa'r Post i ddwy wlad hynod brydferth, amrywiol, llwyddiannus a blaengar wrth iddynt edrych tua dyfodol disglair ar sail gorffennol y gallant ymfalchio ynddo.'

Mae stampiau diffiniol yr Alban yn cynnwys baner yr Alban (19c); llew rampant (26c); ysgallen yr Alban (30c Ewrop); a chynllun tartan (64c tramor). Mae'r Post Brenhinol hefyd yn diweddarau ac yn ailgyhoeddi stampiau diffiniol presennol Gogledd Iwerddon oherwydd newidiadau tariff. Cyhoeddir y rhain hefyd ar 8 Mehefin.

Bydd y stampiau diffiniol newydd ar gael mewn Swyddfeydd Post a thrwy archebu drwy'r post o Swyddfa Ffilatelig Prydain yng Nghaeredin. Byddant ar gael hefyd mewn pecynnau cyflwyno ac fel Amlenni Diwrnod Cyntaf. Bydd stamp llaw dwyieithog gwahanol ar gyfer Caerdydd ar gael hefyd.

Gellir gweld y stampiau ar safle'r Post Brenhinol ar wê:

www.royalmail.co.uk

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.

Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Harriette Roberts, 2 Tai Glangwna ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed (h.y. gwraig Jo Bach Seaview) ar adeg yr etholiad i'r Cynulliad.

PLASTAR PARIS. Pob hwyl i Dewi, 11 Erw Wen a Susan, 4 Bryn y Gof wrth iddynt ofalu am freichiau sydd wedi bod mewn plaster oherwydd damweiniau diweddar. Erbyn hyn maent yn gwella heb blastar.

AWDUR ARALL. Reg Chambers-Jones, Hafon Wen yw awdur *Curiouser an Curiouser — oddities in North West Wales* (Bridge Books, Wrecsam, £6.95). Mae'r llyfr yn un diddorol sy'n manylu am bethau anarferol sydd i'w gweld ym mhentrefi gogledd-orllewin Cymru. O dan y pennawd 'Caeathro' gwelir hanes William Owen, Prysgol awdur yr emyn-dôn 'Bryn Calfari'. Ceir ynddo hefyd hanes gorsaf radio Cefn Du.

RYGBI. Llongyfarchiadau i Darren Lewis, Bryn y Gof am ennill tarian fel rhan o garfan rygbi Ysgol Gynradd yr Hendre a fu yn y rownd derfynol yng nghystadlaethau ysgolion cynradd cylch Caernarfon.

SYMUD Tŷ. Trwy ymadawiad Albert a Lily Jones o 5 Erw Wen mae arloeswyr cyntaf stad Erw Wen 29 mlynedd yn ôl wedi gadael Caeathro. Erbyn rŵan maent yn fyw gyda'u merch a'u mab yng nghyfraith yn Llanrwst. Fodd bynnag, rydym yn siŵr o'u gweld yn ôl yng Nghaeathro o dro i dro. Croeso i Jason, nai Albert a Lily, a Meinir i 5 Erw Wen. Mae Jason yn gweithio yn ffatri offer dringo Deiniolen, a Meinir yn athrawes ym Mae Colwyn.

TYNFA FISOL. Enillwyr mis Mai oedd: £40 Idris Owen, 8 Mur Mathew (157); £25 Heather Thomas, 4 Byn y Gof (91) £15 Marian Huws, Tŷ Mawr (73); £5 Zonia Bowen, Cefn Coed, Stad Glandŵr (12).

GWASANAETHAU'R CAPEL.



Disgwylir y canlynol i bregethu yn ystod mis Mehefin —

6: Parchg W. R. Williams (2)

13: Dim gwasanaeth

20: Parchg W. R. Williams (10)

27: Parchg Iorwerth Jones Owen (2)


Croeso cynnes i bawb, ifanc neu hen, aelod neu beidio, unrhyw Sul. **ETHOLIADAU.** Cynhelir Etholiad Senedd Ewrop ddydd Iau, 10 Mehefin, yng Nghapel Caeathro. Ni fydd etholiad Cyngor Cymuned Waunfawr, Ward Caeathro, oherwydd dim ond dau enw oedd wedi eu cynnig, sef Vera Roberts, 10 Erw Wen a Clive James, Hafan, Tai Bryngwna. Llongyfarchiadau iddynt! Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r Cyngor newydd yn Y Ganolfan, Waunfawr am 7 o'r gloch nos Fawrth, 15 Mehefin.

PLISMON BRO. Yr Heddwas Hope, sy'n gweithio o Orsaf yr Heddlu, Maesincla yw ein plismon bro — ardal Caeathro a'r Bontnewydd. Gellir cysylltu ag ef ar (01286) 673333.

CYNGOR CYMUNED. Roedd yr Arolygydd Aled Jones, Ardal Eryri yn bresennol. Gofynnwyd iddo gadw llygad ar y broblem parcio ceir ar gyrrion Tai Glangwna a tai Brynteg sy'n culhau'r ffordd ac, o dan amgylchiadau, yn peri trafferthion i gerbydau argyfwng fynd drwodd o Gaernarfon i gyfeiriad Bryn y Gof a Phenrhos.

Unwaith eto bu'n rhaid pwyso ar Gyngor Gwynedd i dorri'r tyfiant ger 1 Bryn y Gof a rhwng y gylchfan a Phontrug. Mae'r Cyngor Cymuned wedi trefnu trwsio'r fainc yn y sgwâr. Mae'n syndod fod Cyngor Gwynedd wedi gwrthod torri'r gwair i'r un safon â'r llain sydd gyferbyn â fflatiau Llanbeblig ar y ffordd i Gaernarfon. Mewn atebiad i ymholiad fe dderbyniwyd cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod y llecyn chwarae newydd yn dal ar restr gwaith y Cyngor. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais gan Parc Hamdden Glangwna am drwydded clwb ar gyfer y clwb dros-dro yn y storfa sydd gyferbyn â'r pwll nofio.

Penderfynwyd gofyn i'r adran priffyrdd godi arwydd ar lwybr rhif 30 sy'n mynd o ffordd Penrhod heibio Tyddyn Alice i'r lôn newydd. Talwyd teyrnged i'r Cynghorydd Bobb Owen ar ddiwedd ei gyfnod ar y Cyngor.

 **Cig Bethel** 

**OEN CYMREIG LLEOL CYFAN
AM £1 Y PWYS**

★
**PORC LLEOL
AM 75c Y PWYS**

★
**PRISIAU ARBENNIG AM
GIG EIDION LLEOL**

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

'Dwyn mae cof . . .'

(Ymhlith papurau fy nhad roedd yna dderbynneb o'r Archifdy lleol. Sylweddolais ei fod wedi trosglwyddo nifer o bapurau a lluniau am y Chwarel i'r Archifdy. Er mai dysgu Cymraeg wnaeth o, roedd o wedi ysgrifennu hanner y nodiadau yn Gymraeg ac yna, hanner ffordd drwyddynt, newidiodd i'r Saesneg. Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn hanes y Chwarel ac mewn hanes yn gyffredinol. — (Anita Butler)

ATGOFION R. H. WILLIAMS (Bob Wreccsam)

Deuthun i Lanberis yn 1939 ac aros yn yr hen Drill Hall yn ymarfer gyda'r RWF. Cyfarfyddais fy narpar wraig, Hilda Wynn Davies, yn ystod y cyfnod hwn. Priodwyd ni yn 1943 ac ar ddiwedd y Rhyfel deuthum yn ôl i Lanberis i weithio yn yr hen depot Awyrlu yn Chwarel Glyn.

Dechreuais yn Chwarel Dinorwig ar 30 Medi 1946 fel un o'r 'fforddolwyr'. Roeddwn i yn gang Jack Bayley yn Penrhydd Bach, yn gosod ffordd loco newydd ar hyd y bonc. Fel Cymro di-Gymraeg cefais gyfweiliad gan y rheolwr, Mr W. O. Jones ac fe eglurodd i mi fod yn rhaid i mi ddysgu Cymraeg os oeddwn i am weithio efo'r chwarelwyr!

Penderfynais yn y fan a'r lle fod rhaid i mi wneud hynny. Gan i mi gael fy anafu yn fy nghoes yn ystod y Rhyfel fe benderfynodd Mr Jones nad oedd rhaid i mi fynd i fyny i dop y chwarel a rhoddodd waith i mi ar y lein fach. Cymerais drosodd gan Robat Wiliams Bethel — hen ddyn ffeind iawn, a dysgais lawer ganddo cyn iddo ymddeol.

Enw ein libart nid oedd 'Muriau' neu 'Lower Wellington' a Mr John Griffith (Bethel) oedd y Stiward. Roeddwn yn gweithio Sinc Veronica a Sinc Wembley a Twll Gilfach Ddu (y tair dan ddŵr bellach); hefyd Pant Ceubren — y bonc bwysicaf mae'n siŵr gan fod mwy o gynnyrch yno a mwy o ddynion yn gweithio yno. Ein gwaith oedd gosod a thrwsio rheilffyrdd newydd i'r Bargeinion — roedd llawer yn cael eu torri gan y saethu.

Roedd ein canolfan ni yn 'Cwt yr Onnen' — hen gwt bach iawn

a oedd mor hen fel bod y llawr y tu mewn tua chwe throedfedd yn is na'r tu allan. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn oedd fod y cwt wedi'i ddefnyddio fel 'cwt pwyso' am amser hir — i bwyso y cerrig oedd yn cael eu cario i'r cychod wrth ochr y llyn. Enwyd y cwt am fod coeden fawr wrth ei ochr. Wrth ymyl y cwt roedd yna garreg fawr sgŵar a dywedodd Robat Wiliams wrthyf mai hi oedd carreg terfyn tri plwyf.

Bywyd Caban Cwt yr Onnen
Roedd yna rhwng 10 a 12 o chwarelwyr yn bwyta yng Nghwt yr Onnen — fi oedd y Dyn Caban a oedd yn gyfrifol am gadw'r tân. Roeddwn i'n 'dwyn' ychydig o lo o'r trênn bach wrth iddi fynd heibio ar ei ffordd o'r Gilfach Ddu i Hafod Owen! Roeddwn i'n gyfrifol am lenwi'r tegell o'r nant fechan a gwneud yn siŵr ei fod yn berwi ar gyfer 'panad naw' ac amser cinio am hanner dydd. Rhai o'r dynion yn y Caban yma oedd Ifan Llanerchymedd; Owen Owens (Now Now); Elias Pritchard Tai Bach; Robin Lôn Bost; R. H. Owen (Robin Pengwaith); Idwal (gôl-geidwad Llanberis); John Cae Perthi o Nant; Guto Gardda a Jack Pen-lan. Un o'r nifer o gabannau ym Muriau oedd Cwt yr Onnen. Roedd y caban mwyaf ymhellach i ffwrdd o Sinc Pant Ceubren — a cynhelid y cyfarfodydd pwysig yno. Yn ddiweddarach adeiladwyd caban ar ben yr inclên gan fod y rheolwr yn teimlo fod y dynion yn gwastraffu gormod o amser yn cerdded yn ôl ac ymlaen o'r cabannau eraill am eu panad a'u cinio.

Un o'm cyfeillion gorau oedd Ellis John Ellis ('Rhen Êl). Cymeriad bendigedig! Dysgodd eiriau nifer o'r hen ganeuon Cymraeg i mi, e.e 'Hen Ffon fy

Nain; Myfanwy; Y Bwthyn ar y Bryn. Roedd ganddo lais tenor swynol a byddem ein dau yn canu deuawdau yn rhai o gyngherddau'r caban. Ei dad, Elidirfab, gyfansoddodd geiriau 'Y Bwthyn ar y Bryn' a'r 'Bwthyn' yn y gân oedd Y Parc, Dinorwig. Byddai'r 'Rhen Êl yn ein diddori ar brynhawniau Gwener diwedd mis gyda'i storïau — rhai'n wir a rhai yn chwedlau lleol. Roeddwn i wrth fy modd yn gwrando arno'n adrodd hanes ei blentyndod — roedd ganddo grefft y storiwr.

Roedd fy ngaeaf cyntaf yn y chwarel yn un caled iawn — gaeaf 1946-47. Rhewodd y ddau lyn yn gorn. Cauodd y chwarel am chwe wythnos — o ganol Ionar hyd fis Mawrth. Ar ôl dychwelyd roedd Mr Richard Jones (Nant) wedi'i apwyntio yn rheolwr ar farwolaeth Mr W. O. Jones.

Am ychydig amser ar ôl hyn roedd yn bosib cael ychydig o waith penwythnos oherwydd dyna'r unig amser y gellid codi'r rheilffyrdd a'u trwsio. Roedd yn waith caled iawn a gallai trwsio ac atgyfnerthu rhai rhannau o'r rheilffordd gymryd wythnos neu bythefnos weithau i'w cwblhau.

Yn 1950 dechreuais ar swydd newydd yn y chwarel — 'canlyn y wagan' — hynny yw, llwytho'r sbwriel yn y twll — yn fy achos i yn y Gilfach Ddu i ddechrau. Wedyn es i ar y graig efo Wil Roberts, Clochyd Nant yn Sinc Veronica. Gweithiais hefyd yn Mills, Braich, California, Hafod a Toffet. Gwelais ddamwain angeuol 1948-49 pan laddwyd Albert Pritchard. Disgynnodd o Sinc Pant Ceubren i Dwll Muriau. Roedd ei frawd Tom wedi bod yn gyfrifol am y saethu am 11 y bore. Pan aeth y gang allan am 11.10 ar ôl y corn fe safodd Albert yn rhy agos a llithrodd dros yr ymyl. Bu farw'n ddiweddarach ar ei ffordd i'r ysbyty.

Roedd gaeaf 1962-63 yr un mor galed â gaeaf 1946-47, a rhewodd y ddau lyn eto. Cauodd y chwarel y tro hwn am naw wythnos. Erbyn hynny roedd sefyllfa'r chwarel yn eitha difrifol.

Roedd y gyflog yn isel ac roedd yn anodd cael gafael ar y llechi gorau. Daeth y gwaith teils a'r gwaith brics i mewn. Ymhen ychydig cauwyd rhan uchaf y chwarel, a defnyddiwyd lorïau yn amlach i gario'r llechi. Daeth gwaith shifftiau i mewn gyda 3 gang o 4 yn gweithio'r llifiau diamwnt rownd y clod (8-4; 4-12, 12-8). Roeddwn i yn un o'r gangiau hyn hefo Peris Cwm, Moi Cnocin a Russel Cwm. Parhaodd hyn am ryw dair blynedd ac yna digwyddodd yr hyn a ddisgwyliem — aeth y chwarel yn fethdalwyr. 300 oedd ar ôl yn y chwarel erbyn hynny, a minnau'n un ohonynt.

Pan gauodd y chwarel yn 1969 aeth pawb i'w ffordd ei hun. Cefais i waith ar y Cyngor ac ar ôl tair blynedd roeddwn i wrthi'n adeiladu wal rhwng Caernarfon a Bethel. Yn sydyn gwaeddodd fy nghyfaill Jack Parry, 'Mae 'na drên yn dŵad o Gaernarfon!' Fel y nesâi tuag atom sylweddolais yn syth mai'r hen 'Fire Queen' oedd hi, yn cael ei chario ar drelar isel! Roedd hi ar ei thaith olaf o Chwarel Dinorwig i Gastell Penrhyn! Wel, sôn am weiddi a chwifio dwylo.

Yn 1977 bûm yn ffodus i gael dychwelyd i'r Chwarel i weithio i'r CEBG. Roeddwn i'n gyrru'r Land Rover a'r bws mini. Roedd yn anhygoel gweld y tu mewn i'r twnnel oedd yn cysylltu Sinc Wembley â Sinc Veronica. Roeddwn i wedi gweithio yno lawer gwaith yn trwsio'r rheilffordd. Bûm yn gweithio yno tan 1982 pan fu'n rhaid i mi ymddeol.

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
BANGOR
(01248)
354646**

THE PANNIER 50 STRYD FAWR LLANBERIS

Ffôn: 870301

DEWCH ATOM AM
FRECHDANAU A
BYRBRYDAU FFRES
A WNEIR AR EICH CAIS

Ar agor Mawrth — Sadwrn
9 a.m. - 4 p.m.

DERBYNNIR ARCHEBION
DROS Y FFÔN

CARTREF YMDDEOL DEINIOLLEN LODGE

Ffôn: (01286) 871073



AR FIN AGOR

HOLWCH AM FANYLION

**IEUAN
WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484**

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yn festri Bethel a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Parchg Gwynfor Williams am fod yn absennol. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Glenys Griffiths. Longyfarchwyd Mrs Lyl Jones ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddiweddar ac anfonwyd cyfarchion at yr aelodau sydd ddim yn dda eu hiechyd. Mr Glyn Jones, Pentraeth oedd y siaradwr gwadd a chafwyd sgwrs hynodd ddiddorol ganddo yn olrhain ei yrfa fel warden carchar. Mrs Annie Elizabeth Williams oedd yng ngofal y te a thalwyd y diolchiadau gan Mr Goronwy Jones. Bydd y trip eleni ddydd lau, Mehefin 17, gan ymweld ag Erddig, ger Wrecsam a galw yn Llanellwy ar y ffordd adref. Pawb sydd â diddordeb i roi gwybod i un o'r swyddogion mor fuan ag sy'n bosib. Mae croeso i rai sydd ddim yn aelodau i ymuno â'r trip am gost o £2.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr gwobrau mis Ebrill oedd — £20 Ann E. Williams, Y Ddol-wen (35); £10 Meinir Roberts, Cefn y Gwynt (167); £5 yr un i Elizabeth Watkins, Tan-y Lôn (131); Olga Davies, 10 Tan-y-cae (172); Idris Morris, Fachell (26); William Parry, 11 Tan-y-buarth (129); Heather Hughes, Coed Boly (5); Cheryl Williams, 2 Bryn Hyfryd (163); Jackie Williams, 1 Rhesdai Swyddfa'r Post (150); Llinos Williams, Yr Hafod (66).

MERCHED Y WAWR. Croesawodd Mrs Anne Elis, y llywydd, bawb i'r cyfarfod olaf ond un a gynhaliwyd nos Fercher, Mai 12, yn yr ysgol. Longyfarchodd gôr y gangen ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Merched y Wawr ym Methesda ar Ebrill 17. Edrychir ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Merched y Wawr yn Llandrindod ddydd Sadwrn, Mehefin 12.

Estyllt Maelor oedd gwraig wadd y noson a siaradodd yn ddifyr a diddorol ar y pwnc 'Merched yn Bennaf'. Diolchwyd iddi gan Mrs Gwyneth Jones. Darparwyd y te gan Mrs June Owen a Mrs Enid Williams. Enillwyd y raffl gan Miss Elizabeth Watkins.

Nos Fercher, Mehefin 9, bydd y gangen yn mynd am wibdaith — y bws yn cychwyn o Benrhos am 6.15 p.m. Arian i Mrs Margaret Williams (£12).

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, 18 Mai, cafwyd noson ddifyr iawn ar daith ddiregel wedi ei threfnu gan Mrs Maud Williams a Mrs Nerys Owen. Ar noson braf aeth y bws â ni i lawr i Gaernarfon ac yna trwy fwllch Llanberis a Nant Gwynant i Feddgelert lle mwynhawyd pryd blasus yng Ngwesty'r Saracens. Diolchodd Glenys Griffiths i Maud a Nerys am eu trefniadau ar ran Llinos Williams, y llywydd, a oedd yn methu bod yn bresennol. Bydd tymor nesaf y Gymdeithas yn dechrau ym mis Hydref.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Os oes rhywun yn dymuno rhoi tlws i'r eisteddfod eleni dylid cysylltu â ysgrifenyddes yr Eisteddfod, Rhian Hughes ar 670036.

YR YSGOL FEITHRIN. Mae ffurflenni cofrestru ar gyfer plant fydd yn 2½ oed yn ystod tymor 1999-2000 ar gael yn Y Caban ar hyn o bryd. Cynhelir disgo er budd yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd, nos Wener, 28 Mai am 6 o'r gloch i blant o dan 7 oed ac am 7 o'r gloch i'r plant hŷn.

CLWB CANT YSGOL BETHEL. Rhestrir isod enillwyr gwobrau Clwb Cant yr Ysgol am y cyfnod Tachwedd 1998 — Ebrill 1999.

Tachwedd: £12.50 R. Hefin Williams, £8 Iwan ac Einir Pritchard, £5 Rhian Hughes. Rhagfyr: £12.50 Eirlys Sharpe, £8 Gwyneth Speake, £5 Gwen Jams. Ionawr 1999: £12.50 Bessie Williams, £8 Pat Jones; £5 Glenda Owen. Chwefror: £12.50 Eleri Owen, £8 Lynn Lewis, £5 Ceris Williams. Mawrth: £12.50 Dilys Perez, £8 Nia Sharpe, £5 Iona Williams. Ebrill: £12.50 Nan Jones, £8 Aled Morris, £5 Gomer Roberts. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

GWYLIAU YN AWSTRALIA. Longyfarchiadau i Huw Jones, Bron Meillion ar ennill gwyliau i'r teulu yn Sydney, Awstralia yn yr hydref. Rwy'n siŵr bod edrych ymlaen garw am drip i'w gofio.

Y GYMANFA. Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Brynrefail brynhawn a nos Sul, 2 Mai. Arweinydd y gân oedd Mrs Mair Huws, Llanrug. Llywyddwyd cyfarfod y pnawn gan Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail a chyfarfod yr hwyr gan Mr Emyr Williams, Brynrefail. Plant Ysgol Sul Brynrefail fu'n gyfrifol am y gwasanaeth

dechreuol yng nghyfarfod y pnawn a Mr Richard Evans, Brynrefail yn arwain gwasanaeth yr hwyr.

Dyma'r rhai o'r Cysegr fu'n llwyddiannus yn yr arholiad llafar: Dan 4: Siôn Martin Hughes, Cadi Pritchard, Lowri Sharpe, Glesni Sharpe, Iwan Huw Harper, Gwawr Jones, Gwenno Roberts, Laura Jane Williams. Dan 5: Gerallt Jones, Manon Elwyn Hughes, Iwan Lloyd Jones, Aron Martin Hughes, Elin Owen, Bronwen Price, Aled Einion, Richard Caulcutt, Gruffudd John. Dan 6: Siân Catrin Jones, Dylan Huw Coles, Catrin Jones, Llio Grisial Hywel. Dan 7: Ella Catherine Christie, Sioned Brown, Angharad M. Price, Siôn Elwyn Hughes, Mari Elena, Danielle Cavanagh, Mari Wyn Pritchard, Enfys Mai Roberts. Dan 8: Eiliw Gwenllian, Ffion Medi Roberts, Hefin Owen, Iona Speake. Dan 9: Siôn Gareth Owen, Aled Gwilym Jones, Kelly Cavanagh. Cydadrodd dan 9 oed. Dan 11: Nia Glyn, Catrin Parry, Kaylee Jones. Dan 13: Ffion Williams. Dan 14: Ffion Owen, Iwan Morris. Oedolion: Mrs Edwina Morris, Mrs Nora Parry a Mrs Nancy Williams.

Dyma'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i swyddogion, aelodau ac athrawon Ysgol Sul Brynrefail am dderbyn y Gymanfa ac am eu gwaith caled yn ei gwneud yn un llwyddiannus. Diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth a gawsom gan y gynulleidfa.

LLONGYFARCHIADAU i Sioned Wyn Jones, 1 Bro Eglwys ar ei llwyddiant diweddar yn cyrraedd safon anrhydedd mewn arholiad theori piano.

DRAENOG



Roedd dau wedi picio i'r Festri i baratoi ar gyfer cyfarfodydd arbennig a dyna rhoi tro ar yr organ.

Toc daeth gŵr i mewn yn hamddenol gan eistedd yn y cefn.

'Roeddwn i'n meddwl wrth wrando y tu allan fod 'na gwarfod mawr 'ma.'

'Dyna pam ddaethoch chi'i mewn felly?'

'Naci, dŵad i'r un pwrpas â chi ma'n siŵr... ond... dim ond chi a fi sy 'ma! Rhyfadd, 'te! Lle ma pawb d'udwch?'

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Yng nghyfarfod mis Mai o'r Cyngor cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan Mr Brian V. Jones, cyd-gysylltydd cwmni MANWEB am y gwelliannau ynglŷn â chyflenwadau trydan sy'n cymryd lle o fewn ffiniau'r plwyf.

Mae'r llinellau trydan yn Neiniolen yn cael eu tan-ddaearu ac mae'r llinellau sydd ar y tir agored yn ardal Dinorwig a'r Fachwen yn cael eu cryfhau.

Eglurwyd mai adain cefn gwlad o'r Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd sy'n gyfrifol am osod polion ar nifer o lwybrau cyhoeddus y plwyf.

Cafwyd eglurhad gan dri chwmni olew ynglŷn â'r prisiau ychwanegol ar danwydd mewn ardaloedd gwledig. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Dafydd Wigley, AS, hefyd ynglŷn â'r mater.

Derbyniwyd gwahoddiad i aelodau'r Cyngor fynd i agoriad swyddogol ystafell newydd y Band yn Neiniolen ar 15 Mai.

Oherwydd bod dyddiad Etholiadau Cynghorau Cymuned ar 10 Mehefin, fe gynhelir y Cyfarfod Blyneddol eleni ar Fehefin 22 yn Neuadd Gymuned Penisarwaun.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

COLLED. Anfonwn ein cydymdeimlad i Janice, Arwel, Rhys, Ceri a Dafydd Llewelyn, Arwelfa yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn. Cofion hefyd at y teulu i gyd yn Nhalwrn, Llangefni.

'Pwy dach chi'n feddwl?'

'Wel, y bobol 'lecsiwn 'ma.'

A dyna lle roedd o — a'i gerdyn pleidleisio yn ei law — WYTHNOS yn rhy gynnar!

Roedd y creadur wedi gwneud y fath ymdrech trwy gerdded i lawr i'r pentref am iddo fethu cael trwydded i'w gar newydd y diwrnod cynt — pam tybed?

Onid DA FYDDAI iddo rhoi mwy o sylw i ddigwyddiadau pwysig o hyn ymlaen?

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blyneddod o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



LMF (4) gan Y GWALCH

Roedd yn rhyddhad i Norman pan ddaeth mwy o deithwyr ar y bws, ac mewn pentref gwledig, daeth criw sylweddol ond doedd neb yn chwannog i rannu ei sedd, ac ni fedrai lai na meddwl nad oedd hyn yn arwyddocaol.

Yn nes ymlaen daeth plismon i fyny — un o'r rhai trwm, blonnog rheiny a alwyd i ailafael mewn dyletswyddau o'u hymddeoliad gan fod y rhai ieuainc wedi eu hanfon i'r rhyfel.

Safodd hwn eto ar y step yn siarad â'r gyrrwr ac yna daeth yn ei flaen yn llafurus gyda'i fwgwd nwy a'i helm ddur yn crogi ar ei ysgwyddau ac eisteddodd hefo Norman, ond tawedog oedd o am dipyn nes gwneud sylw ar y ffordd roedd y rhyfel yn mynd, ond ni wnaeth Norman yr un cais i ddatblygu'r sgwrs.

Pan ddaethan i dref Maidstone, arhosodd y bws y tu alln i lidiardau ffatri ac ymadawodd y rhan fwyaf o'r teithwyr, ond ni ysgogodd yr heddw, a chyn i Norman benderfynu beth fyddai orau iddo'i wneud, roedd y cyfle wedi mynd heibio. Dyfarnodd bellach mai'r peth gorau iddo oedd aros lle roedd hyd nes y byddai'r cerbyd ar ben ei daith. Unwaith yno, cododd y plismon a dilynodd Norman ef allan, dim ond i ganfod fod y dyn yn disgwyl amdano ar waelod y grisiau, ac heb ragymadrodd gofynnodd am weld ei *identity card* nad oedd yn ei feddiant. Roedd ganddo ei *dog-tag* yn ei le, ond yr oedd wedi gofalu tynnu hwnnw oddi ar ei wddf a'i gadw'n ei boced rhag rhedeg i argyfwng.

Doedd dim dewis iddo wedyn ond cymryd wib heibio'r dyn gan wybod yn iawn nas gallai hwnnw redeg pum llach heb ddyheu. Doedd Norman ddim wedi bod yn *Victor Laudorum* yn ei ysgol am ddim. Roedd ym mhen y stryd mewn dim a rhuthrodd rownd y gongl i un arall gyfochrog. Roedd honno'n gulach ac ynddi lorri'n sefyll a oedd bron yn tagu'r lôn. Heb ymgynghori â chig a gwaed, neidiodd Norman iddi dros y cefn. O dan y gorchudd canfyddodd ei hun yng nghanol blychau'n llawn o ffrwythau a llysiau gerddi. Yn y cefn roedd sacheidiau o datws a hyrddiodd un neu ddwy oddi ar y ffordd cyn llechu y tu ôl iddynt, a hynny dim ond mewn pryd. Clywodd leisau benywaidd ac ar hynny neidiodd merch yng ngwisg Byddin y Tir i mewn i'r lorri a dechreuodd estyn rhai o'r blychau i

un arall oddi allan. Yn amlwg roeddent yn dosbarthu'r nwyddau yn y siopau.

Er rhyddhad i Norman aeth y ddwy wedyn i mewn i'r cab ac roedd y lorri'n symud, ond nid ymhell. Aeth y genethod drwy'r un gorchwyl wedyn a symudodd y lorri ddwywaith neu dair, ac yr oedd y llwyth yn lleihau pan ddechreuwyd dadlwytho'r sachau tatws. Gwelodd Norman mai dim ond mater o amser oedd new y byddai'n cael ei ddatgelu, ond nid felly y bu. Cyflymodd y lorri o'r diwedd a daliodd i fynd, ac aeth chwilyfrydd Norman yn drech na'i ofal. Edrychodd allan drwy'r cefn a sylweddolodd eu bod yn gadael Maidstone ac ofnodd am funud ei fod yn cael ei gludo i gyfeiriad hollol groes i'r un y dymunai fynd, ond pan sylwodd ar osgo'r haul gwelodd mai tua'r gogledd yr oedd eu llwybr.

Daethan i gefn gwlad o'r diwedd a safodd y lorri ar ochr y ffordd. Roedd Norman yn disgwyl i un o'r genethod ymddangos wedyn. Yn lle hynny clywodd hwy yn sgwrsio yn y cab, ac roeddent, mae'n amlwg, mewn tipyn o hwyl a phan glywodd un yn sôn am frechdanau salmon — pethau a oedd fel aur yr adeg honno — deallodd mai cael eu cinio cynnar yr oeddent.

Gadawodd hynny ef ar gygyng gyngor — p'r un ai ei goleuo hi wedyn, ynteu aros. Yn y diwedd penderfynodd fynd tra roedd yn ddihangol; doedd wybod i lle y byddai'r lorri'n mynd wedyn. A pe byddai'n cael ei ganfod byddai eglurhad a chelwyddau annifyr wedyn yn ei aros, a chael ei ddal o'r diwedd, achos ar wahân, go brin y byddai yn cael fawr o drugaredd gan y ddwy yma pe baent unwaith yn deall ei sefyllfa; y siawns oedd fod ganddynt wŷr neu gariadon yn rhywle yng nghanol y drin. Felly, aeth dros y caead a gollwng ei hun yn ysgafn i'r ffordd, ond nid cyn cipio rhyw jersi a adawyd ar led-ymyl yn y cefn.

I ffordd â fo yn dinfain ar flaenau ei draed oddi wrth y lorri gan weddio nad oedd y merched yn digwydd edrych yn y drychau cefn, ac ymhenn rhyw ganllath daeth at lidiart yn arwain i gae a oedd yn llawn o blanhigion rwdins ac yn cael ei amgylchynu â gwrych uchel. Aeth dros y giât a swatio ym môn y gwrych gan feddwl disgwyl nes y byddai'r lorri wedi mynd, ond mater hir-ymarhous oedd hynny gan fod y

genethod, mae'n siŵr, mewn sgwrs felys.

Yna'n sydyn clywodd sŵn cerbyd arall yn arafu wrth y lorri a lleisiau dynion yn uchel, fel mewn dadl, a chlywodd wedyn sŵn y lorri yn ymadael. Yna daeth y cerbyd arall — jip yn ôl ei golwg — at y giât, ac aros. Ynddo roedd dau blismon milwrol gyda chapiau cochion a daeth un allan o'r cerbyd a thros y giât.

Roedd Norman yn sicr erbyn hynny fod popeth ar ben arno, ond aeth y plismon at y gwrych ac ychwanegodd at gynnwys gwlyddaid hwnnw. Mewn dim roedd Norman wedi mynd ar ei liniau yng nghanol y rwdins yn chwynu yn ddiwyd. Doedd wahaniaeth am liwiau y capiau; yr un amcan oedd gan eu perchnogion i gyd, sef cadw trefn a hela ffoaduriaid.

Ni sylwodd y dyn arno, fodd bynnag, nes yr oedd ar fin mynd o'r cae. Yna gwaeddodd, *'You've got a good job there, mate. You won't be finished by Christmas!'*

Ddywedodd Norman ddim ond gwenu'n wirion. Roedd yn amlwg fod y dyn yn edrych arno fel *country soft*, ac roedd hynny'n ei foddio. Dechreuodd y cap coch wedyn dantro am y genethod pengaled yn blocio'r ffordd gyda'r lorri, ond bu'n rhaid iddo dorri ar ei bregeth. Daeth milwr ar foto-beic at y giât ac aeth yntau ato. Byr fu'r drafodaeth rhyngddynt. Rhuodd y moto-beic yn ei flaen ac ymhenn dim dilynwyd ef gan gryn ugain o loriau wedi eu llenwi â milwyr. Gwaeddodd rhai ryw wamalrwydd ar Norman yn y cae, fel y bydd criw felly ar eu ffordd i ansicr dynged. Gwyddai Norman mai ar eu ffordd i'r ymladd yn Ffrainc yr oeddent ac y byddai canran dda ohonynt yn aros yno bydru yn ei daear. Teimlodd rhyw don o gywilydd. Ar hynny diflannodd y capiau cochion ar eu holau.

Cododd Norman a cherddod gyda'r gwrych i ben draw'r cae. Oddi yno gwelai'r wlad yn ymestyn am filltiroedd. Doedd dim dewis ganddo ond symud o gae i gae yn ddirgelaid. Roedd hi'n ormod o ryfgy i fynd i'r ffordd, ac roedd yr arwyddion wedi eu dileu fodd bynnag. Yn y modd yma y treuliodd y rhan fwyaf o'r diwrnod hwnnw; yn cerdded a gorffwys. Roedd ar ei gythlwg. Daeth at goedlan a phenderfynodd aros yno a goddiweddwyd ef gan y nos.

Cafodd gyfle yno i fyfyrto ar ei safle. Y ddihanza o Sheppey erbyn

gweld oedd y rhan hawsaf o'r busnes yma. Doedd dim o'i flaen bellach ond cael ei hela o un man i'r llall; heb fwyd na lloches; heb hyd yn oed gyfarpar i ymgeleddu ei hun. Un gobaith oedd ganddo yn ei feddwl ar y pryd, a hynny oedd cyrraedd Llundain. Roedd y fan honno wedi mynd yn rhyw fath o Wlad Canaan iddo — yr un fath â Dick Wittington gynt. Penderfynodd o'r diwedd, yn y plygain, nad oedd dim amdani ond mentro allan i'r ffordd.

Wedi iddo fynd dros y clawdd a cherdded plwc, clywodd sŵn cerbyd trwm yn dod o'i ôl. Roedd llewyrch gwan yn dod allan o'r lampau ar ei ben blaen drwy'r mygydau, a chododd Norman ei law. Pan arhosodd y cerbyd gyferbyn ag ef gwelodd Norman mai peiriant diffoddwyr tân ydoedd. Yn y llwydwawr ni welai ond un dyn ar ei gyfyl, a gwaeddodd hwnnw arno, dros ru y peiriant, i ddod i fyny.

Wrth ddringo'r step sylwodd Norman fod yna rywbeth amheuthun yn perthyn iddi. Doedd yna ddim cab ond cysgodlen gwynt, a thu ôl i'r gyrrwr roedd yna amrywiaeth o offer a chotiau trymion yn crogi. Yn y tu ôl roedd yna danc mawr pres.

Ailgychwynnodd y gyrrwr heb ddweud 'chwaneg, ond ymhenn ysbaidd gofynnodd i lle roedd Norman yn mynd er na ddangosodd unrhyw chwilyfrydded am ei gyflwr. Yn hytrach, y llanc a ddechreuodd ei holi ef. Nid oedd yn hawdd cynnal sgwrs gan fod y peiriant yn rhuo cymaint. Deallodd yn y diwedd, gya peth llawenydd, fod y dyn ei hun yn mynd i Lundain.

'Mi ges fy anfon i Ramsgate i nôl hon,' meddai. 'Maen nhw'n methu cael digon ohonyn nhw i fyny 'na, a dydw i ddim ond wedi cael helynt hefo'r diawl ar hyd y ffordd; yn berwi bob yn ail filltir ac mi rydwi wedi tywallt galwynni o ddŵr iddi hi. Mewn amgueddfa y dylai'r cythral fod. Faswn i ddim yn synnu mai adag y Tân Mawr y bu hon yn Llundain ddiwetha.'

Yn ystod y sgwrs deallodd Norman mai nid y *doodle* oedd yn gwneud cymaint o alanas bellach. Dywedodd y dyn fod yna rai diweddarach ar ffurf rocedau'r V2 yn cael eu hanfon erbyn hyn.

'Maen nhw hyd yn oed o gyrraedd y *fighters*,' meddai. 'Mi fydd yn rhaid dod o hyd i'r lle maen nhw'n cychwyn, neu mi fydd hi'n ddrwg arnon ni.'

Yn y man, dechreuodd ager godi o ben blaen y cerbyd.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
 Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
 Cylchgronau • Papurau Newydd
 Cardiau Penblwydd • Wyau
 Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
 A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

'Mae'r sglyfath yn cael hwrdd ddrwg eto,' meddai'r dyn. 'Mi fydd yn rhaid iddi gael saib. Mi stopian ni o flaen y tai 'ma. Mi gei ditha fynd i chwilio am joch o ddŵr,' ac estynnodd dŵn i Norman. Yna ychwanegodd. 'Does 'na ddim byd yn gynnes ynddi hi. Tara un o'r cotia 'ma amdanat cyn mynd.

Roedd Norman yn falch o wneud. Cododd coler y gôt ac roedd o'n ei themlo'n cau yn glyd amdano ac yn adfer ei wres. Yn y modd hwnnw yr aeth o i fyny'r llwybr a churo ar ddrws un o'r tai. Roedd hi braidd yn fore i neb fod uwchben ei draed, ond ar ôl ail ddyrnu daeth dyn yn ei drôns i'r drws, a doedd yna ddim agwedd croesawgar o gwbl arno. Pan ofynnodd Norman am ddŵr cyferiodd ef at bwmp yng ngwaelod yr ardd gan ychwanegu:

'Fasat ti ddim wedi medru ffendio afon yr adag yma o'r bora yn lle dod i styrbio pobol?'

Ar hynny agorwyd ffenest y llofft a gwthiodd rhyw hen siortan, drwchus yn ei choban, ddarn helaeth o'i phen blaen drwyddi.

'Be ydi'r matar, Fred?' gofynnodd. Ond gwaeddodd hwnnw arni.

'Dos yn ôl i dy wely i godi chwanag o helynt,' a diflannodd i fyny'r grisiau yn ei ôl ati am ddim a wyddai Norman i wneud yn siŵr ei bod hi'n ufuddhau.

Bu'n rhaid iddo wneud dwy siwrne i'r pwmp a thra roedd y peiriant yn oeri, dechreuodd yr holi.

'Dwyt ti ddim yn y fyddin, felly?' gofynnodd y dyn.

'Y . . . nag'dw rŵan,' meddai Norman a'i holl ddyfeisgarwch ar waith. 'Mi rydwi yn reserved — ar y trawlers.'

'O, taw di. Hen waith digon peryg. Mi elli di rwydo mein.'

'Reit hawdd,' meddai Norman wedi adfer peth o'i hyder. 'Dover ydi ein porthladd ni. Mi rydan ni i mewn rŵan am dipyn — yn trwsio'r gêr. Mae o'n gyfla di-fai i ddod i weld fy nheulu yn Llundain.

'Pwy sy gen ti, felly?' Roedd y dyn am fynnu manylu.

'Mam a chwaer. Mae hi ar y munitions. Ac roedd y dyn eisiau gwybod eu hunion leoliad.

'Lambeth,' meddai Norman heb oedi.

'Mi rwyd ti'n lwcus. Mi rydw i'n mynd drwy'r fan honno.'

Yn ystod y sgwrs roedd y gyrrwr wedi agor ei dŵn bwyd ac wrth weld Norman yn ei lygadu, fel arth hefo pot mêl, daliodd y tŵn iddo helpu ei hun.

'Does gen i fawr o daro am y

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DIOLCH. Dymuna Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau oll am y rhoddion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd; ac i'r rhai a ymwelodd ag ef ac ar ôl iddo ddod gartref. Diolch hefyd i staff Ward Aran a Ward Conwy am eu gofal diflino a'r caredigrwydd. Llauer o ddiolch i feddygon Llanberis a'r gweinyddesau am eu gofal.

CYMANFA'R M.C. Cynhaliwyd y Gymanfa ym Mrynrefail ar 2 Mai. Bu plant Capel M.C. Dinorwig yn llwyddiannus iawn yn yr Arholiad Llafar — Dan 4: Mared Meleri Morris. Dan 6: Elin Ann Morris a Gwenno Medi Morris. Dan 8: Rhian Wyn

brechdana menyn *peanuts* 'ma,' meddai.

Ond doedd Norman yn malio fawr am ansawdd y menyn. Cythrododd iddynt ac yna tywalltodd y dyn gwpanaid o de o fflasg, ac roedd ysbrydoedd yr hogyn wedi eu dyrchafu'n arw.

Cafodd 'yr hen sglyfath' hwrdd ddrwg wedyn gerllaw Bromley, ond yn ffodus roedd yn y fan honno griw o weithwyr yn trwsio twll bom yn y ffordd. Piciodd Norman atynt yn hŷ hefo'i dŵn dŵr a chafodd gyflenwad ganddynt heb unrhyw gwestiwn na chwilfrydedd. Tra oeddent yn disgwyl i'r peiriant oeri drachefn, daeth gweledigaeth i Norman: doedd yna neb wedi ei holi na dangos unrhyw chwilfrydedd am ei gyflwr ers iddo deithio fel hyn. Wel, wrth gwrs, beth oedd yn gwneud y gwahaniaeth mawr oedd y gôt dynion tân. Roedd hoono'n drwydded rhy werthfawr i'w cholli.

Pan ddaethant yn y diwedd at gyrion Lambeth, gwaeddodd Norman ar y gyrrwr, 'This is my drop,' a neidiodd i lawr heb oedi pan arhosodd y peiriant. Ond gwaeddodd y dyn arno:

'Wyt ti'n bwriadu mynd ymhell efo'r gôt 'na?'

'Cyn belled ag y medra i,' meddai Norman gan gymryd wib arall.

'Dim os medraf i dy rwystro di,' meddai'r dyn a neidiodd i lwr yn heini a datblygodd rās redeg rhwng y ddau, a buan y darganfu Norman mai nid yng nghylwr y plismon blonennog roedd ei ymlidiwr o bell ffordd.

(I'w barhau)

Morris. Dan 9: Sioned Mair Phillips. Dan 11: Ceri Bryn Morris a Donna Elizabeth Phillips. Parti cydadrodd: Parti Gwenno. Cafodd pob un ohoknynt farciau llawn a chanmoliaeth uchel am eu gwaith. Llonyfarchiadau blantos.

CYMANFA SARDIS. Cynhaliwyd Cymanfa'r Bedyddwyr yn Llanfair-fechan ar 2 Mai. Derbyniodd y plant canlynol dystysgrif am eu gwaith yn yr Ysgol Sul, Gwilym, Griffith, Megan, Manon a Bleddyn. Da iawn chwi, daliwch ati.

PRIODAS RHUDDER. Dymuna Mr a Mrs John Peris Roberts, 11 Maes Eilian ddiolch o galon am y cardiau, arian a'r anrhegion a dderbyniasant ar ddathlu eu priodas rhuddem ar 28 Mawrth.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Richard Owen Williams, 61 Pentre Helen (gynt o Maes Eilian). Er i Richard a Dilys newid ardal roeddent yn dal yn ffyddlon i weithgareddau yr ardal yma. Bydd colled fawr ar ôl Richard. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i Dilys yn ei phrofedigaeth a'i thralod.

EISTEDDFOD Y PENTREF. Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar 27 Ebrill yn y Ganolfan. Y beirniaid oedd — Llenyddiaith: Mr Eurig Wyn, Groeslon; Cerdd: Mrs Mair Huws, Llanrug; Adrodd: Mrs Meira Turner, Waunfawr; Coginio ac Arlunio: Miss Brigid Hughes, Deiniolen. Dyma'r canlyniadau —

Unawd dan 5: 1, Caryl a Mared; 2, Elen a Dewi; 3, Nia. Unawd dan 7: 1, Gwenno ac Anest; 2, Megan; 3, Einion. Unawd dan 12: 1, Lois; 2, Rhian; 3, Sioned a Donna. Unawd piano dan 14: 1, Lois; 2, Emma. Unawd cornet dan 18: 1, Rhian; 2, Emma. Unawd recorder dan 18: 1, Sioned; 2, Donna. Triawd: 1, Triawd Minffordd (Rhian Elin a Mared). Unawd dros 50: Ifan Bryn Roberts. Emyd dros 50: Ifan Bryn Roberts. Adrodd dan 5: 1, Mared; 2, Elen; 3, Nia. Adrodd dan 7: 1, Gwenno; 2, Bleddyn. Adrodd dan 9: 1, Manon; Adrodd dan 12: 1, Donna; 2, Rhian; 3, Sioned. Arlunio — dan 5: 1, Mared; 2, Elen; Dan 9: 1, Elin; 2, Gwenno; 3, Einion; Dan 12: 1, Rhian; 2, Ceri; 3, Donna. Coginio — dan 12: 1, Donna a Sioned. Dynion: 1, Ifor Phillips. Merched: 1, Heulwen Morris; 2, Megan Morris. Llenyddiaeth — Limgrig: 1, Alice

Griffith a Nellie Wyn Jones; 2, Nelli Wyn Jones; 3, Megan Morris a Hannah Mary Roberts. Llinell goll: 1, Nellie Wyn Jones; 2, Alice Griffith; 3, Megan Morris a Hannah Mary Roberts. Brawddeg o'r gair 'Penisarwaun': 1, Alice Griffith; 2, Nellie Wyn Jones; 3, Hannah Mary Roberts. Asio emyn: 1, Nellie Wyn Jones a Hannah Mary Roberts. Parodi: 1, Hannah Mary Roberts; 2, Alice Griffith a Nellie Wyn Jones.

Talwyd y diolchiadau gan Miss Marian Jones. Diolchwyd am rodd anrhydeddus y llywydd, Mr Irfon Thomas, Llanrug (Graigle gynt) ac hefyd am y rhoddion hael eraill a dderbyniwyd tuag at yr eisteddfod. COFIO'R DEUDDEG. Cafodd aelodau y Gymdeithas Lenyddol fraslun o hanes trasiedi fawr Gorffennaf 1af 1899 pan ddaeth y Parchg Idris Thomas atom i sôn am fodd i'r deuddeg ym Mhwlheli. Boddwyd pump o aelwyd Tynyfawnog (y teulu cyfan) dau frawd o Tanybwlich, pedwar o Tyddewi ac un hogyn o Bron Elidir. Gwahoddir pawb i Eglwys Llandinorwig nos 1af, Gorffennaf 1af, am 7 p.m. i ymuno mewn gwasanaeth i gofio'r anffodusion. Caiff llyfr Idris *Pêl Goch ar y Dŵr* ei lansio yn y gwasanaeth a bydd ar werth i bawb yn yr Eglwys ar ôl y gwasanaeth. Dyma un o'r trasiediau mwyaf erioed yn Ninorwig, felly, dowch yn llu.

Llonyfarwch Idris ar ei anrhydeddu yn Ganon yr Eglwys Gadeiriol. Mae ei fam, Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir wrth ei bodd.

DRAENOG



Mi gewch chi liwio'ch gwallt bob lliw dan haul y dyddiau yma — coch, glas, piws, gwyrdd, oren. Ond pam fu'n rhaid i ddyn gwallt du liwio'i wallt yn ddu ddwywaith yn yr un wythnos? Wedi bod yn peintio oedd o ddechrau'r wythnos a chael paent gwyn dros ei wallt i gyd. Yr unig ateb oedd lliwio'r gwallt. Ond cyn pen dim roedd o wedi cael damwain efo diffoddwr tân ac wedi tywallt yr ewyn gwyn drosto i gyd. Doedd dim amdani ond lliwio'r gwallt yr eildro. 'Ia son, bai Lis oedd o mae'n debyg.

CEIR ADAM



HURIO PREIFAT
YN UNIG


LLEOL NEU HIRBELL

LLANBERIS
871539

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Ysgol Coed y Cae, Llanelli v Ysgol Brynrefail



Fe chwaraewyd rownd gyn-derfynol Cwpan Cymru rhwng Brynrefail ac Ysgol Coed y Cae, Llanelli. Er i'r ddau dim chwarae'n dda colli fu hanes Brynrefail yn y diwedd.

Erbyn hanner amser roedd Coed y Cae ddwy gôl ar y blaen ar ôl cic o'r smotyn a gôl nad oedd neb yn ei disgwyl. Ni ddechreuodd pethau'n rhy dda yn yr ail hanner chwaith, fe sgoriodd Coed y Cae gôl flêr. Bu cryn amser cyn i Brynrefail gael gôl

— Marcus Orlik yn rhwydo ar ôl i Owain Morris gymryd y gic gosb. Aeth pethau o ddrwg i waeth wrth i Goed Cae sgorio eto ac er i Keith Williams ddod ymlaen fel eilydd a sgorio gôl o ochr y cwrt cosbi ac i Coed y Cae fethu cic o'r smotyn, roedd y gêm wedi'i cholli.

Diolch am bob cefnogaeth er ein bod wedi colli, mae yna wastad 'flwyddyn nesa'!

DAFYDD PRITCHARD

Cwpan yr Urdd o dan 13 oed



Wedi taith flinedig i Aberystwyth aeth y bechgyn ati'n llawn brwdfrydedd ac yn fuan iawn roeddent 1-0 ar y blaen. Ond, ar ôl sgorio aeth yr amddiffyn yn rhemp ac yn anffodus gogorwyd tiar gôl mewn cyn lleied o funudau.

Fodd bynnag daeth y bechgyn yn ôl a brwydro'n galed ond torrodd y tîm o Lanelli yn sydyn a sgorio'r

bedwaredd yn erbyn rhediad y chwarae.

Felly yr aeth y gêm wedi hynny — Brynrefail yn ymosod yn galed an rhoi gôl i fwrdd wrth i'r gwrthwynebwyr wrthymosod.

Sgôr derfynol 6-2 ond nid yn haeddiannol — buasai 3-2 wedi bod yn fwy teg.

P.H.



Carwyn Jones a Dafydd Evans o Lanberis gyda rheolwr tîm pêl-droed Cymru, Bobby Gould, ar gae'r Morfa, Conwy. Roedd y ddau yn nhîm dan 11 Ysgol Bêl-droed y Gogledd-orllewin oedd yn chwarae yn erbyn tîm y Gogledd-ddwyrain, ddydd Sadwrn, Ebrill 17, cyn gêm ieuencid dan 18 y gogledd yn erbyn yr Alban.

Y CLWB YN ATEB Y GALW

(Parhad o'r dudalen gefn)

gaiff y sylw. Dyma gêm hynod boblogaidd ymysg disgyblion yn eu harddegau. Gêm gyflym, llawn sgiliau a ffitrwydd. Gêm sy'n apelio i'r sawl sydd ag elfen gystadleuol yn eu gwneuthuriad. I gloi'r wythnos down at gwsr poblogaidd gymnasteg ar bawn Gwener o 4-7 gyda thri sesiwn awr o hyd, i gymryd ystyriaeth y gwahanol alluoedd. Digon o ddewis, felly, a gobeithio y caiff y 'Clwb' yma ymateb teilwng am y weledigaeth o gyflwyno cyfleoedd i blant yr ardal.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

ADRODDIAD PENTYMOR

(Parhad o'r dudalen gefn)

Cynghrair Caernarfon. Yno mae ail dimau Deiniolen, Llanrug a Llanberis, ynghyd â'r Waun. Yr hogia lleol yw'r carfannau hyn. Ai dyma'r chwaraewyr fydd yn bwydo'r timau cyntaf ynteu ydi'r timau cyntaf yn mynd i fod yn ddibynnol ar chwaraewyr o'r tu allan i'r ardal? Teimlaf fod angen ateb y cwestiwn yma. Onid diddorol sylwi wrth i safon perfformiadau ail dimau ein clybiau lleol yn dirywio, fod twf ym mhoblogrwydd timau cynghreiriau Sul. Tybed a yw llythyr Elfed Williams a ddyfynnwyd y mis diwethaf wedi taro yn agos iawn i'r asgwrn, ac nid oherwydd perfformiadau'r dyfarnwyr yn unig.

Roedd ambell chwaraewr o fro'r Eco yn nhîm Canolfan Ieuencid Caernarfon a gipiodd Tlws Ieuencid y Gogledd. Mae sôn am gyfodi cynghrair ieuencid o dan 18 yng ngogledd-orllewin Cymru. Oni ddaeth hi'n amser i chwalu'r muriau pentrefol a chael tîm fydd yn cynrychioli'r fro — Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Waunfawr yn y gynghrair yma.



CREFU AM GRAWIAU!

Mae Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis yn chwilio am grawiau neu slabiau o lechfaen - o leiaf 2" o drwch - i'w defnyddio mewn nifer o lefydd o gwmpas y safle.

Mae llechi o unrhyw ardal yng ngogledd Gwynedd yn addas.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth, ffoniwch Haydn Lewis os gwelwch yn dda

AMGUEDDFA LECHI CYMRU
PARC GWLEDIG PADARN, LLANBERIS. LL55 4TY

☎ 01286 870630

**AM BRYDAU
TSINEAIDD BLASUS
I'W BWYTA GARTREF**




**LAKESIDE
CHINESE TAKEAWAY**

**47 STRYD FAWR
LLANBERIS**

Ffôn: 871840

CROESAIR MEHEFIN



ENW.....
CYFEIRIAD.....
.....CÔD POST.....

Rwy'n siŵr fod y rhan fwyaf ohonoch wedi rhagweld
thema croesair y mis yma. Y niferoedd sy'n bwysig.

- AR DRAWS
- 1. 28 (5)
 - 4. 9 (10)
 - 9. Lle i gadw nwyddau ym Mheriw a Rwsia (5)
 - 10. Diawl meddw ydi'r dyn yma (5)
 - 11. Rhan o stumog iâr y tagu (4)
 - 12. Gorfoledd mewn tabledi anghyfreithiol (7)
 - 15. Rhygnu yn y dannedd (7)
 - 17. Gweler 7 i lawr.
 - 18. Draenen (6)
 - 22. Darn o dir o gwmpas y tŷ (6)
 - 24. Cynhyrfaiau o ddau dric a gynhyrfwyd (9)
 - 25. Marwaidd (7)
 - 26. Cymdeithas o artistiaid neu ysgolheigion (7)
 - 31. Rhai chwyth yw 34 ar draws (4)
 - 32, 35 17 (5,5)
 - 33. Peth prydferth mewn gardd unigryw (5)
 - 34. Rhan o'r gerddorfa sydd angen digon o bwff (10)
 - 35. Gweler 32 ar draws.

ATEBION CROESAIR MAI

Derbyniais ugain o atebion cywir i groesair mis Mai, ac wyth arall oedd, yn anffodus, wedi eu twyllo gan gamgymeriad y cysodwr neu'r gosodwr. Prun bynnag oedd ar fai, rhoddwyd y cliw i 31 ar draws fel 32 ar draws.

Mae'r rhai a welodd drwy'r camgymeriad wedi sylwi bod nifer y llythrennau yn y ddau ateb yn wahanol ac wedi sylweddoli mai EPIL oedd 'peil blêr o ddisgynyddion', ac mai yn 32 ar draws oedd angen yr enwau Beiblaidd (lleol). Roedd SARON neu SEION yr un mor dderbyniol.

N. Hughes, Cwm-y-glo; Eluned Jones, Pencaenewydd; Olwen Owen, Llanberis; Jennie Williams, Clynnog; Mabel Parry, Porthmadog; G. Gill, Bangor; Sulwen Roberts, Rhosgadfan; Dilys A. Pritchard-

- I LAWR
- 1. Nid yr aswy (3,2)
 - 2. Gall roi'r fflw i chi neu lanhau cof y cyfrifiadur (5)
 - 3. Gwlad fwy'r byd (5)
 - 4. Bachau i gau'r drws (8)
 - 5. Tâl a geir am golled neu niwed (7)
 - 6. Enw llawn gŵr Ffion (7)
 - 7, 17 6 (12,9)
 - 8. Cludiant i'r Deri dychmygol (4)
 - 13. Trwsiwyr esgidiau (4)
 - 14. Llafar (12)
 - 16. 6 i lawr, er enghraifft (3)
 - 19. Yr un a daw o'r Wyddfa yw hwn (3)
 - 20. Banciau (8)
 - 21. Cân gysegredig (4)
 - 23. Math o flows wlanen a wisgir gan ferch (7)
 - 24. O'r un farn (7)
 - 27. Llostlydan (5)
 - 28. Ansoddair meddiannol yn ymwneud â'r hyn sy'n perthyn i ni (5)
 - 29. Cynhyrchion electroleiddiad mewn anrhegion aur (5)
 - 30. Adran o'r chwarel (4)

Jones, Abererch; Mair Evans, Caernarfon; E. E. Jones, Rhos-hirwaun; Catherine A. Jones, Rhiw; Chris Roberts, Llanrug; Jean Hughes Jones, Rhiw; M. P. Jones, Clynnog; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Mary Davies, Waunfawr; Moreen Lennon, Llanberis; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Nan Owen, Llanberis; a Hywel Griffith, Awstralia oedd yr ugain a atebodd yn gywir ac enw Caerthine A. Jones, Tŷ Capel, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli ddaeth allan o'r het.

Gobeithio nad oes/na fydd camgymeriad yng nghroesair mis Mehefin, gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE erbyn Mehefin 21, os gwelwch yn dda.

CALENDR MIS MEHEFIN

- 2. Mer. **LLANBERIS**: Y Gyfeillach yn Jerusalem am 2 o'r gloch gyda'r Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.
- 3. Iau **WAUNFAWR**: Sefydliad y Merched yn Festri Croesywaun am 2
- 5. Sad. **PENISARWAUN**: Parti Hetiau Gwallgo o 2 hyd 4 yn Neuadd yr Ysgol Gymuned.
- 7. Llyn **DEINIOLEN**: Cyfeillion Llandinorwig — Cyfarfod Blynnyddol.
- 8. Maw. **LLANRUG**: Trip dirgel Merched y Wawr.
CAERNARFON: Ymweliad Anne Hatfield, Seland Newydd.
- 9. Mer. **BETHEL**: Gwibdaith Merched y Wawr.
- 10. Iau **DEINIOLEN**: Trip Clwb Elidir i Llandrillo-yn-Rhos a Llandudno.
- 11. Gwe. **CAERNARFON**: Bore Coffi yn Festri Ebeneser o dan nawdd Pwyllgor yr Anabl, Merched y Wawr. **CAERNARFON**: Noson agored yn y Ganolfan Iacháu, 5 Rhes Segontium, am 7 o'r gloch.
- 13. Sul **DEINIOLEN**: Oedfa am 5 o'r gloch yn Ebeneser i ddathlu 175 mlwyddiant y Capel. Croeso i bawb.
- 15. Maw. **YR ARDAL**: Cyfarfod Blynnyddol *Eco'r Wyddfa* yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, am 7.30 o'r gloch. Dewch yn llw.
- 17. Iau **BETHEL**: Trip Clwb Bro Bethel i Erddig a Llanelwy.
DEINIOLEN: Trip y Chwirydd i Nant Gwrtheyrn.
- 22. Maw. **PENISARWAUN**: Cyfarfod Blynnyddol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn yr Ysgol am 7 o'r gloch.
- 24. Iau **WAUNFAWR**: Trip a swper Merched y Wawr.
- 27. Sul **YR ARDAL**: Y Gymdeithas Feiblaidd. Cyfarfod y pnawn am 2 yn Ebeneser, Deiniolen; a'r hwyr am 6 yn Libanus, Clwt-y-bont.
- 28 Mehefin - Gorffennaf 10. **LLANRUG**: Casgliad o dŷ i dŷ at Ymchwil y Galon.

RHAGHYSBYSIAD

- 1. Gorffennaf. **DEINIOLEN**: Cyfarfod yn Eglwys Llandinorwig i goffáu'r rhai a gollwyd ym Mhwllheli ganrif yn ôl.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

LONDON GARAGE

FIAT CWM-Y-GLO FIAT

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT



GORSAF PRAWF MOT
POB MÊC — CEIR A FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO

CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD
GALWCH MEL (Roberts) ar (01286) 870234
neu Ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:
Llun - Gwener: 8.30 a.m. - 5 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. - 12.00



RHODDION

£10: Er cof am Mrs Annie Thomas, 4 Bro Deiniol, Deiniolen. Mrs Eileen Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug. Olive a Dai Owen, Ceulan, Llanrug, er cof am Mrs Alice

Roberts. Er cof am Mrs Mary Agnes Owen, Gwynant, 2 Ffordd Capel Coch, Llanberis, gan ei theulu.

£7: Mrs a Miss H. Munro, Cynan, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

£5: Y Cynghorydd Trefor Edwards, Llanberis. Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog, Brynrefail. Gwyn a Mai Davies, Bro Dawel, Llanrug. Mr a Mrs John Peris Roberts, Dinorwig.

£4: Selwyn Jones, 4 Bryn Moelyn, Llanrug.

£3: Mrs Mairwen Baylis, Anfield, Coed y Ddôl, Llanberis. Mrs Nansi Jones, 20 Hafan Elan, Llanrug.

£2: Di-enw, Waunfawr.



Cefnogwch ein
Hysbysebwy

CHWARAEON

Y CLWB SY'N ATEB Y GALW

Soniais eisoes yn y colofnau hyn fel y mae sbectrw m chwaraeon wedi gymestyn yn yr ardal. Gwelsom gynnydd sylweddol mewn perfformiadau yn ymwneud â champau'r unigolyn — athletau, nofio, dringo, hwylio, ac yn y blaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad a fu gan awdurdodau lleol mewn adnoddau yn ddiweddar. Bu ymgyrch gref gan y Cyngor Chwaraeon i gynyddu nifer yr hyfforddwyr trwyddedig. Mae Cymdeithas Chwaraeon Arfon yn gwneud gwaith gwyb yn hybu, datblygu a chefnogi'r campau yn lleol. Ond beth am y gemau tîm? Ydi safon pêl-droed yr ardal wedi gwella? Ydi rygbi lleol wedi gwneud camau ymlaen? Nid oes tîm criced yn yr ardal o Bwllheli i Fangor (ar wahân i ail dîm Fron Dinas). Ac yn awr mae'r Llywodraeth wedi ymyrryd unwaith eto yn natblygiad chwaraeon. Eu bwriad yw dileu gemau tîm i ddisgyblion dros 14 oed yn ein hysgolion. Maent yn dyfynnu ffigyrau yn dangos fod disgybliokn yn colli diddordeb mewn agweddau o gemau 'torfol' yn eu harddegau. Bwriad y Llywodraeth yw sianelu'r amser at y campau unigol fel gymnasteg a chadw'n heini. Eisoes mae llawer yn poeni am ddylanwad hyn yn y pen draw ar ein timau cenedlaethol. Mae nifer y gemau ysgol wedi dirywio yn syfrdanol. Peth anodd yw cael caniatâd i ryddhau athro i gymryd timau rhanbarthol neu sirol erbyn hyn. Yn sicr, yn y blynyddoedd diwethaf gwelsom y gwaith hyfforddi yn symud i raddau helaeth o'r ysgolion i'r clybiau lleol. Trist yw cofnodi — yn enwedig ym myd criced — fod y clybiau sy'n amharod i hyfforddi yn diflannu. Yn y pymtheg mlynedd ddiwethaf mae wyth clwb wedi darfod ar Ynys Môn yn unig. I geisio arafu'r dirywiad mae cynghrair i dimau — 11 a — 13 wedi eu sefydlu yn ardal Eryri (Môn, Arfon, Conwy). Yr elfen drist yw mai dim ond dau dîm sydd yn Arfon gyfan — Bangor a Bethesda. Y mae rhan helaeth o'r rhanbarth — lle mae'r galw gan ieuencid — heb unrhyw fan ffocws i ddenu a datblygu.

Ond nid yw'r darlun yn ddu i gyd! Unwaith eto eleni mae cynllun Clwb 'Refail yn mynd rhagddo yn nalgylch Ysgol Brynrefail. Cynigir ystod eang o gyfleoedd rhwng nos Lun a nos Wener, rhwng 4 a 6 p.m. am gost o £1 yr awr (rhesymol iawn!) gellir derbyn hyfforddiant mewn cyrsiau dros 7 sesiwn. Eisoes mae dwy sesiwn wedi eu cynnal. Noson criced yw nos Lun i oedran cynradd. Rhwng 5 a 6 o'r gloch mae 10 wedi cofrestru eleni. Mae'r safon yn foddhaol. Dyma'r cam cyntaf i nifer o'r plant hyn. Mae fy llygaid i ar agor yn amlwg ac eisoes cafodd au o'r chwaraewyr wahoddiad i ymuno yn rhwyd i ieuencid Clwb Bangor. Noson y rygbi yw nos Fawrth i fechgyn Bl. 9 a 10. O gofio'r egin gref a blannwyd yn y tair blynedd ddiwethaf gan nifer o chwaraewyr ysgolion cynradd y dalgylch, dyma gyfle i gryfhau'r twf. (Cawsom sawl adroddiad am dimau rygbi Ysgol

Brynrefail yn yr Eco.) Pêl-droed cymysg i'r adran cynradd Bl. 2-6 sy'n hawlio nos Fawrth o 5.30 i 6.30 o'r gloch, ac o edrych ar y gwahaniaeth syfrdanol rhwng safonau timau cyntaf a 'reserves' ein timau lleol, mae angen cryn grwsad yn yr ardal. Un o'r gemau newydd gaiff gyfle ar nos Fercher, sef Hoci Stryd. Mae'r cwrs yma'n agored i ddysgyblion — bechgyn a merched — o flynyddoedd 6 i 9. I chwarae'r gêm yma rhaid cael esgidiau sgelfrio (roller boots) a ffyn eich unain, os yn bosibl. Mae traddodiad cryf o hoci confensiynol yn yr ysgol, felly a welwn ni sefydlu clwb Hoci Stryd yn yr ardal yn y dyfodol tybed?

Ar nos Iau, rhwng 4 a 6 o'r gloch, pêl-fasged i ddisgyblion uwchradd

(Parhad ar dudalen 22)



TLWS YR ECO (Cynradd) 1999

Oes, mae blwyddyn arall wedi hedfan heibio a daeth yn amser paratoi at y 'noson fawr'. Teimlaf bod y gystadleuaeth yma'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn a'r safon a'r mwynhad yn gwella. Bu arbrawf y llynedd o gynnal cystadleuaeth pêl-rwyd i'r merched yn llwyddiannus iawn. Ymlaen, felly, â'r trefniadau am eleni. Ar faes Ysgol Gynradd Llanrug y bydd y croeso eto eleni — diolch i reolwyr, prifathro a staff yr ysgol. Y dyddiad pwysig yw **NOS IAU, MEHEFIN 24**.

Bydd y ddwy gystadleuaeth — pêl-droed a phêl-rwyd — yn cydreddeg. Cynhelig pêl-droed ar y cae chwarae a phêl-rwyd ar y ddau gwrth ar fuarth yr ysgol. Yn y timau pêl-droed gall y timau fod yn gymysg, ond rhaid cadw O FEWN YR OEDRAN PRIODOL.

Dyma'r manylion ar gyfer y ddwy gystadleuaeth:

PÊL-DROED: dau oedran — Bl. 3/4; Bl. 5/6; 8 bob ochr, a 2 eilydd (carfan o 10 aelod).

PÊL-RWYD: dau oedran — Bl. 3/4; Bl. 5/6. 7 bob ochr a 2 eilydd (carfan o 9 aelod);

TÂL CYSTADLU; £5 y tîm. (Rhaid ei dalu wrth gyflwyno'r ffurflen gystadlu.)

FFURFLENNI CYSTADLU. Dim ond

y rhain a dderbynnir a rhaid eu dychwelyd i mi erbyn **MEHEFIN 17**. Ni dderbynnir unrhyw enwau cystadleuwyr dros y ffôn, ac yn sicr ddim ar noson y cystadlu. Bydd trefn

y noson wedi'i wneud ymlaen llaw ac ni ellir ei newid ar y noson. **LLUNIAETH YSGAFN:** Bydd lluniaeth wedi'i baratoi gan Gyfeillion Ysgol Llanrug.

TLWS ECO'R WYDDFA (CYNRADD) NOS IAU, 24 MEHEFIN 1999 YSGOL GYNRADD LLANRUG

Y chwarae i ddechrau'n brydlon am 5.30 p.m.

TLWS YR ECO — PÊL-DROED

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: Bl. 3/4 _____ Bl. 5/6 _____ (Ticiwch y man priodol)

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES/NAGOE\$ Swm £ _____

TLWS YR ECO — PÊL-RWYD

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: Bl. 3/4 _____ Bl. 5/6 _____ (Ticiwch y man priodol)

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES/NAGOE\$ Swm £ _____

★ Y ffurflen i'w dychwelyd i **RICHARD LLOYD JONES, 5 Y DDÔL, BETHEL** dim hwyrach na **NOS IAU, 17 MEHEFIN YNGHYD Â'R TÂL PERTHNASOL**

ADRODDIAD PENTYMOR



Ym myd y bêl-droed ni chawsom bencampwyr cynghrair ond daeth Llanberis yn hynod o agos. Ail oeddent yng Nghyngrair Fitlock, ond dim ond gwahaniaeth goliau oedd yn eu gwahanu oddi wrth Llangefni y pencampwyr. Unwaith eto tueddiad Llanberis yw chwarae'n dda yn erbyn y timau gorau, a cholli ambell bwynt yn erbyn y timau llai. Ynglŷn â'r Fitlock, fe gyfyd pwynt i'w drafod. Yn amlwg, oherwydd llwyddiannau mewn cwpanau mae rhai clybiau am chwarae mwy o gemau — ond oni ddylai pob clwb orffen eu gemau cynghrair ar yr un dyddiad? Gyda'r gemau 'mewn llaw' fe ddaw ambell chwaraewyr newydd o gynghreiriau sydd wedi gorffen i helpu'r timau. Sustem annheg, yn fy marn i, ac amser yn bendant i ffarwelio â'r chwaraewyr 'ail ffurflen'.

Cyrhaeddodd Deiniolen y pumed safle yng Nghyngrair Gwynedd, a hwythau gyda'r un pwyntiau â'r ddau dim uwch eu pennau. Siomedig fydd Deiniolen ar y cyfan, ac unwaith eto anghysondeb sydd wedi bod yn amlwg yn eu chwarae.

Anghysondeb sy'n disgrifio taith Llanrug hefyd yng Nghyngrair Gwynedd. Daeth tlws — a bu bron iawn ddau — ond maent yn bell o fod yn dîm i herio am y bencampwriaeth. Dyna oedd nod Llanrug ychydig dymhorau'n ôl. Gyda llaw, mae pwyllgor neu dirmon Llanrug yn haeddu tlws. Yn ddi-os dyma'r maes pêl-droed gorau yn yr ardal.

Bydd Waunfawr yn siomedig o'u safle terfynol yng Nghyngrair Caernarfon a'r Cylch. Mae'r strwythur wedi ei osod yn y pent4ref ond mae nifer o gemau cyfartal — pam fu'r tîm ar y blaen — wedi cyfrannu at y safle cymharol isel.

Gyda thristwch mae rhywun yn edrych ar bum tîm gwaelod

(Parhad ar dudalen 22)